wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Gwerthusiad o gyflawniad ac effaith Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngogledd Cymru




Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 High Street, Bristol, BS1 2AW
- Swyddfa gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com

https://twitter.com/wavehilltweets

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad

Ioan Teifi, Stuart Merali-Younger, Yr Athro Peter Welsh Ph.D.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Ioan Teifi

Dyddiad y ddogfen: Rhagfyr 2025

Fersiwn: Terfynol

Manylion y cleient

Dylan Griffiths, Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu Economaidd a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru, dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r nifer fawr o unigolion a roddodd o'u hamser i gynorthwyo yn y gwerthusiad, ac roedd pob un ohonynt yn bwysig wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn. Ni fyddai'r gwerthusiad hwn wedi bod yn bosibl heb yr holl gyfraniadau hyn.

# Rhestr o dalfyriadau

| Talfyriad | Term llawn |
|---|---|
| **NEET** | Nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| **TAPI / TAPI 2** | Tîm o Amgylch y Person Ifanc |
| **WEFO** | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| **MALlC** | Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru |

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ i

Cyflwyniad ........ i

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol ........ i

Effeithiau tymor hwy a ragwelir ........ ii

Gwersi allweddol a ddysgwyd ........ iii

Argymhellion ........ iv

1. Cyflwyniad ........ 1

1.1 Y Gronfa ........ 1

1.2 Gweithrediad yng Ngogledd Cymru ........ 2

1.3 Dulliau gwerthuso ........ 4

2. Cyd-destun Strategol a Damcaniaeth Newid ........ 8

2.1 Nodweddion allweddol rhanbarth Gogledd Cymru ........ 8

2.2 Trosolwg hanesyddol o gyllid datblygu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru ........ 10

2.3 Dyluniad a gweithrediad rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngogledd Cymru 12

2.4 Damcaniaeth newid ar gyfer y rhaglen ........ 15

3. Perfformiad Ariannol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ........ 19

3.1 Gwariant Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ........ 19

3.2 Perfformiad yn erbyn targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ........ 21

4. Adolygiad o'r Cyflawniad a'r Prosesau ........ 27

4.1 Dull cyflawni ar sail galwad agored ........ 27

4.2 Ymgysylltu â buddiolwyr ........ 29

4.3 Effeithiolrwydd y prosesau cyflawni ........ 34

4.4 Boddhad â'r cymorth ........ 40

4.5 Rheoli a Llywodraethu'r Rhaglen ........ 40

4.6 Ffactorau llwyddiant allweddol a meysydd i'w gwella ........ 41

5. Gwerthusiad o Effaith ........ 45

5.1 Effeithiau cymdeithasol ac ar sail lle ........ 45

5.2 Effeithiau economaidd ac amgylcheddol ........ 52

6. Dadansoddiad Cymharol: Rhanbarthau Eraill a Modelau Cyllido Blaenorol ........ 58

6.1 Cymharu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a modelau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol ........ 58

6.2 Cymharu cyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru â chyflawniad mewn rhanbarthau eraill....67
7. Casgliadau ac Argymhellion....70
7.1 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol....70
7.2 Effeithiau tymor hwy a ragwelir....70
7.3 Gwersi allweddol a ddysgwyd....71
7.4 Argymhellion....72
Atodiad A: Rhestr o Brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru....74
Atodiad B: Y Fframwaith Gwerthuso....90
Nodau'r Gwerthusiad a'r Cwestiynau Gwerthuso....90
Cam 2: Adroddiad Gwerthuso Cychwynnol sy'n cwmpasu cyflawniad rhwng 2022/23 a 2024/25....92
Cam 3: Adroddiad Gwerthuso Terfynol yn ymdrin â chyflawniad yn ystod 2025/26....93
Cwestiynau gwerthuso allweddol....94
Atodiad C: Trosolwg hanesyddol o gyllid datblygu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru....96
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd....96
Trefniadau ar ôl Brexit....101
Atodiad D: Tablau Perfformiad Allbynnau a Chanlyniadau....104

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Comisiynwyd Wavehill ym mis Ebrill 2025 i gynnal gwerthusiad o gyflawniad ac effaith Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngogledd Cymru.

Darparwyd cyfanswm o £126m o ddyraniad gan lywodraeth y DU i ranbarth Gogledd Cymru (sy'n ffurfio chwe awdurdod lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam) i gyflawni rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn yr ardal ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2022 i Fawrth 2025. Roedd pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn rheoli ei ddyraniad ei hun o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac yn gwneud penderfyniadau lleol ar sut i ddefnyddio'r cyllid, ond gyda Chyngor Gwynedd wedi'i enwebu i fod yn awdurdod arweiniol ar ran y rhanbarth.

Bu'r rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau'n lleol yn gweithio gyda'u cymunedau lleol a'u partneriaid i gyflawni ymyriadau o dan dair blaenoriaeth fuddsoddi:

1) **Cymunedau a Lle:** galluogi lleoedd i fuddsoddi i adfer eu mannau cymunedol a'u perthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygu economaidd ar lefel y gymdogaeth, i helpu i gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau, gan helpu i feithrin balchder mewn lle.
2) **Cefnogi Busnesau Lleol:** galluogi lleoedd i ariannu ymyriadau sy'n cefnogi busnesau lleol i ffynnu, arloesi a thyfu.
3) **Pobl a Sgiliau:** cyllid i helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith a'u cynorthwyo i symud tuag at gyflogaeth ac addysg. Gallai lleoedd hefyd dargedu cyllid tuag at sgiliau ar gyfer ardaloedd lleol i gefnogi cyflogaeth a thwf lleol.

Mae'r tair blaenoriaeth fuddsoddi hynny yn cynnwys gweithgareddau 'craidd' y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol hefyd gyflwyno set o weithgareddau o dan Lluosi, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi mentrau rhifedd oedolion.

Dyrannwyd £42.4m arall i Ogledd Cymru i weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin dros flwyddyn bontio 2025/26. Mae'r ddogfen hon yn adroddiad gwerthuso cychwynnol sy'n archwilio gweithrediad y Gronfa yn y cyfnod 2022/23 i 2024/25 a bydd adroddiad terfynol yn dilyn sy'n ystyried gweithgareddau 2025/26 yng Ngwanwyn 2026.

## Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Mae'r gwerthusiad yn dangos bod rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru wedi cyflawni ystod eang o weithgareddau ac allbynnau mewn cyd-destun heriol. Yn gyffredinol, cyflawnodd y rhaglen lefel uchel o berfformiad ariannol, gyda 98% o'r dyraniad wedi'i wario, er bod amrywiadau rhwng blaenoriaethau buddsoddi. Ymyriadau Cymunedau a Lle oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant ac allbynnau tra bod Lluosi yn tanberfformio o gymharu â'i ddyraniad oherwydd galw cyfyngedig a heriau wrth gyflawni.

Roedd y perfformiad yn erbyn targedau dangosyddion perfformiad allweddol yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac roedd y rhan fwyaf o’r dangosyddion wedi'u cyflawni neu rhagorwyd arnynt. Fodd bynnag, mae maint y gorgyflawni yn achos rhai dangosyddion yn awgrymu efallai nad yw’r targedau bob amser wedi'u gosod ar lefel briodol, ac mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn fel tystiolaeth o effaith. Ni chyflawnwyd rhai dangosyddion canlyniadau pwysig, megis creu swyddi a chymwysterau Lluosi, yn llawn.

Mae'r dull galwad agored wedi galluogi’r arfer o deilwra’n lleol ac ymgysylltiad cryf â phartneriaid cyflawni sefydledig, ac roedd hynny wedi’i gefnogi wrth gyflwyno Cronfeydd Allweddol a oedd yn ehangu mynediad i sefydliadau llai. Fodd bynnag, creodd y dull hwn hefyd bwysau gweinyddol a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer ymyriadau mwy strategol ar draws y rhanbarth. Canfuwyd bod y model llywodraethu hybrid sy'n cyfuno cydlynu rhanbarthol â chyflawni lleol yn effeithiol ar y cyfan, ond roedd cyfyngiadau capasiti ac amserlenni byr yn creu tagfeydd ar gamau cymeradwyo, contractio, a cheisiadau newid.

O gymharu â modelau cyllido blaenorol yr UE, roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth leol ond nid oedd ganddi'r sicrwydd hirdymor a'r cydlyniant strategol a oedd o gymorth i brosiectau trawsnewidiol o dan raglenni cynharach. Roedd y ffaith bod y ffenestr gyflawni wedi’i chwtogi yn her dro ar ôl tro, gan effeithio ar recriwtio, caffael, a'r gallu i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd.

## Effeithiau tymor hwy a ragwelir

Mae'n rhy gynnar i wneud datganiadau pendant am effeithiau hirdymor, ond mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu sawl maes lle gall buddion barhau i ddod i'r amlwg:

- **Asedau cymunedol a balchder mewn lle:** Mae buddsoddiadau mewn mannau cyhoeddus, cyfleusterau diwylliannol, ac amwynderau lleol wedi cyflawni gwelliannau gweladwy mewn llawer o gymunedau. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o gyfrannu at well canfyddiadau o le a mwy o ymgysylltiad cymunedol, er y bydd gwytnwch yr effeithiau hyn yn dibynnu ar gynnal a chadw parhaus a gweithgarwch cyflenwol.
- **Capasiti’r trydydd sector:** Mae'r rhaglen wedi galluogi rhai sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ehangu eu cyrhaeddiad a chryfhau eu capasiti gweithredol. Gall hyn wella eu gwytnwch a'u gallu i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, er y bydd angen cyllid a chymorth parhaus ar gyfer hyn.
- **Cyflogadwyedd a sgiliau:** Roedd llawer o ymyriadau Pobl a Sgiliau yn targedu unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae'r prosiectau hyn wedi darparu hyfforddiant a gweithgareddau meithrin hyder a allai helpu pobl i symud ymlaen at waith cyflogedig neu ddysgu pellach. Fodd bynnag, gallai’r cyfnod cyflawni byr a dibyniaeth ar gontractau tymor byr gyfyngu ar gynaliadwyedd y canlyniadau hyn heb ddarpariaeth ddilynol.

- **Datblygu busnes a datgarboneiddio:** Mae gan gefnogaeth i fusnesau lleol, gan gynnwys cyngor ar arloesi a datgarboneiddio, y potensial i gyfrannu at gystadleurwydd tymor hwy a nodau amgylcheddol. Mae maint yr effaith hon yn debygol o fod yn gymedrol o ystyried y gyfran gymharol fach o'r cyllid a ddyrannwyd i'r flaenoriaeth hon a'r amserlen fer ar gyfer cyflawni.

Yn gyffredinol, er bod y rhaglen wedi gosod rhai sylfeini cadarnhaol, bydd y graddau y mae'r rhain yn trosi i newid parhaol yn dibynnu ar fuddsoddiad a pharhad polisi yn y dyfodol.

## Gwersi allweddol a ddysgwyd

Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at nifer o wersi a ddylai lywio dyluniad rhaglenni yn y dyfodol:

- **Cydbwyso hyblygrwydd â ffocws strategol:** Roedd ymreolaeth leol yn cael ei werthfawrogi'n eang ac yn galluogi ymyriadau i adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, roedd absenoldeb mecanweithiau rhanbarthol cryf yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer prosiectau trawsffiniol a chydweddu strategol. Gall rhaglenni yn y dyfodol elwa o ddull cymysg sy'n cyfuno hyblygrwydd lleol â chydlynu rhanbarthol.
- **Pwysigrwydd amserlenni realistig:** Y ffaith bod y ffenestr gyflawni wedi'i chwtogi oedd yr her fwyaf arwyddocaol a nodwyd ar draws pob ffynhonnell dystiolaeth. Effeithiodd ar recriwtio, caffael, a'r gallu i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd. Mae sicrwydd aml-flwyddyn yn hanfodol er mwyn cyflawni canlyniadau ystyrlon a chadw staff medrus.
- **Eglurder a chymesuredd wrth fonitro:** Er bod y dull ysgafnach o fonitro yn cael ei groesawu, roedd y diffyg canllawiau clir yn creu ansicrwydd ac anghysondeb. Ar yr un pryd, roedd y nifer fawr o ddangosyddion perfformiad allweddol yn rhoi baich ar sefydliadau llai ac yn diddymu eu defnyddioldeb wrth asesu perfformiad. Dylai rhaglenni yn y dyfodol geisio cael diffiniadau cliriach a set symlach o ddangosyddion sy'n cyd-fynd â'r ddamcaniaeth newid.
- **Targedu ymyriadau arbenigol:** Mae profiad Lluosi yn dangos risgiau cymhwyso fformiwlâu cyllido unffurf heb ystyried y galw lleol neu gapasiti cyflawni. Mae'n dangos gwendid rhaglenni sy'n cael eu pennu'n genedlaethol pan nad oes ganddynt fewnbwn lleol priodol. Dylai rhaglenni yn y dyfodol ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau i ymyriadau arbenigol.
- **Capasiti a gallu:** Roedd awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni yn wynebu cyfyngiadau capasiti, yn enwedig o ran rheoli'r rhaglen a chydymffurfiaeth. Mae adnoddau digonol ar gyfer y swyddogaethau hyn yn hanfodol i sicrhau cyflawniad effeithiol.

# Argymhellion

1) **Mabwysiadu model cyflawni cymysg:** Cyfuno galwadau agored am brosiectau dan arweiniad y gymuned gyda chomisiynu strategol ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol fel cyflogadwyedd, cymorth busnes, a datgarboneiddio. Byddai hyn yn caniatáu'r gallu i ymateb yn lleol a thargedu buddsoddiad mewn meysydd sydd â'r angen mwyaf.

2) **Cryfhau cydlynu rhanbarthol:** Cyflwyno mecanweithiau ffurfiol ar gyfer cydgynllunio a chyfuno adnoddau er mwyn osgoi dyblygu a galluogi prosiectau trawsffiniol lle mae'r rhain yn ychwanegu gwerth. Gallai hyn gynnwys panel buddsoddi rhanbarthol neu ffrwd gyffredin o brosiectau strategol, wedi'u cynnwys yng nghamau cychwynnol dyluniad y rhaglen.

3) **Darparu sicrwydd cyllido tymor hwy:** Rydym yn cydnabod bod hyn y tu hwnt i reolaeth y rhaglen yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig argymell y dylid symud i ffwrdd o ddyraniadau tymor byr i setliadau aml-flwyddyn sy'n cyd-fynd â strategaethau rhanbarthol. Byddai hyn yn galluogi cynllunio gwell, lleihau risgiau cyflawni, a gwella cyfraddau cadw staff.

4) **Symleiddio monitro a gwerthuso:** Lleihau nifer y dangosyddion perfformiad allweddol a chanolbwyntio ar set lai o ddangosyddion ystyrlon sy'n cysylltu â'r ddamcaniaeth newid. Darparu canllawiau clir ar y dechrau a sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.

5) **Cynnal a gwella Cronfeydd Allweddol:** Parhau i ddarparu mecanweithiau i sefydliadau llai gael mynediad at gyllid ond symleiddio prosesau ymgeisio ac adrodd a chynnig cymorth technegol i adeiladu capasiti yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

6) **Cydweddu â strwythurau llywodraethu datganoledig:** Sicrhau bod rhaglenni'r DU a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn ategu ei gilydd ac yn osgoi darnio. Mae hyn yn cynnwys cydweddu blaenoriaethau â Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol.

7) **Buddsoddi mewn capasiti a sgiliau:** Dyrannu cyllid gweinyddol digonol i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni. Ystyried darparu adnoddau ar y cyd neu dimau cymorth rhanbarthol i leihau dyblygu a mynd i'r afael â bylchau mewn capasiti.

8) **Cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd:** Annog prosiectau i ddatblygu strategaethau ymadael ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid parhad neu integreiddio â gwasanaethau prif ffrwd i wneud y mwyaf o waddol buddsoddiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

9) **Mwy o safoni adroddiadau gwerthuso:** Mae'r gofyniad i bob prosiect gael ei werthuso wedi cynhyrchu cyfoeth o ddata i lywio'r adroddiad hwn. Er y bu hyn yn werthfawr iawn, mae amrywiadau o ran cadernid a chynnwys wedi cyfyngu i ba raddau y gellid cyfuno’r canfyddiadau. Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, byddai mwy o safoni gofynion gwerthuso yn helpu i sicrhau bod modd cymharu ac yn ei gwneud yn haws cyfuno canlyniadau.

# 1. Cyflwyniad

Comisiynwyd Wavehill ym mis Ebrill 2025 i gynnal gwerthusiad o gyflawniad ac effaith Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngogledd Cymru. Adroddiad gwerthuso cychwynnol yw hwn sy'n archwilio gweithrediad y Gronfa yn y cyfnod o 2022/23 i 2024/25 a bydd adroddiad terfynol yn dilyn sy'n ystyried gweithgareddau yn 2025/26 yng Ngwanwyn 2026.

## 1.1 Y Gronfa

Lansiwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2022. Darparodd £2.6 biliwn o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol erbyn mis Mawrth 2025, gyda £900 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer 2025-26.

Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol yn gweithio gyda'u cymunedau lleol a'u partneriaid i gyflawni ymyriadau o dan dair blaenoriaeth fuddsoddi:

1) **Cymunedau a Lle:** galluogi lleoedd i fuddsoddi i adfer eu mannau cymunedol a'u perthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygu economaidd ar lefel y gymdogaeth, i helpu i gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau, gan helpu i feithrin balchder mewn lle.
2) **Cefnogi Busnesau Lleol:** galluogi lleoedd i ariannu ymyriadau sy'n cefnogi busnesau lleol i ffynnu, arloesi a thyfu.
3) **Pobl a Sgiliau:** cyllid i helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith a'u cynorthwyo i symud tuag at gyflogaeth ac addysg. Gall lleoedd hefyd dargedu cyllid tuag at sgiliau ar gyfer ardaloedd lleol i gefnogi cyflogaeth a thwf lleol.

Dyluniwyd y rhaglen gyda'r bwriad o 'rymuso lleoedd' i ganfod ac adeiladu ar eu cryfderau a'u hanghenion eu hunain ar lefel leol, gyda ffocws ar wella balchder cymunedol a gwella cyfleoedd bywyd. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ehangach o ran cwmpas na chronfeydd Ewropeaidd blaenorol y mae'n eu disodli, ond gyda chyllideb tebyg am debyg wedi'i lleihau'n sylweddol. Ni ellir defnyddio'r cyllid i ddisodli darpariaeth statudol.

Derbyniodd Cymru gyfanswm o £585 miliwn o ddyraniad gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2025, sy'n cynnwys £484 miliwn ar gyfer gweithgareddau 'craidd' y Gronfa Ffyniant Gyffredin (wedi'i ddyrannu i'r tair blaenoriaeth fuddsoddi) a £101 miliwn ar gyfer Lluosi, rhaglen rhifedd oedolion sy'n canolbwyntio ar gefnogi mentrau rhifedd oedolion.


Dyrannwyd y cyllid gan ddefnyddio fformiwla sy'n cynnwys 40% wedi'i ddosbarthu ar sail y pen, 30% yn seiliedig ar y mynegai ar sail anghenion gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU[1], a 30% yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Derbyniodd Cymru £210 miliwn ychwanegol ar gyfer 2025/26 drwy fethodoleg fformiwla wedi'i diweddaru[2].

Mae'r Gronfa'n cynorthwyo cyflawniad ar draws pedair ardal ddaearyddol strategol ranbarthol yng Nghymru: Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-ddwyrain Cymru, a De-orllewin Cymru.

## 1.2 Gweithrediad yng Ngogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru yn cynnwys chwe awdurdod lleol, sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, a Wrecsam.

Ffigur 1.1: Map sy'n dangos ardaloedd awdurdodau lleol yn rhanbarth Gogledd Cymru




---

[1] Roedd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn fenter y llywodraeth a lansiwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Ei nod oedd cefnogi cymunedau lleol ledled y DU trwy dreialu rhaglenni a dulliau arloesol i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a oedd yn disodli cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Dyluniwyd y mynegai seiliedig ar anghenion a ddefnyddiwyd ar gyfer y Gronfa i ddewis 100 o "leoedd blaenoriaeth" ledled Prydain Fawr. Dewiswyd y lleoedd hyn yn seiliedig ar eu gwytnwch economaidd, gyda'r nod o sicrhau bod y gronfa yn targedu'r ardaloedd sydd fwyaf angen cymorth.

[2] Ar gyfer y flwyddyn ychwanegol o gyllid yn 2025/26, newidiodd y dull hwn. Yn hytrach na defnyddio'r un fformiwla, seiliodd Llywodraeth y DU y dyraniadau ar gyfran flaenorol pob awdurdod lleol o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond gan wneud addasiadau i amddiffyn ardaloedd rhag gostyngiadau sydyn a chyfeirio mwy o gyllid refeniw tuag at leoedd â lefelau uwch o amddifadedd. Roedd hyn yn golygu bod y flwyddyn o estyniad yn canolbwyntio mwy ar sefydlogrwydd ac yn targedu angen yn hytrach na dilyn y fformiwla bwysoli wreiddiol yn llym. Ffynhonnell: **Dyraniadau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 2025-26: Nodyn Methodoleg - GOV.UK**

Enwebwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Fel yr awdurdod lleol arweiniol, mae'n derbyn dyraniad y rhanbarth ac yn dal atebolrwydd cyffredinol am y cyllid.

Rhoddwyd cyfrifoldeb i lywodraeth leol am ddatblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, i'w gymeradwyo gan Lywodraeth y DU, a chyflawni'r Gronfa yn dilyn hynny. Datblygwyd y cynllun ar y cyd gan y chwe awdurdod lleol gan nodi blaenoriaethau rhanbarthol allweddol ar gyfer buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys yn bennaf:

- Gwella rôl y trydydd sector
- Cynyddu atyniad a diogelwch y parth cyhoeddus
- Lleihau rhwystrau hirdymor i ddiweithdra
- Hybu sgiliau
- Lleihau allyriadau carbon busnesau lleol

Caiff rhestr o brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru ei chyflwyno yn Atodiad A.

Roedd pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn rheoli ei ddyraniad ei hun o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac yn gwneud penderfyniadau lleol ar sut i ddefnyddio'r cyllid. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffordd y cafodd y rhaglen ei strwythuro: roedd y cyfanswm rhanbarthol yn cynnwys dyraniadau awdurdodau lleol unigol, yn hytrach na chael ei ddarparu fel un pot ar gyfer y rhanbarth.

Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y rhanbarth oedd £126m dros gyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2025, a oedd yn cynnwys cyllid 'craidd' a rhaglen Lluosi. Mae'r dyraniad ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth wedi'i restru isod.

- Ynys Môn - £13.3m (craidd) a £2.8m (Lluosi) gan gwneud cyfanswm o **£16.1m**
- Conwy - £20.3m (craidd) a £4.2m (Lluosi) yn gwneud cyfanswm o **£24.5m**
- Sir Ddinbych - £21.2m (craidd) a £4.4m (Lluosi) yn gwneud cyfanswm o **£25.7m**
- Sir y Fflint - £10.8m (craidd) a £2.3m (Lluosi) yn gwneud cyfanswm o **£13.1m**
- Gwynedd - £20.2m (craidd) a £4.2m (Lluosi) yn gwneud cyfanswm o **£24.2m**
- Wrecsam - £18.8m (craidd) a £3.9m (Lluosi) yn gwneud cyfanswm o **£22.7m**

Dyrannwyd £42.4m arall i Ogledd Cymru ar gyfer blwyddyn bontio 2025/26.

Mae'r 'Tîm Rhanbarthol' yng Nghyngor Gwynedd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer adrodd, goruchwylio ariannol a chydymffurfio ar lefel y rhaglen. Roedd y derbynwyr grant yn hanfon eu hawliadau a'u hadroddiadau cynnydd yn uniongyrchol i'r Tîm Rhanbarthol. Roedd y chwe awdurdod lleol yn goruchwylio gweithgareddau ar gyfer eu hardal: arfarnu a chymeradwyo ceisiadau prosiectau, rheoli newidiadau i brosiectau, a chymorth parhaus i brosiectau. Roedd y model hybrid o gyflawni yn cydbwyso cydlynu rhanbarthol â pherchnogaeth leol.

## 1.3 Dulliau gwerthuso

Mae tri cham i'r gwerthusiad fel a ganlyn:

- Cam 1: Cwmpasu a Fframwaith - pwrpas y cam hwn oedd egluro'r amcanion gwerthuso, adolygu Damcaniaeth Newid y rhaglen, a sefydlu methodoleg sydd wedi'i chyflwyno ar ffurf Fframwaith Gwerthuso.
- Cam 2: Adroddiad Gwerthuso Cychwynnol - adolygu'r gwersi a ddysgwyd a'r effaith a ragwelir mewn perthynas â'r gyfran ariannu rhwng 2022/23 a 2024/25.
- Cam 3 - Adroddiad Gwerthuso Terfynol: darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o'r gwersi a ddysgwyd a'r effeithiau, gan gynnwys gwybodaeth o gyfran ariannu 2025/26.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn cyflawni Camau 1 a 2 ar yr un pryd, a gwblhawyd rhwng Ebrill a Gorffennaf 2025. Disgwylir i'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol (Cam 3) gael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2026.

### 1.3.1 Nodau'r gwerthusiad

Nod y gwerthusiad yw asesu effeithiolrwydd cyflawni rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru, nodi'r effeithiau tymor byr a gyflawnwyd, a rhagweld canlyniadau tymor hwy. Mae hefyd yn ceisio casglu'r gwersi a ddysgwyd, adolygu rheolaeth y rhaglen, a darparu argymhellion ar sail tystiolaeth i lywio polisi datblygu rhanbarthol yn y dyfodol.

Y tu hwnt i'r nodau gwerthuso eang hyn, mae dau faes ffocws arbennig o bwysig ar gyfer y gwerthusiad:

Yn gyntaf, llywio gwaith cynllunio a dylunio parhaus Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer ymyriadau datblygu rhanbarthol yn y dyfodol. Mae model cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn wahanol iawn i'w ragflaenydd fel rhan o'r UE, yn enwedig o ran strwythurau gwneud penderfyniadau, rôl gwahanol lefelau llywodraeth, a gwerth a ffocws y cyllid. Yn unol â hynny, un o brif ffocysau'r cam gwerthuso cyntaf hwn oedd asesu rhinweddau'r ddau ddull gweithredu.

Yn ail, cydweddu â gweithgareddau gwerthuso eraill. Mae cyfoeth o waith gwerthuso wedi'i wneud yng Ngogledd Cymru, yn amrywio o asesiadau ar lefel prosiect i gomisiwn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ledled y DU sy'n archwilio effeithiau'r rhaglen mewn ardaloedd penodol, gan gynnwys Gogledd Cymru fel astudiaeth achos. Mae ymgynghoriadau helaeth â rhanddeiliaid a buddiolwyr eisoes wedi'u cynnal trwy'r gwerthusiadau hyn. Er mwyn osgoi dyblygu, mae Cam 2 y gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio ar ymchwil eilaidd, gan gynnwys meta-adolygiad o'r holl adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect.

Mae'r gwerthusiad ledled y DU yn cynnal adolygiad effaith manwl o dan dair thema:

- Grymuso cymunedau a gwella'r sector gwirfoddol a chymunedol
- Datgarboneiddio Gogledd Cymru
- Gwella sgiliau sylfaenol, digidol a 'meddal'

**Er mwyn ategu'r adolygiad effaith manwl a gynhaliwyd eisoes yn unol â'r themâu penodol hynny, rôl y gwerthusiad hwn yw cynnal adolygiad lefel uwch o effeithiau holl weithgareddau'r prosiect.**

### 1.3.2 Methodoleg

Mae'r Fframwaith Gwerthuso sy'n sail i'r adroddiad hwn a'r cam olaf wedi'i amlinellu yn Atodiad B ac mae'n cynnwys y tasgau canlynol:

- Tasg 2.1: Adolygiad desg manwl – adolygiad o ddata Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gwariant, gan dynnu ar y data diweddaraf sydd ar gael o Ddangosfwrdd Power BI y rhaglen (tynnwyd ym mis Medi 2025[3]), ac adolygiad desg i gymharu gwahaniaethau yn y model cyflawni ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin o gymharu â modelau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol.
- Tasg 2.2: Meta-adolygiad o werthusiadau ar lefel prosiect – roedd hyn yn cynnwys adolygiad o 122 o adroddiadau gwerthuso sy'n cwmpasu 169 o brosiectau a ariannwyd yn y cyfnod 2022/23 i 2024/25. Mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau sylweddol i'r adolygiad hwn, yn nodedig bod yr adroddiadau gwerthuso yn amrywio'n sylweddol yn eu cadernid – o adroddiadau annibynnol llawn i grynodebau mewnol byr. Roedden nhw hefyd yn amrywio o ran cynnwys. **Am y rheswm hwn, mae'r rhan fwyaf o ddadansoddiadau'r meta-adolygiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn tynnu ar sampl llawer llai na'r 122 o adroddiadau gwerthuso a nodwyd uchod.**
- Tasg 2.3: Defnyddio tystiolaeth a gasglwyd drwy werthusiadau cenedlaethol – gan ddefnyddio tystiolaeth o'r gwerthusiad a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o gyflawniad ac effaith yng Ngogledd Cymru i osgoi dyblygu. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriadau â rhanddeiliaid (30 cyfweliad â staff awdurdodau lleol a darparwyr cyflenwi allanol) ac arolwg arweinwyr prosiect (arolwg o 59 o 148 o arweinwyr prosiect unigol (40%)) yr ydym yn cyfeirio atynt trwy gydol yr adroddiad hwn. Roedd y dasg hon hefyd yn tynnu ar dystiolaeth werthuso o astudiaethau achos o ardaloedd eraill y DU er mwyn amlygu arferion da.
- Tasg 2.4: Ymgynghoriadau ag Arweinwyr Awdurdodau Lleol – cynhaliwyd saith cyfweliad i ategu'r gweithgarwch ymchwil eilaidd a ddisgrifir uchod.
- Tasg 3.1: Adolygiad desg wedi'i ddiweddaru i dynnu ar ddata allweddol y rhaglen sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2025/26
- Tasg 3.2: Meta-adolygiad wedi'i ddiweddaru o unrhyw adroddiadau gwerthuso wedi'u cwblhau ar gyfer prosiectau a gyflawnwyd o dan gyfran ariannu 2025/26.
- Tasg 3.3: Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid – ymgynghori ag arweinwyr cyflawni y prosiectau a ariannwyd o dan gyfran ariannu 2025/26 ynghyd â chyfweliadau â rhanddeiliaid strategol.

[3] Gall y ffigurau hyn amrywio ychydig o'r data a gyflwynir yn adroddiad diwedd blwyddyn 2025 a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU oherwydd y broses barhaus o wirio a chydgrynhoi canlyniadau lle gall awdurdodau lleol barhau i adrodd rhai canlyniadau sy'n cael eu gwireddu yn 2025/26 o ganlyniad i gyllid 2022-25. Bydd y ffigurau'n parhau i amrywio ychydig tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26.

Mae tasgau 2.1 i 2.4 eisoes wedi'u cynnal ac maen nhw’n ymwneud â Cham 2 y gwerthusiad, sy’n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn. Bydd tasgau 3.1 i 3.3 yn cael eu cynnal tua diwedd 2025 / dechrau 2026 a byddant yn llywio'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiynau gwerthuso ar gyfer rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Mae pob cwestiwn wedi’i baru â'r tasgau gwerthuso perthnasol sy’n cael eu defnyddio i lywio ein hasesiad.

| Cwestiwn gwerthuso | | Tasgau i fynd i'r afael â’r cwestiwn |
|---|---|---|
| a) | **Gwerthuso’r Cyflawniad a’r Prosesau** | |
| 1. | Pa mor effeithiol y mae'r rhaglen wedi'i rheoli a'i gweinyddu yng Ngogledd Cymru? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2 |
| 2. | Beth yw'r themâu cyffredin, y gwersi a ddysgwyd a'r negeseuon allweddol mewn perthynas â chyflawni’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru ac ym mhob awdurdod lleol unigol? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 3. | Sut mae cyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru yn cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru a thu hwnt? | 2.3 |
| 4. | Pa agweddau ar gyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru ddylai helpu i lywio'r anghenion a'r blaenoriaethau datblygu rhanbarthol ar gyfer yr ardal yn y dyfodol? | 2.1, 2.2, 2.4 |
| 5. | Beth yw manteision ac anfanteision dull gweithredu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin o gymharu â modelau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol (yn benodol dulliau ariannu Amcan 1 a’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd)? | 2.1, 2.2, 2.4 |
| 6. | Ym mha ffordd y mae model y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ffafriol i gyflawni'n effeithiol yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol allweddol? | 2.1, 2.2, 2.4 |
| b) | **Perfformiad Ariannol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | |
| 7. | Pa gynnydd a wnaeth y rhaglen tuag at gyflawni ei thargedau ariannol, allbynnau a chanlyniadau ledled Gogledd Cymru ac ym mhob awdurdod lleol? | 2.1, 3.1 |
| 8. | Sut roedd y perfformiad hwn yn amrywio yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi? | 2.1, 3.1 |
| 9. | Pa ffactorau sy'n esbonio amrywiadau, gan gynnwys tan- neu or-berfformiad? | 2.2, 2.4, 3.2, 3.3 |

| Cwestiwn gwerthuso | | Tasgau i fynd i'r afael â'r cwestiwn |
|---|---|---|
| c) | **Gwerthusiad o Effaith** | |
| 10. | Beth yw effeithiau tymor byr yr ymyriadau? | 2.1, 2.2, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3 |
| 11. | Beth yw'r effeithiau tymor hwy ar Ogledd Cymru gyfan ac mewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol? | 2.2, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 12. | Sut mae'r rhaglen wedi darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd lleol a chymunedol? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 13. | I ba raddau y mae'r ymyriadau wedi diwallu anghenion cymunedau, ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn gyffredinol? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 14. | Pa ganlyniadau neu effeithiau annisgwyl neu anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) sydd wedi digwydd? | 2.2, 2.4, 3.2, 3.3 |

### 1.3.3 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi cyd-destun strategol yr adroddiad, gan gynnwys trafodaeth ar y ddamcaniaeth newid ar gyfer y rhanbarth.
- Mae Pennod 3 yn adolygu perfformiad yn erbyn targedau ariannol a dangosyddion perfformiad allweddol y rhaglen.
- Mae Pennod 4 yn datgelu canfyddiadau allweddol o'n hadolygiad o'r cyflawniad a'r prosesau
- Mae Pennod 5 yn trafod y prif effeithiau a gynhyrchwyd gan y rhaglen.
- Mae Pennod 6 yn amlinellu canfyddiadau o'n dadansoddiad cymharol o gyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru a rhanbarthau eraill a chyflawniad rhaglenni blaenorol yng Ngogledd Cymru.
- Mae Pennod 7 yn cloi'r adroddiad gyda chyfres o argymhellion.

Mae sawl atodiad hefyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon:

- Mae Atodiad A yn darparu rhestr lawn o'r prosiectau a ariannwyd gan y rhaglen.
- Mae Atodiad B yn cyflwyno'r Fframwaith Gwerthuso sy'n sail i'r adroddiad hwn ac adroddiadau sydd i ddod.
- Mae Atodiad C yn rhoi trosolwg hanesyddol o gyllid datblygu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.
- Mae Atodiad D yn dangos set lawn o dargedau a chyflawniadau allbynnau a chanlyniadau.

# 2. Cyd-destun Strategol a Damcaniaeth Newid

Mae'r bennod hon yn rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y gwerthusiad drwy roi trosolwg o'r rhanbarth a'i flaenoriaethau allweddol, cyd-destun hanesyddol ar gyfer buddsoddiad mewn datblygu rhanbarthol, ac amlinelliad byr o fodel y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru.

## 2.1 Nodweddion allweddol rhanbarth Gogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru yn gartref i oddeutu 687,000 o bobl[4], ac mae’n rhan sylweddol o economi Cymru, gan gyfuno canolfannau trefol fel Wrecsam a threfi arfordirol fel Llandudno gyda chymunedau gwledig a ynys. Mae gan ogledd Cymru dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog ac mae'n ardal flaenllaw ar gyfer gweithgynhyrchu uwch ac awyrofod, tra bod ei agosrwydd at Lerpwl a Manceinion hefyd yn hybu cysylltiadau economaidd trawsffiniol cryf.

Mae gan y rhanbarth amrywiaeth o asedau naturiol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Penrhyn Llŷn, ac ardaloedd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy o harddwch naturiol eithriadol. Mae hefyd yn ganolfan ar gyfer ynni adnewyddadwy, yn enwedig ym maes ynni gwynt a llanw, gan ddarparu cyfleoedd allweddol ar gyfer twf cynaliadwy. Gyda'i heconomi amrywiol, mae Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i gyfrannu at drawsnewidiad y DU tuag at economi werdd, gan fanteisio ar ei photensial o ran ynni morol, ei diwydiant twristiaeth cyfoethog, a datblygu technolegau newydd.

Mae amrywiaeth ddaearyddol Gogledd Cymru yn cyflwyno cryfderau a heriau sylweddol i'r rhanbarth, fel a nodwyd mewn papurau rhanbarthol allweddol fel dogfen Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol. Disgrifir yr heriau allweddol i Ogledd Cymru a amlinellir yn y dogfennau hyn isod.

[4] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Data Cyfrifiad 2021

**Dirywiad canol trefi a mannau manwerthu:** Fel rhannau eraill o'r DU, mae Gogledd Cymru yn wynebu'r her o strydoedd mawr yn dirywio, wedi'i gwaethygu gan y newid tuag at fanwerthu ar-lein ac ar gyrion y dref. Mae trefi arfordirol fel y Rhyl a Bae Colwyn wedi gweld cynnydd mewn adeiladau gwag a llai o ymweliadau, sy'n broblemau a waethygwyd gan bandemig Covid-19[5]. Er bod arwyddion o adferiad, mae'r nifer o ymweliadau yng nghanol trefi yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Yn ogystal, mae'r mannau masnachol a manwerthu modern, addas i'r diben sydd ar gael yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan gyfyngu ar dwf busnesau micro a bach yn y rhanbarth.[6]

**Cysylltedd trafnidiaeth a seilwaith**: Mae trafnidiaeth yn parhau i fod yn rhan bwysig o ddatblygiad economaidd Gogledd Cymru, ac mae angen gwella cysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd i hybu gweithgarwch economaidd. Mae ardaloedd mwy gwledig Gogledd Cymru yn wynebu cysylltedd gwael, sy'n cyfyngu ar symudiad nwyddau a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Er bod uwchraddiadau diweddar wedi bod, megis y cynlluniau ar gyfer Metro Gogledd Cymru a gwelliannau i'r A55, mae angen buddsoddiad pellach mewn trafnidiaeth a seilwaith digidol ar gyfer cystadleurwydd economaidd hirdymor y rhanbarth.[7]

**Prinder sgiliau a datblygu'r gweithlu**: Mae'r bwlch sgiliau yn fater dybryd yng Ngogledd Cymru, yn enwedig mewn sectorau twf allweddol fel gweithgynhyrchu uwch, ynni gwyrdd, a gofal iechyd. Mae llawer o ardaloedd, yn enwedig rhai gwledig, yn profi prinder gweithwyr â chymwysterau lefel uwch, sy'n cyfyngu ar allu'r rhanbarth i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg fel peirianneg, TG, ac ynni adnewyddadwy.[8] Mae mynd i'r afael â phrinder sgiliau drwy hyfforddiant ac addysg, yn enwedig mewn meysydd STEM, yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwytnwch economaidd hirdymor yn ôl Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru[9].

---

[5] Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2023). Papur Pwnc 3: Manwerthu a Chanol trefi. Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Cam 4: Datblygu Sylfaen Dystiolaeth. Ar gael fan yma: Papur Pwnc 3 - Manwerthu a Chanol Trefi

[6] Cyngor Sir Ynys Môn (dim dyddiad). *Adfywio Canol Tref*. Ar gael fan yma: Cyngor Sir Ynys Môn, a Chyngor Sir Ddinbych (2023). Asesiad Canol Trefi: Adroddiad Terfynol Cynllun Datblygu Lleol – Tystiolaeth, Monitro a Gwybodaeth. Ar gael fan yma: Cyngor Sir Ddinbych

[7] Llywodraeth Cymru. (2023). Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: Adroddiad Terfynol Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael fan yma: Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (2023)

[8] Uchelgais Gogledd Cymru. (2023). Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023–2025. Gwynedd: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Ar gael fan yma: Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth

[9] **Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.** (2023). Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023–2025: Trosolwg Cyffordd Llandudno: Uchelgais Gogledd Cymru. Ar gael fan yma: Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru

**Mynediad at wasanaethau**: Mae data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod mynediad at wasanaethau yn parhau i fod yn her allweddol i'r rhanbarth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Mae hyn yn cynnwys rhanbarthau yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy, lle mae ynysu daearyddol yn cyfyngu ar fynediad trigolion at wasanaethau hanfodol fel gofal iechyd, addysg a seilwaith trafnidiaeth.[10] Yng Ngwynedd, mae llawer o gymunedau bach yn perthyn i'r 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran cael mynediad at wasanaethau.[11] Yn ogystal, mae gan Wynedd, Ynys Môn a Chonwy gysylltedd band eang isel o gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU. Er enghraifft, yn Ynys Môn mae gan gyfartaledd o 35.4% o godau post gigabit ar gael, o gymharu â chyfartaledd y DU o 78.5%[12]. Gwnaeth arweinydd yn un o awdurdod lleol y rhanbarth dynnu sylw ymhellach at y ffaith bod cysylltedd ffôn symudol yn anghyson iawn ar draws y rhanbarth ac yn llawer is nag ansawdd cyfartalog y DU mewn llawer o leoedd. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â heriau cysylltedd fel un o'r blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth, sydd wedi'i nodi yn y Rhaglen Cysylltedd Digidol.

## 2.2 Trosolwg hanesyddol o gyllid datblygu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru

Am dros bedwar degawd, cafodd datblygiad rhanbarthol yng Ngogledd Cymru ei siapio gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys dros £5 biliwn a fuddsoddwyd ledled Cymru rhwng 2000 a 2020. Roedd prosiectau cynnar yng Nghymru yn canolbwyntio ar wrthdroi dirywiad economaidd. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid i ddatblygu ystadau diwydiannol newydd (i ddenu busnesau i ardaloedd lle'r oedd pyllau neu ffatrïoedd wedi cau) a darparu ail-hyfforddiant i weithwyr sy'n symud ymlaen o ddiwydiannau sy'n crebachu.

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd bellach) ym 1999, mae llawer o swyddogaethau datblygu economaidd wedi'u datganoli i Gymru a gwnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i wasanaethu fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglenni'r UE yng Nghymru. Roedd WEFO yn rheoli'r gwaith o ddewis prosiectau, monitro cynnydd, a sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r UE yng Nghymru.

Dynodwyd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a oedd yn cynnwys y pedwar awdurdod yng Ngogledd Orllewin Cymru (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych), yn rhanbarth cyllido Amcan 1, gan dderbyn cyllid mwy dwys, tra bod dau ranbarth y Gogledd-ddwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam) wedi derbyn llai o gyllid yr UE.

---

[10] Llywodraeth Cymru. (2019). Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Adroddiad Canlyniadau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael fan yma: Adroddiad Canlyniadau MALlC 2019

[11]Jones, H. (2019). Pa ardaloedd yw'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru? Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael fan yma: Ymchwil y Senedd

Roedd rhaglenni cynnar (Amcan 1, 2000–06) o dan y trefniant hwn yn dibynnu ar bartneriaethau lleol iawn. Roedd hwn yn ddull o'r gwaelod i fyny a ystyriwyd yn arloesol ac effeithiol yng Nghymru ac a ganmolwyd am y modd yr ymgysylltwyd â'r gymuned. Gwnaeth ymchwiliad Tŷ'r Cyffredin yn 2002 ganmol yr "ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth yng Nghymru" gan nodi bod y strwythur wedi ei "ganmol gan y Comisiwn [Ewropeaidd]".[13]

Fodd bynnag, nodwyd bod cryfderau a gwendidau i'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod. Er bod partneriaethau lleol yn caniatáu mynd i'r afael ag anghenion cymunedol lleol penodol ac yn darparu cymorth pwysig i ymgeiswyr prosiectau, roedd y nifer fawr o bartneriaethau a chyfrifoldebau a oedd yn gorgyffwrdd yn creu beichiau gweinyddol ac aneffeithlonrwydd. [14]

Mewn cyfnodau diweddarach (2007–20) symudwyd tuag at gydlynu rhanbarthol. Yn ystod y cyfnod 2007–2013, symleiddiwyd y strwythurau cyflawni yng Nghymru yn sylweddol. Er bod partneriaeth yn parhau i fod yn gonglfaen (roedd angen dull partneriaeth ar yr UE), disodlwyd partneriaethau lleol gan fwy o gydlynu rhanbarthol. Roedd ffocws hefyd ar lai o brosiectau, ond rhai mwy o faint, gan bwysleisio cydweithredu rhwng rhanddeiliaid, a chynyddu'r defnydd o gaffael cystadleuol.[15] Trwy ganolbwyntio ar brosiectau mwy, strategol, roedd y rhaglen yn ceisio cyflawni arbedion maint – er enghraifft, roedd prosiectau rhanbarthol fel 'Sgiliau ar gyfer yr Economi Ddigidol' yn gweithredu ar draws sawl sir yn hytrach na phob sir yn rhedeg ei hamrywiad ei hun a fyddai wedi digwydd yn y cyfnod blaenorol. Parhaodd y thema hon i gyfnod rhaglen 2014-20 lle daeth mentrau Cymru gyfan i fod yn brif ddull cyflawni.

Gweithredwyd y cydlynu rhanbarthol ehangach drwy Dimau Ymgysylltu Strategol a Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol, gan gydweddu cyllid yr UE â strwythurau rhanbarthol a oedd yn dod i'r amlwg fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Eu prif amcan oedd sicrhau dull strategol mwy cydgysylltiedig o gynllunio a chyflawni prosiectau a ariennir gan yr UE ledled y rhanbarth. Cafodd rhanddeiliaid Gogledd Cymru fwy o ddylanwad hefyd wrth i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Tîm Ymgysylltu Strategol adeiladu cydlyniant rhanbarthol. Mae'r esblygiad hwn wedi gwella ffocws strategol a lleihau dyblygu, ond roedd heriau yn parhau wrth gydbwyso ymateb lleol â chydlyniant rhanbarthol.

Daeth Brexit â threfniadau cyllido a llywodraethu'r UE i ben, gan arwain at gyflwyno Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rheoli gan Lywodraeth y DU ac awdurdodau lleol, gan leihau rôl strategol Llywodraeth Cymru.

[13] Tŷ'r Cyffredin - Materion Cymreig - Ail Adroddiad
[14] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
[15] Mae gwerthusiad o weithrediad y rhaglen yn y cyfnod hwnnw i'w weld fan yma: https://www.gov.wales/docs/wefo/publications/evaluation/171205-ex-post-evaluation-2007-2013-final-report-cy.pdf

Crynodeb yn unig yw'r uchod a chaiff yr adolygiad llawn, gan gynnwys cyd-destun hanesyddol manwl ac esblygiad llywodraethu, ei ddarparu yn Atodiad C, tra bod trafodaeth ar fanteision ac anfanteision dull gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin o gymharu â chyflawniad rhaglenni blaenorol yn cael ei drafod yn Adran 6.1.

## 2.3 Dyluniad a gweithrediad rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngogledd Cymru

### 2.3.1 Pennu blaenoriaethau

Aeth chwe awdurdod lleol ati ar y cyd i ddylunio'r Cynllun Buddsoddi sy'n sail i raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Roedd y broses hon yn dilyn cyfres o drafodaethau a gweithdai rhwng yr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid lleol allweddol ac roedd hefyd yn tynnu ar waith blaenorol i ddatblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (a oedd yn cynnwys cyfres o ymgynghoriadau ac yn ymgorffori dogfennau strategol lleol allweddol, cynlluniau datblygu economaidd, a gwerthusiadau rhaglenni blaenorol).

Cynlluniwyd y dull hwn i helpu i sicrhau bod y rhaglen yn cydweddu â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Dyluniwyd y Cynllun Buddsoddi i fod mor eang â phosibl er mwyn dal ystod eang o gyfleoedd ar draws y rhanbarth. Elfen allweddol o strwythur y rhaglen oedd y pwyslais ar gydlynu rhanbarthol a gwneud penderfyniadau lleol.

Cymunedau a Lle

Cytunodd y chwe awdurdod lleol y dylai prif faes ffocws fod ar adfywio canol trefi, i helpu i ddenu buddsoddiad, gwella'r cynnig diwylliannol a hamdden, ac adfywio economïau lleol. Mae'r cynllun buddsoddi yn tynnu sylw at heriau allweddol fel llai o ymweliadau, poblogaeth sy'n heneiddio, diffyg seilwaith craidd sy'n cyfyngu ar dwf mewn twristiaeth a chydlyniant cymunedol, ac eiddo gwag. Roedd heriau allweddol eraill yn cynnwys yr angen i ddiogelu asedau naturiol a diwylliannol yn well a'u gwella, a mynd i'r afael â heriau amgylcheddol.

Mae pwyslais arbennig wedi bod ar rymuso lleol a rôl sefydliadau ar lawr gwlad i greu newid yn eu cymunedau lleol. Gan adlewyrchu blaenoriaethu'r themâu hyn, dyrannodd y rhanbarth bron i £57 miliwn o gyllid i ymyriadau Cymunedau a Lle, sef 46% o'r gyllideb gyfan. Roedd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar:

- gwella mynediad i fannau agored,
- meithrin capasiti yn y sector gwirfoddol a chryfhau rôl sefydliadau ar lawr gwlad a'r trydydd sector wrth feithrin cydlyniant cymunedol,
- ysgogi twristiaeth a'r economi ymwelwyr,
- cynorthwyo mentrau treftadaeth a diwylliant,
- gwella canol trefi a gwell canfyddiadau o ddiogelwch yn y parth cyhoeddus,
- ehangu seilwaith gwyrdd a glas.

Cefnogi Busnesau Lleol

Mae'r Cynllun Buddsoddi hefyd yn amlinellu sawl her sy'n gysylltiedig â busnesau gan gynnwys costau cynyddol, yr angen i fusnesau ddatgarboneiddio eu gweithrediadau, lefelau cynhyrchiant a chyflog isel o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol, cyfraddau cychwyn busnes isel, seilwaith digidol annigonol, yn ogystal â'r diffyg ymweliadau yng nghanol trefi. Dyrannwyd bron i £25 miliwn tuag at ymyriadau o dan y flaenoriaeth fuddsoddi hon sy'n cyfrif am 20% o'r gyllideb, gan ddangos bod hyn yn flaenoriaeth lai i'r rhanbarth.

Roedd ffocws ar gefnogaeth i fusnesau i drosglwyddo i sero net trwy ddatgarboneiddio eu gweithrediadau ac meithrin sgiliau sydd eu hangen er mwyn trawsnewid i'r economi werdd. Roedd prosiectau eraill yn canolbwyntio ar gryfhau cefnogaeth i fusnesau cymdeithasol, cefnogi busnesau newydd a mentrau cymdeithasol, darparu gweithfannau a chyfleusterau newydd (gan gynnwys ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi), a gwella'r economi ymwelwyr.

Pobl a Sgiliau

Roedd y Cynllun Buddsoddi yn tynnu sylw at brinder sgiliau mewn sectorau twf allweddol (yn enwedig yn gysylltiedig â sero net) a rhwystrau i gyflogaeth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur (gan gynnwys diffyg sgiliau 'meddal' fel hyder a chymhelliant). Yn unol â hynny, roedd llawer o'r ymyriadau yn canolbwyntio ar gymorth 'cyn-gyflogadwyedd' a oedd yn ceisio symud unigolion yn agosach at y farchnad lafur. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau a oedd yn darparu cyfleoedd hyfforddi ac yn adeiladu llwybrau i mewn i waith i bobl ifanc, gan roi hwb i 'sgiliau meddal' a gwella sgiliau sylfaenol a bywyd. Roedd prosiectau eraill yn ceisio gwella sgiliau digidol a chynhwysiant digidol neu oresgyn bylchau sgiliau yn y rhanbarth, yn enwedig yn ymwneud â datgarboneiddio. Buddsoddwyd mwy na £40 miliwn yn y blaenoriaethau buddsoddi sy'n gysylltiedig â sgiliau ar draws y rhanbarth, gan gyfrif am draean o'r gyllideb (trafodir gwariant y rhaglen yn fanylach yn Adran 3.1).

### 2.3.2 Model cyflawni

Bwrdd Cydweithredu Gogledd Cymru yw'r bwrdd llywodraethu sy'n gyfrifol am benderfyniadau'n ymwneud â chyflawni'r rhaglen ac roedd ganddo oruchwyliaeth o'r dyraniadau arian. Mae'r aelodau’n cynnwys Uwch Swyddog Cyfrifol o bob un o'r chwe awdurdod lleol, ac o leiaf un dirprwy. Mae'r Bwrdd Cydweithredu hefyd yn cynnwys Aelodau Cynghori sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn ôl yr angen i roi mewnbwn ar bynciau penodol.

Roedd dyluniad ymyriadau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin, fel sydd i’w weld yn y Cynllun Buddsoddi, yn ceisio cydbwyso fframwaith strategol rhanbarthol gyda phrosiectau wedi'u teilwra'n lleol a oedd yn cydweddu â blaenoriaethau pob awdurdod lleol. Ar ôl ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer cyflawni'r ymyriadau (gan gynnwys dewis rhai prosiectau blaenoriaeth ranbarthol), penderfynodd yr awdurdodau lleol ddewis dull gwneud penderfyniadau cwbl leol. Roedd tîm y rhaglen yn teimlo mai’r awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i asesu sut y byddai prosiectau yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau ac roedd yn credu bod y dull hwn yn cydweddu’n well ag ethos rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Er bod penderfyniadau ar gyfer defnyddio'r arian yn cael eu gwneud yn lleol, roedd y Tîm Rhanbarthol yng Nghyngor Gwynedd yn rheoli’r trefniadau contractiol yn ganolog. Roedd arweinwyr cyflawni’r prosiectau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Rhanbarthol yng Nghyngor Gwynedd (yn hytrach nag i’w pwyntiau cyswllt ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn eu hawdurdod lleol) bob chwarter.

### Gweithrediad y Cynllun Buddsoddi

Er mwyn rhoi’r Cynllun Buddsoddi ar waith, sefydlodd pob un o'r chwe awdurdod lleol Banel Partneriaeth Leol ar gyfer eu hardal a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o ran sectorau. Lansiwyd proses galwad agored ddau gam gan bob awdurdod lleol i wahodd cynigion prosiectau gan yr holl bartïon â diddordeb yn eu hardaloedd.

Roedd y broses yn gyson ar draws y chwe awdurdod gydag ymagwedd gyffredin at amserlenni, asesiadau, a gwneud penderfyniadau ac roedd hefyd yn cadw’r posibilrwydd i wneud addasiadau ar gyfer pob cyd-destun lleol. Arweiniodd y dull hwn at set amrywiol o brosiectau, gyda thros draean o'r ymyriadau yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr cyflenwi awdurdodau lleol tra bod mwyafrif sylweddol (63%) yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr allanol.

Cynhaliwyd proses gymeradwyo debyg ar draws y rhanbarth a oedd yn cynnwys didoliad cychwynnol o’r ceisiadau gan dimau lleol y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ystyried sut maen nhw’n cydweddu â blaenoriaethau a dichonoldeb eu cyflawni, adolygiad gan y Paneli Partneriaeth Leol i roi ceisiadau ar restr fer a darparu argymhellion, ac yna penderfyniad terfynol gan yr awdurdodau lleol i wahodd ceisiadau Cam 2. Yna roedd yr awdurdod lleol yn arfarnu ceisiadau manwl y prosiectau, yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy, cyn ceisio cymeradwyaeth y cabinet i wneud penderfyniad terfynol ar ddyfarnu grant[16].

### Cronfeydd Allweddol

Roedd prosiectau'r Awdurdod Lleol yn cynnwys gweinyddu 20 Cronfa Allweddol[17] a oedd yn elfen bwysig o'r rhaglen. Roedd y rhain yn deillio o benderfyniad i gyflwyno trothwy gofynnol o £250,000 ar gyfer prosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y rhanbarth, oherwydd graddfa'r gweithgarwch a oedd yn digwydd yng Ngogledd Cymru. Roedd yr awdurdodau lleol yn pryderu y byddai'r trothwy gofynnol yn rhwystr i sefydliadau llai gymryd rhan, yn enwedig y rhai o'r sector gwirfoddol a chymunedol. Datblygwyd y Cronfeydd Allweddol, felly, fel mecanwaith i ddosbarthu grantiau llai (trwy broses gynnig gystadleuol) ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Felly, er bod pob Cronfa Allweddol wedi'i chofnodi fel prosiect at ddibenion gweinyddol, mewn gwirionedd mecanwaith oeddent i ariannu prosiectau a oedd yn is na'r trothwy o £250,000 ac a allai ymgorffori eu prosesau ymgeisio, cymeradwyo, hawlio a monitro (symlach) eu hunain.

[16] Yn Sir y Fflint, dirprwywyd awdurdod gan y Cabinet, gan ganiatáu iddo beidio â gorfod ceisio cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau unigol.

[17] Roedd y Cronfeydd Allweddol yn gynlluniau grant a ddyluniwyd i gefnogi prosiectau ar raddfa lai.

Cyflawni ar draws sawl awdurdod lleol

Ar ôl i bob awdurdod lleol gymeradwyo eu prosiectau, datblygwyd dull aml-awdurdod lleol i ganiatáu i awdurdodau "optio i mewn" i gydweithio ar brosiectau trawsffiniol tra'n parhau i wneud penderfyniadau'n lleol. Nod y dull hwn oedd cryfhau cydlyniant rhanbarthol a chyfuno adnoddau mewn meysydd fel sgiliau, cyflogadwyedd, cysylltedd digidol gwledig, a meithrin capasiti'r trydydd sector lle credwyd mai ymateb rhanbarthol fyddai orau. Dynodwyd Cyngor Gwynedd yn awdurdod cydlynu i reoli'r broses hon. Arweiniodd hyn at 17 o brosiectau yn cael eu cyflawni ar sail sawl awdurdod (fel arfer rhwng dau neu dri awdurdod cyfagos).

Parhau i gyflawni

Yn ôl y meta-adolygiad, roedd y rhan fwyaf o brosiectau (71%) yn hollol newydd tra bod lleiafrif sylweddol (29%) yn barhad o brosiectau a oedd yn bodoli eisoes (er eu bod fel arfer yn cynnwys addasiadau nodedig). Roedd hyn yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol, gyda 50% yn Ynys Môn yn seiliedig ar ymyriadau a oedd yn bodoli eisoes o gymharu â dim ond 10% yn Wrecsam. Mae hyn yn bennaf oherwydd cyd-destun hanesyddol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, lle roedd gan siroedd y gogledd-ddwyrain waddol llawer mwy cyfyngedig o gyflawni rhaglenni mawr. Roedd parhad yr ymyriadau presennol hefyd yn amrywio yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi, gyda phrosiectau Cefnogi Busnesau Lleol yn llawer mwy tebygol o fod yn seiliedig ar ymyriadau sy'n bodoli eisoes.

## 2.4 Damcaniaeth newid ar gyfer y rhaglen

Mae damcaniaeth newid yn esbonio sut a pham mae disgwyl i raglen weithio. Mae'n nodi'r cysylltiadau rhwng y gweithgareddau a gyflawnir, y newidiadau y maen nhw'n anelu at eu cyflawni, a'r canlyniadau hirdymor, gan ddangos y camau sydd eu hangen i gyrraedd yr effaith a fwriedir. Mae Ffigur 2.1 yn darparu Damcaniaeth Newid lefel uchel ar gyfer rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Mae'n dangos ffocws pob blaenoriaeth fuddsoddi, y gweithgareddau a gynhaliwyd, a'r canlyniadau a fwriadwyd.

Yn achos Cymunedau a Lle, nod y rhaglen oedd gwella balchder cymunedol a chanfyddiad pobl o ansawdd lle a gwella ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol. Roedd y dangosyddion allbynnau a chanlyniadau a nodwyd i gyflawni'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar welliannau i asedau a'r parth cyhoeddus, a chynyddu capasiti cymunedol gan arwain at well canfyddiadau, rhagor o ymweliadau, a mwy o ymgysylltiad cymunedol (gan gynnwys trwy fwy o wirfoddoli). Roedd uchelgais trawsbynciol hefyd i ddatblygu capasiti'r trydydd sector trwy fuddsoddi mewn seilwaith newydd neu gynyddu cyrhaeddiad a chynaliadwyedd sefydliadau allweddol y trydydd sector a grwpiau cymunedol.

Yn achos Cefnogi Busnesau Lleol, roedd y ffocws ar dyfu'r economi leol trwy greu busnesau newydd, cynhyrchiant, arloesedd, effeithiau ar swyddi, a gwelliannau i seilwaith digidol. Yr effaith a fwriadwyd gan Bobl a Sgiliau oedd gwella sgiliau craidd y gweithlu lleol a lleihau anweithgarwch economaidd trwy sicrhau bod pobl yn profi llai o rwystrau strwythurol i gyflogaeth a hyfforddiant a gwella sgiliau.

Ffigur 2.1: Damcaniaeth newid ar gyfer rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru

**MEWNBYNNAU** | **YMYRIADAU** | **ALLBYNNAU** | **CANLYNIADAU** | **EFFAITH**

### Cymunedau a lle

**MEWNBYNNAU**
- £50.2m o Gyllid Cymunedau a Lle
- £25.1m o Gyllid Cefnogi Busnesau Lleol

**YMYRIADAU**
- **90 o brosiectau Cymunedau a Lle, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymunedol, cymorth i'r trydydd sector a gwirfoddolwyr, seilwaith newydd ar gyfer asedau cymunedol, economi ymwelwyr diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth, datblygu canol trefi a gwella seilwaith gwyrdd/glas**

**ALLBYNNAU**
- Gwella parth cyhoeddus a mannau gwyrdd/glas
- Rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli
- Asedau cymunedol newydd

**CANLYNIADAU**
- Gwell canfyddiadau o gyfleusterau ac amwynderau
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
- Cynnydd yn nifer y canolfannau cymunedol

**EFFAITH**
- Gwell canlyniadau iechyd
- Gwell balchder mewn lle

### Cefnogi busnesau lleol

**MEWNBYNNAU**
- £29.3m o Gyllid Pobl a Sgiliau
- £21.8m o Gyllid Lluosi

**YMYRIADAU**
- **35 o brosiectau Cefnogi busnesau lleol, gan gynnwys cymorth busnes, cynorthwyo cynlluniau datgarboneiddio, cymorth sero net a datblygu capasiti, gwelliannau i safleoedd ac adeiladau, cymorth sgiliau gwyrdd, ac arloesi**

**ALLBYNNAU**
- Mentrau wedi'u cynorthwyo
- Busnesau cymdeithasol wedi'u cynorthwyo
- Gwell gwybodaeth/galluoedd ynghylch sero net
- Lleihau allyriadau carbon busnesau

**CANLYNIADAU**
- Gwell gwybodaeth am ofynion sero net
- Gwella sgiliau gwyrdd
- Mwy o fuddsoddiad
- Cynhyrchion neu brosesau newydd

**EFFAITH**
- Gwell canfyddiad o ansawdd lle
- Gwell ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol

## Pobl a sgiliau

### MEWNBYNNAU

- Arian cyfatebol
- Tîm llywodraethu rhanbarthol a strwythurau llywodraethu ar draws chwe awdurdod lleol
- Cynllun Buddsoddi Gogledd Cymru a strategaethau lleol/rhanbarthol gan gynnwys Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru

### YMYRIADAU

**36 o brosiectau Pobl a sgiliau, gan gynnwys:**

datblygu sgiliau 'meddal', cymorth cyflogaeth, goresgyn rhwystrau i waith, cynhwysiant digidol, cymorth sgiliau gwyrdd, gwella lles a gwytnwch

**Prosiectau Lluosi gan gynnwys:**

- Lluosi Môn (Cymunedau Ymlaen Môn)
- Cronfa Allweddol Lluosi (Wrecsam)
- Cryfder mewn Rhifau (Cyngor Sir y Fflint)
- Rhifedd am Oes (Grŵp Llandrillo Menai)

### ALLBYNNAU

- Pobl yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth
- Pobl yn ymgysylltu â sgiliau bywyd
- Pobl yn ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant
- Ymgysylltiadau rhwng gweithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol
- Pobl yn cael eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith
- Nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw

### CANLYNIADAU

- Pobl yn dod yn economaidd weithgar ac yn fwy cyflogadwy
- Pobl yn gwella sgiliau digidol
- Mwy o hyder a gwytnwch
- Pobl yn chwilio am swydd
- Pobl yn dod o hyd i waith
- Pobl â sgiliau sylfaenol a sgiliau
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau mathemateg

### EFFAITH

- Twf economaidd lleol
- Gwell sgiliau craidd
- Lleihau anweithgarwch economaidd
- Adfer natur/bioamrywiaeth

## Thema drawsbynciol: Meithrin capasiti sector y Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol

Cymorth i'r trydydd sector a gwirfoddolwyr, seilwaith newydd ar gyfer asedau cymunedol

Gwell rôl i'r trydydd sector

Rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli

Gwell cynaliadwyedd ariannol

Gwell cydlyniant cymunedol

Cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr

# 3. Perfformiad Ariannol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o gynnydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru, gan ganolbwyntio ar wariant a chyflawni allbynnau a chanlyniadau fel y'u hadroddir drwy wybodaeth reoli'r rhaglen, ynghyd ag adolygiad o wariant ariannol o gymharu â'r amcanestyniadau cychwynnol.

## 3.1 Gwariant Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Mae Tabl 3.1 yn dangos bod y rhaglen wedi gwario yn agos at ei dyraniad llawn, gyda thanwariant o ddim ond 2% yn gyffredinol. Mae'r tabl hefyd yn tynnu sylw at yr heriau wrth wario dyraniad llawn Lluosi, gan fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi adrodd bod y galw lleol yn gyfyngedig—pwynt a gaiff ei drafod ymhellach yn y bennod nesaf. Mewn cyferbyniad, gwariwyd y gyllideb gyfan ar gyfer elfen graidd y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gynorthwywyd gan hyblygrwydd y rhaglen wrth ganiatáu i'r tîm ailddyrannu cyllid rhwng blaenoriaethau buddsoddi pan fyddai angen. Roedd y galw am gymorth gan elfennau craidd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn sylweddol fwy na'r adnoddau a oedd ar gael. Fodd bynnag, ni chaniatawyd i dîm y rhaglen fanteisio ar danwariant Lluosi i helpu i ddiwallu'r galw hwn.

Mae'r tabl yn dangos ymhellach reolaeth effeithlon a darbodus y rhaglen, gyda dim ond 3% o'r gyllideb wedi'i ddyrannu i'r swyddogaeth hon. Fodd bynnag, cyfrannodd y dull darbodus hwn hefyd at oedi, gan fod capasiti cyfyngedig wedi effeithio ar gymeradwyo grantiau a cheisiadau am newid yn amserol.

Tabl 3.1: Proffil cyfunol a gwariant gwirioneddol

| | Gwariant proffil (£) | Gwariant gwirioneddol (£) | % a wariwyd |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau Craidd y Gronfa | £107,039,757.00 | £107,756,088.85 | 101% |
| Lluosi | £15,236,252.00 | £12,120,870.88 | 80% |
| Rheoli'r Rhaglen | £4,184,891.00 | £3,709,577.79 | 89% |
| Cyfanswm | £126,460,900.00 | £123,586,537.52 | 98% |

**Ffynhonnell:** Data gwariant gwirioneddol a allforiwyd o system ganolog y rhaglen ym mis Awst 2025; Data gwariant proffil wedi'i dynnu o Adroddiad y Bwrdd Cydweithredu Mehefin 2023

Mae arwyddocâd ymyriadau Cymunedau a Lle fel blaenoriaeth yng Ngogledd Cymru yn amlwg, gyda chyllid yn cael ei ailddyrannu o flaenoriaethau buddsoddi eraill (Pobl a Sgiliau yn bennaf) i hybu'r maes hwn. Roedd y gwariant proffil ar gyfer pob blaenoriaeth fuddsoddi yn ddyfaliadol iawn ar ddechrau cyfnod y rhaglen gan nad oedd gan y tîm fawr ddim i seilio'r amcanestyniadau hyn arno. Yn y cyd-destun hwnnw, nid yw'n syndod gweld y gwahaniaeth mewn gwariant gwirioneddol.

Tabl 3.2: Proffil cyfunol a gwariant gwirioneddol fesul Blaenoriaeth Fuddsoddi


| | Gwariant proffil (£) | Gwariant gwirioneddol (£) | % a wariwyd |
|---|---|---|---|
| Cymunedau a Lle | £49,200,683.00 | £58,976,269.81 | 120% |
| Cefnogi Busnesau Lleol | £24,446,806.00 | £24,549,782.27 | 100% |
| Pobl a Sgiliau | £33,392,268.00 | £24,230,036.77 | 73% |

**Ffynhonnell:** Data gwariant gwirioneddol a allforiwyd o system ganolog y rhaglen ym mis Awst 2025; Data gwariant proffil wedi'i dynnu o Adroddiad y Bwrdd Cydweithredu Mehefin 2023

Roedd y meta-adolygiad hefyd yn edrych ar gynnydd yn erbyn targedau gwariant ym mhob adroddiad gwerthuso unigol. Mae hyn yn dangos sut mae'r mwyafrif helaeth o brosiectau wedi gwario eu dyraniadau llawn, tra bod bron i bob prosiect arall wedi cofnodi dim ond ychydig o danwariant.

Yn yr achosion hynny, priodolwyd tanwariant bron yn gyfan gwbl i gyfyngiadau amser, oedi cyn dechrau a ffenestri cyflenwi llai. Mewn rhai achosion, fe wnaeth prosiectau ddadymrwymo cyfran o'u cyllideb wreiddiol oherwydd yr oedi cyn dechrau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ail-bwysleisio bod lefel y tanwariant bob amser yn gymedrol iawn.

Ffigur 3.1: Gwariant prosiectau fesul Blaenoriaeth Fuddsoddi




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=72)

## 3.2 Perfformiad yn erbyn targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'n anodd barnu perfformiad y rhaglen yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ffurfiol, oherwydd eu nifer a'u hamrywioldeb. Yn wir, mae 55 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer allbynnau a 58 ar gyfer canlyniadau sy'n cael eu defnyddio gan y rhaglen yng Ngogledd Cymru, sy'n cwmpasu themâu mor eang â arwynebedd tir sy'n cael ei adfer ($M^2$) i nifer y bobl a gefnogir i ymgysylltu â sgiliau bywyd.

Fel y nodwn yn y cyflwyniad, bydd gwerthusiad ar wahân sy'n cael ei gomisiynu trwy'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cynnal adolygiad manwl sy'n canolbwyntio ar y meysydd effaith allweddol yr oedd wedi'u nodi (Grymuso cymunedau a gwella'r sector gwirfoddol a chymunedol; Datgarboneiddio Gogledd Cymru; a Gwella sgiliau sylfaenol, digidol a 'meddal'). I ategu hynny, mae'r gwerthusiad hwn yn ystyried canlyniadau'r rhaglen a gyflawnwyd yn ehangach.

### 3.2.1 Adolygiad o wybodaeth rheoli'r rhaglen

Ar lefel uchel, mae ein dadansoddiad yn datgelu bod y targedau[18] wedi'u bodloni neu y rhagorwyd arnynt ar gyfer 64% o'r **dangosyddion allbynnau** (35/55) tra bod y 60% o'r targedau wedi'u cyflawni ar gyfer 89% o'r dangosyddion (49/55). Mewn llawer o achosion, rhagorwyd yn sylweddol ar dargedau'r dangosyddion, gan gynnwys 18% o'r dangosyddion (10/55) lle roedd y targedau wedi'u dyblu o leiaf. Isod, rydym yn canolbwyntio ar gyflawniad yn erbyn y prif ddangosyddion sy'n cyd-fynd â'r allbynnau a amlygwyd yn y Ddamcaniaeth Newid o dan Adran 2.4.

**Cymunedau a Lle**

Mae'r data dangosyddion ffurfiol yn dangos perfformiad cadarnhaol yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion allbynnau allweddol Cymunedau a Lle a amlygwyd yn y Ddamcaniaeth Newid:

- **Gwella'r parth cyhoeddus a mannau gwyrdd/glas – r**oedd perfformiad cryf yn erbyn y dangosydd hwn yn gyffredinol gyda thua 924 mil $m^2$ o dir wedi'i adfer yn erbyn targed o 656 mil $m^2$ (141%) ac roedd bron i 1.6 miliwn $m^2$ o fannau gwyrdd neu las wedi'u creu neu eu gwella gan ragori ar y targed (138% o'r targed wedi'i gyflawni). Fodd bynnag, roedd y parth cyhoeddus a grëwyd neu a wellwyd (tua 940 mil $m^2$), ychydig yn is na'r targed o bron i 1.2 miliwn $m^2$ (80% wedi'i gyflawni).
- **Gwella rôl y trydydd sector –** cafwyd perfformiad eithaf cryf unwaith eto o ran y targedau ar gyfer nifer y sefydliadau sy'n derbyn cymorth grant (770 wedi'i gyflawni) a chymorth anariannol (2,357) (173% a 144% o'r targedau wedi'u cyflawni yn y drefn honno).

[18] Defnyddiwyd targedau o Adroddiad Bwrdd Cydweithredu Ebrill 2024 fel meincnod i fesur llwyddiant.

- **Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli –** perfformiodd y rhaglen yn dda iawn yn erbyn targed y dangosydd perthnasol gyda 38,768 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi'u cefnogi, a oedd fwy na thair gwaith y targed gwreiddiol (12,590; 308% o'r targed wedi'i gyflawni).
- **Asedau cymunedol –** roedd 544 o amwynderau/cyfleusterau wedi'u creu neu eu gwella yn erbyn targed o 292 (186% wedi'i gyflawni) tra bod nifer yr asedau twristiaeth, diwylliant neu dreftadaeth a grëwyd neu a wellwyd ychydig yn is na'r targed (cyflawnwyd 393 yn erbyn targed o 439; 90%).

**Cefnogi Busnesau Lleol**

Yn achos Cefnogi Busnesau Lleol, mae'r cyflawniad terfynol yn erbyn targedau allbynnau wedi bod yn llai trawiadol, ond yn dal i fod yn ganmoladwy, fel sy'n cael ei amlygu isod:

- **Mentrau wedi'u cynorthwyo** – roedd ychydig o danberfformiad o ran nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth a grantiau anariannol (cynorthwywyd 4,135 a 1,100 yn y drefn honno yn erbyn targedau o 4,560 a 1,216 sy'n cyfateb i oddeutu 91% wedi'i gyflawni ar gyfer y naill darged a'r llall).
- **Busnesau cymdeithasol wedi'u cynorthwyo** – nid oedd targed ffurfiol ar gyfer hyn.
- **Gwell gwybodaeth / galluoedd sero net** – gwnaeth y rhaglen ragori ar ei tharged o ran nifer y cynlluniau datgarboneiddio a ddatblygwyd o ganlyniad i gymorth (cyflawnwyd 426 o gymharu â tharged o 342; 125%).
- **Lleihau allyriadau carbon busnesau** – rhagorwyd hefyd ar y prif darged allbwn ar gyfer mesurau lleihau gwirioneddol gyda 140 o seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon wedi'u gosod yn erbyn targed o 98 (143% wedi'i gyflawni).

**Pobl a Sgiliau**

Amlygwyd nifer o allbynnau Pobl a Sgiliau yn y Ddamcaniaeth Newid ac mae'r rhaglen wedi rhagori ar holl dargedau'r dangosyddion perthnasol, fel sy'n cael ei ddangos isod.

- **Pobl yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth** – Gwnaeth 3,420 o bobl economaidd anweithgar ymgysylltu â gwasanaethau cymorth gweithwyr allweddol yn erbyn targed o 2,028 (169%) a chynorthwywyd 517 i ymgysylltu â'r system fudd-daliadau yn erbyn targed o 160 (323%).
- **Pobl yn ymgysylltu â sgiliau bywyd** – Cynorthwywyd 15,008 i ymgysylltu â sgiliau bywyd yn erbyn targed o 7,375 (204%).
- **Pobl yn ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant** – Cynorthwywyd 4,184 i ymgysylltu ag addysg yn erbyn targed o 3,119 (134%).
- **Ymgysylltiadau rhwng gweithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol** – Cofnodwyd 2,305 o ymgysylltiadau effeithiol rhwng gweithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol yn erbyn targed o 1,076 (214%).
- **Pobl yn cael eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith** – Derbyniodd 2,083 gymorth i ddod o hyd i waith yn erbyn targed o 1,429 (146%).

- **Nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw** – roedd nifer o ddangosyddion ar gyfer nifer y bobl a gynorthwywyd (i fynychu cyrsiau, cael mynediad at sgiliau sylfaenol a bywyd, mynd ati i chwilio am waith, ac ennill profiad gwaith) a rhagorwyd ar bob un (gweler Atodiad D am ragor o fanylion).

Yn gyffredinol, mae'r perfformiad effeithiol yn erbyn targedau allbynnau yn dangos y raddfa helaeth o gymorth a ddarparwyd ac ymyriadau a ddarparwyd. Mae’r **dangosyddion canlyniadau** yn cynnig dealltwriaeth o ganlyniadau’r cymorth hwn. Unwaith eto, mae gormod i drafod pob dangosydd yn unigol. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad lefel uchel yn dangos bod y rhaglen wedi cyflawni'n effeithiol yn erbyn ei thargedau yn gyffredinol ac wedi cyflawni canlyniadau da. O'r 58 dangosydd, cyflawnwyd neu ragorwyd ar 60% (35) a chyflawnwyd 60% o’r targedau yn achos 86% o'r dangosyddion (50/58). Yn achos 26% o'r dangosyddion (15/58), cyflawnwyd o leiaf ddwbl y targedau. Rydym unwaith eto yn darparu rhai o'r enghreifftiau mwyaf nodedig isod, gan ganolbwyntio ar gyflawniad yn erbyn y prif ddangosyddion sy'n cydweddu â'r canlyniadau sydd wedi’u cynnwys yn y Ddamcaniaeth Newid o dan Adran 2.4.

### Cymunedau a Lle

Yn gyffredinol, perfformiodd y rhaglen yn dda yn erbyn dangosyddion canlyniadau allweddol Cymunedau a Lle a rhagorwyd yn sylweddol ar rai.

- **Gwell canfyddiadau o gyfleusterau ac amwynderau** – syrthiodd y rhaglen yn is na'r targed yn achos y dangosydd hwn (74% wedi'i gyflawni) lle cofnodwyd tua 68 mil o bobl sydd â gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau yn erbyn targed o tua 92 mil. Fodd bynnag, mae'r data yn dangos bod mwy na 175 mil yn rhagor wedi defnyddio cyfleusterau / amwynderau, sy’n llawer mwy na'r targed o tua 92 mil (190%).
- **Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr** – rhagorodd y rhaglen ar y targed hwn bron i ddeg gwaith (942%) gyda chynnydd o dua 1.1 miliwn o ymwelwyr yn erbyn targed o tua 117 mil.
- **Cynnydd yn nifer y canolfannau cymunedol** – er nad oedd dangosyddion uniongyrchol, mae'r data'n datgelu y cofnodwyd bod gan 1,773 well canfyddiad o gyfleusterau/seilwaith yn erbyn targed o 1,930 (92% wedi'i gyflawni).
- **Cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr** – Fel gyda'r dangosydd allbwn, roedd y rhaglen yn rhagori ar ei ddangosydd canlyniadau allweddol ar gyfer gwirfoddoli yn sylweddol gyda dros 17 mil o gyfleoedd gwirfoddoli wedi'u creu o ganlyniad i gefnogaeth yn erbyn targed o 5,293 (322% wedi'i gyflawni).

### Cefnogi Busnesau Lleol

Mae data’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol unwaith eto yn dangos perfformiad da yn erbyn canlyniadau Cefnogi Busnesau Lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddamcaniaeth Newid.

- **Gwell gwybodaeth am ofynion sero net** – y dangosydd mwyaf perthnasol yn erbyn y dangosydd hwn yw’r cynnydd ym maint y seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon sydd wedi'i osod, gyda 3,892 $m^2$ wedi’i gyflawni yn erbyn targed o 5,440 $m^2$ (72%).

- **Gwella sgiliau gwyrdd** – nid oedd targed ffurfiol ar gyfer hyn.
- **Mwy o fuddsoddiad** – cyflawnwyd y targed hwn a rhagorwyd ychydig arno gyda thua £2.3 miliwn wedi'i gyflawni yn erbyn targed o tua £2 filiwn (113%).
- **Cynhyrchion neu brosesau newydd** – gwnaeth 237 o fentrau fabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd neu well yn erbyn targed o 126 (188%) ac roedd 27 o gynhyrchion newydd i'r farchnad yn erbyn targed o 23 (117%).

Yn yr un modd, er nad yw hyn wedi gynnwys yn y Ddamcaniaeth Newid, nodwn fod y rhaglen wedi ei chael yn anodd cyflawni'r targed swyddi gan greu 610 yn unig a 1,004 wedi'u diogelu (sy'n cyfateb i 70% a 58% o'r targedau, yn eu trefn, wedi'u cyflawni).

**Pobl a Sgiliau**

Cafwyd perfformiad cadarnhaol iawn yn erbyn bron i bob un o dargedau canlyniadau Pobl a Sgiliau a nodwyd yn y Ddamcaniaeth Newid.

- **Pobl yn dod yn economaidd weithgar ac yn fwy cyflogadwy** – cafwyd perfformiad llwyddiannus yn erbyn y dangosyddion mwyaf perthnasol ar gyfer y canlyniad hwn, gyda 3,719 o bobl yn nodi gwell cyflogadwyedd drwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn erbyn targed o 2,367 (157%) a 5,734 yn profi llai o rwystrau strwythurol i ddod o hyd i waith a darpariaeth sgiliau yn erbyn targed o 3,467 (165%).
- **Pobl yn gwella sgiliau digidol** – nid oedd targed ffurfiol ar gyfer hyn.
- **Mwy o hyder a gwytnwch** – er nad oedd targed ffurfiol ar gyfer hyn, mae llawer o'r rhai sy'n adrodd llai o rwystrau strwythurol i ddod o hyd i waith a darpariaeth sgiliau yn debygol, o leiaf yn rhannol, o gynnwys cynyddu eu hyder a'u gwytnwch.
- **Pobl yn chwilio am swydd** – roedd 1,225 o bobl yn chwilio am swydd ar ôl cael cymorth yn erbyn targed o 856 (143%).
- **Pobl yn dod o hyd i waith** – fel yn achos dangosyddion Cefnogi Busnesau Lleol, roedd y rhaglen yn cael mwy o drafferth â dangosydd allweddol swyddi Pobl a Sgiliau, er mai dim ond ychydig yn is na'r targed, gyda 705 o bobl mewn swydd, gan gynnwys gwaith hunangyflogedig, ar ôl cael cymorth yn erbyn targed o 757 (93%). Rhagorwyd ar y targed o bobl mewn cyflogaeth â chymorth gyda 180 wedi'i gyflawni yn erbyn targed o 151 (119%).
- **Pobl â sgiliau sylfaenol a sgiliau bywyd** – perfformiodd y rhaglen yn dda yn erbyn dangosyddion perthnasol gyda 2,411 o bobl yn ennill sgiliau sylfaenol ar ôl cael cymorth yn erbyn targed o 1,189 (203%) a bron i 9 mil yn ymgysylltu â chymorth sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau yn erbyn targed o ychydig o dan 3 mil (316% wedi'i gyflawni).
- **Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau mathemateg** – rhagorodd y rhaglen yn fawr ar dargedau dangosyddion perthnasol gyda mwy na 10 mil o oedolion yn ennill cymwysterau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, cyfwerth â Lefel 2 (568% o'r targed o tua 2 fil) a mwy nag 8 mil o oedolion yn cymryd rhan mewn cymwysterau a chyrsiau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, cyfwerth â Lefel 2 (421% o'r targed o tua 2 fil).


Mae'r casgliad llawn o dargedau a chyflawniadau'r allbynnau a chanlyniadau i'w gweld yn Atodiad D.

### 3.2.2 Canfyddiadau'r Meta-adolygiad

Mae'r meta-adolygiad yn taflu goleuni pellach ar hyn. Yn gyffredinol, dangosodd 83% o'r adroddiadau gwerthuso fod y prosiectau'n gwneud cynnydd da yn erbyn targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (diffiniwyd hyn fel cyrraedd o leiaf 75% o dargedau'r dangosyddion). Mae hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried bod llawer o'r adroddiadau wedi'u cynhyrchu cyn i'r allbynnau a'r canlyniadau terfynol gael eu hawlio.

Mae'r data yn dangos rhywfaint o amrywiad ar draws y blaenoriaethau buddsoddi, gyda Lluosi yn llusgo ymhell y tu ôl i'r lleill. Fel y nodwyd eisoes, y prif resymau am hyn oedd diffyg galw lleol, yr anhawster o bennu targedau o ystyried y profiad cyfyngedig o gyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar gyrsiau rhifedd yn unig, a'r diffyg capasiti lleol i gyflawni. Yn ogystal, er bod rhai prosiectau Lluosi yn llwyddiannus wrth droi tuag at ddarpariaethau mwy creadigol 'mathemateg mewn ffordd lechwraidd' a fyddai'n arwain at fwy o ymgysylltiad, arweiniodd hyn hefyd at ddiffyg cyfranogiad yn erbyn prif ddangosydd canlyniadau Lluosi sef ennill cymwysterau mathemateg ffurfiol cyfwerth â Lefel 2.

Ffigur 3.2: Cyflawniad y prosiect yn erbyn targedau dangosyddion perfformiad allweddol fesul Blaenoriaeth Fuddsoddi




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=95)

Y tu hwnt i'r heriau ynghylch cyflawni targedau Lluosi, y prif resymau dros danberfformiad yn fwy cyffredinol oedd y ffaith bod y cyfnod cyflawni wedi'i gwtogi (y cyfeiriwyd ati mewn 14 adroddiad), ymgysylltiad isel gan gyfranogwyr (9 adroddiad), a chyfyngiadau allanol fel yr amgylchedd economaidd, pwysau chwyddiant, neu oedi'n ymwneud ag adeiladu (15 adroddiad)[19]. Mae'r rhain yn debyg i'r rhesymau dros lefelau gwariant is na'r disgwyl.

Roedd y ffactorau hyn weithiau'n gysylltiedig â'i gilydd, e.e. roedd rhywfaint o'r methiant i ysgogi sefydliadau i ymgysylltu yn ymwneud â'r ffaith bod yr amserlen wedi'i chwtogi, tra bod hyn yn fwy cyffredinol yn broblem o ran recriwtio cyfranogwyr. Gwnaeth dau adroddiad ganfod bod y diffyg cyfranogiad wedi'i achosi o leiaf yn rhannol gan gynigion cystadleuol gan ddarpariaethau eraill, sy'n awgrymu elfen o ddyblygu. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad Gwerthusiad Terfynol Cronfa Ffyniant Gyffredin Conwy a nododd fod yr Archwiliadau Ynni Adeiladau Cymunedol (a ariannwyd drwy brosiect Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned) yn wynebu her gan gynlluniau eraill a oedd yn cynnig gwasanaeth tebyg, tra bod meddygon teulu a ymatebodd i'r gwerthusiad 'Prosiect Beicio i Bawb' yn adrodd bod digonedd o weithgareddau a oedd yn golygu bod presgripsiynu cymdeithasol yn gystadleuol iawn.

### 3.2.3 Crynodeb

Ar y naill law, mae data'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gyflwynir yn yr adran hon yn awgrymu perfformiad cryf iawn gyda'r mwyafrif wedi'u rhagori arnynt a rhai yn sylweddol felly. Yn yr un modd, mae'n bwysig nodi bod data'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ddiffygiol – yn gyntaf oherwydd bod cymaint ohonynt, ac yn ail am y gallai'r targedau a osodwyd fod yn eithaf mympwyol gyda rhai arweinwyr prosiect yn cyfeirio at anhawster wrth bennu targedau ar gyfer prosiectau hollol newydd lle nad oedd meincnodau clir. Yn unol â hynny, nid oedd llawer iawn i seilio targedau arno ac mae risg bod rhai efallai yn rhy geidwadol. Mae'r ffaith bod rhai o'r targedau wedi'u gorgyflawni i'r fath raddau yn codi cwestiynau am eu dilysrwydd. Wedi dweud hynny, er bod cyfyngiadau yn y ddealltwriaeth y gellir ei chasglu o ddata'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn gyffredinol mae'n rhoi arwydd cadarnhaol o berfformiad y rhaglen.

Caiff dadansoddiad manylach o effeithiau'r rhaglen ei drafod ym Mhennod 5.

---

[19] Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfanswm o 41 o adroddiadau sy'n trafod rhesymau dros danberfformiad. Nid oedd adroddiadau gwerthuso eraill yn cynnwys naratif ar berfformiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol, neu roedd yn rhy gynnar i adrodd, neu nid oedd unrhyw danberfformiad i'w drafod.

# 4. Adolygiad o'r Cyflawniad a'r Prosesau

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y dull a ddefnyddiwyd i gyflawni'r rhaglen yng Ngogledd Cymru, o'r penderfyniadau cychwynnol ynghylch llwybrau cyflawni, i ymgysylltu â buddiolwyr, effeithiolrwydd pob proses gyflawni, a rheoli a llywodraethu'r rhaglen. Rydym hefyd yn ystyried boddhad cyffredinol y buddiolwyr ynghyd â'r gwersi allweddol a ddysgwyd, gan gynnwys ffactorau llwyddiant a meysydd i'w gwella.

## 4.1 Dull cyflawni ar sail galwad agored

Mae'r dull o gyflawni ar sail galwad agored yn nodwedd bwysig o ddarpariaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Mae'n debyg i'r dull a ddefnyddiwyd yng Nghanolbarth Cymru, er bod rhai o'u galwadau cychwynnol wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau mewnol awdurdodau lleol.

Defnyddiodd De-ddwyrain Cymru ddull gwahanol gydag awdurdodau lleol yn gyffredinol yn ymgymryd â phroses fewnol i nodi blaenoriaethau a chyflawni prosiectau (cyflawnwyd tua dwy ran o dair gan adrannau awdurdodau lleol, a chafodd gweddill y prosiectau eu comisiynu'n uniongyrchol). Mae hyn yn dangos y gwahanol lwybrau cyflawni a oedd ar agor i weithredu'r rhaglen a'r penderfyniadau penodol a wnaed a'r dull y cytunwyd arnynt yng Ngogledd Cymru.

Roedd rhanddeiliaid yn ystyried dull yr alwad agored yn ddull priodol i ddod o hyd i brosiectau sy'n cydweddu â blaenoriaethau ac anghenion lleol. Roedd pob awdurdod lleol yn cydweddu blaenoriaethau eu galwad agored â chynlluniau strategol a chorfforaethol presennol, gan ddefnyddio'r rhain i lunio meini prawf asesu ar gyfer ceisiadau. Y rhesymeg dros y dull hyblyg hwn oedd sicrhau y gallai ystod amrywiol o brosiectau dderbyn cyllid, gan ganiatáu i gymorth gael ei deilwra i anghenion economaidd-gymdeithasol sy'n dod i'r amlwg yn hytrach na chategorïau wedi'u pennu ymlaen llaw.

Mae sawl mantais i'r dull hwn. Yn ôl arweinwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y rhanbarth, roedd yn effeithiol wrth greu galw am gyflawni prosiectau. Mae hyn yn amlwg yn nata'r ceisiadau wrth i awdurdodau lleol ddweud eu bod wedi derbyn cyfanswm gwerth ceisiadau a oedd bedair gwaith neu fwy yn fwy na'u dyraniad cyllid. Yn yr un modd, mae'n bwysig nodi nad yw cyflawni'r lefel uchel hon o alw o reidrwydd yn arwain at ansawdd uwch.

Mae'r dull yng Ngogledd Cymru hefyd wedi sicrhau y gellid gwneud y cyllid yn fwy hygyrch i randdeiliaid perthnasol yn y rhanbarth o gymharu â'r dulliau cyflawni a ddefnyddiwyd mewn rhanbarthau eraill lle roedd mwy o ffocws ar awdurdodau lleol yn cyflawni'n fewnol yn uniongyrchol. Cafwyd defnydd cryf o ddarparwyr trydydd parti yng Ngogledd Cymru (sy'n cyfrif am bron i hanner y prosiectau a gyflawnwyd) a thrwy hynny sicrhau y gallai'r rhaglen fanteisio ar gapasiti ac arbenigedd allanol, a oedd yn arbennig o bwysig i rai o'r awdurdodau llai nad oedd ganddynt gapasiti mewnol. Yn ogystal, roedd y dull hwn yn ffafriol i rymuso cymunedau lleol a oedd yn flaenoriaeth bwysig i'r rhaglen. Y prif ffactor negyddol mewn perthynas â thegwch fodd bynnag, oedd y gallu i gyflawni, wrth i'r dystiolaeth awgrymu bod y prosiectau mwy yn tueddu tuag at sefydliadau profiadol fel y trafodwn yn y bennod nesaf.

Yn yr un modd, roedd gan natur gynhwysol proses yr alwad agored rai anfanteision. Roedd y chwe awdurdod lleol yn cydnabod bod hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i gydweithredu'n rhanbarthol ac roedd hefyd yn peryglu dyblygu gweithgarwch ar draws y rhanbarth. Cyflwynodd rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru opsiwn Aml-Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â'r her hon, er bod rhanddeiliaid yn mynegi bod y diffyg cyflawni ar draws y rhanbarth yn wendid ac y byddai'r rhaglen wedi elwa o fwy o gyflawni ar draws awdurdodau lleol.

Gwnaeth y dull agored hefyd gynhyrchu lefel o alw na ellid ei ddiwallu. Er bod y cam Mynegi Diddordeb wedi helpu'r awdurdodau lleol i ddileu prosiectau nad oeddent yn cyd-fynd â'r cyd-destun lleol neu na ellid eu cyflawni'n realistig o fewn yr amserlenni byr, arweiniodd at faich gweinyddol trwm ar y lefel leol. Yn unol â hynny, gallwn dybio bod y dull agored hwn yn cymryd mwy o amser na'r opsiynau eraill, a oedd yn arbennig o broblematig yng nghyd-destun cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin o ystyried yr amserlen a oedd eisoes yn dynn.

Mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng dull sy'n seiliedig ar alw a dull sy'n seiliedig ar anghenion, gan nodi bod y gweithrediad yng Ngogledd Cymru yn debycach i'r cyntaf o'r rhain. Bydd rhagfarn hefyd yn anochel o fewn dull sy'n cael ei arwain gan alw, yn enwedig yng nghyd-destun cyllidebau sy'n crebachu pan oedd sefydliadau a oedd wedi gallu defnyddio cyllid yr UE am amser hir yn cystadlu am adnoddau i gynnal eu strwythur eu hunain yn hytrach na (neu o leiaf, yn ogystal â) darparu cymorth sydd ei angen. Os cymharwn â model cyflawni blaenorol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, cyflwynwyd y Timau Ymgysylltu Strategol i helpu sefydliadau i wneud cais am gyllid yr UE o leiaf yn rhannol mewn ymateb i bryderon ynghylch y syniad bod y gallu i wneud cais am gymorth yn cael ei lywodraethu gan gapasiti yn hytrach nag angen. Gellir dadlau bod dull y Gronfa Ffyniant Gyffredin a roddwyd ar waith fan yma wedi bod yn llai cadarn wrth sicrhau cydweddu ag angen strategol ac wedi canolbwyntio mwy ar feysydd lle mae galw. Ar y llaw arall, mae'n bwysig nodi bod y fframwaith cychwynnol ar gyfer y rhaglen yn seiliedig ar anghenion strategol rhanbarthol a bod cynigion prosiectau yn cael eu hasesu yn erbyn y rheini. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod y gallent fod wedi defnyddio dull mwy strategol ond roeddent hefyd yn tynnu sylw at anhawster gwneud hynny mewn cyfnod byr iawn. Mae hyn unwaith eto yn dangos yr heriau a achoswyd gan achosion o oedi ac amserlen fer y rhaglen.

Anfantais arall y dull hwn yw ei fod o bosibl yn gwrthwneud cyfleoedd i gynhyrchu effaith fwy diriaethol ledled y rhanbarth yn erbyn blaenoriaethau strategol penodol. Arweiniodd y dull at gasgliad mawr iawn o brosiectau a oedd yn cyflawni gwahanol bethau. Er y gallai pob un ohonynt fod wedi cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol ar lefel leol, mae'r dull hwn yn llai delfrydol o ran cynhyrchu effeithiau strategol ar lefel facro ehangach. Mae'n creu risg bod yr effaith wedi'i 'thaenu'n eang' gan fethu â chreu newid diriaethol, wedi'i dargedu, ar draws y rhanbarth. Yn wir, dyma'r brif feirniadaeth a wnaed wrth gyflawni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd drwy Amcan 1, a arweiniodd at y dull cyflawni mwy canolog sy'n canolbwyntio ar lai o brosiectau.

## 4.2 Ymgysylltu â buddiolwyr


Yn gyffredinol, roedd dau fath o fuddiolwyr a gynorthwywyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin y gellir eu disgrifio'n fras fel buddiolwyr uniongyrchol (h.y. sefydliadau a dderbyniodd grantiau i gyflawni'r prosiectau) a buddiolwyr terfynol (h.y. busnesau, grwpiau cymunedol, neu unigolion o fewn y cymunedau a wasanaethwyd gan y prosiectau hynny). Mewn rhai achosion, fel yr 20 Cronfa Allweddol, roedd tair haen o fuddiolwyr gan gynnwys yr awdurdodau lleol fel prif ddeiliaid grantiau, y sefydliadau a oedd yn derbyn cyllid o'r cronfeydd allweddol, a'r buddiolwyr terfynol.

### 4.2.1 Ymgysylltu â buddiolwyr uniongyrchol

Hysbysebwyd y galwadau agored yn eang ar gyfer buddiolwyr uniongyrchol. Roedd y sianeli'n cynnwys gwefannau'r cynghorau, Uchelgais Gogledd Cymru, fforymau cynghorau cymuned, digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, fforymau busnes, cyfryngau cymdeithasol, a chylchlythyrau neu ddiweddariadau e-bost. Bu awdurdodau lleol hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol ar lefel sirol cyn lansio'r galwadau agored i sicrhau bod y cyfle ariannu yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol i gymunedau lleol.

Mae data monitro'r rhaglen yn dangos bod tua hanner y prosiectau wedi'u cyflawni gan sefydliadau allanol gan gynnwys lleiafrif sylweddol (28%) gan sefydliadau'r trydydd sector, sy'n dangos y ffocws ar rymuso cymunedol. Yn ogystal, cyflawnwyd 11% gan sefydliadau Addysg Uwch neu Addysg Bellach a oedd mewn sefyllfa dda i gyflawni ymyriadau Pobl a Sgiliau ynghyd â llawer o'r prosiectau ymchwil, datblygu ac arloesi a ariannwyd drwy Gefnogi Busnesau Lleol. Cyflawnwyd tua 10% o'r prosiectau gan sefydliadau'r sector preifat ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys ychydig o brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar agenda Sero Net.

Ffigur 4.1: Math o sefydliad a oedd yn cyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru




**Ffynhonnell:** Data Gwybodaeth Reoli'r Prosiectau


Defnyddiodd yr awdurdodau lleol (ar wahân i Sir y Fflint, a ddefnyddiodd yr un prosesau ar gyfer pob prosiect) brosesau galwadau agored a strategaethau cyfathrebu ar wahân er mwyn marchnata'r 20 Cronfa Allweddol. Roedd y sefydliadau targed ar gyfer y Cronfeydd Allweddol yn cynnwys cynghorau tref, busnesau bach, sefydliadau'r trydydd sector, a sefydliadau nid-er-elw sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Er nad oes gennym ddata ar gyflawniad pob prosiect yn y Cronfeydd Allweddol, mae'n debygol bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cyflawni gan sefydliadau allanol. Yn unol â hynny, os edrychwn ar yr holl brosiectau a ariannwyd drwy'r Cronfeydd Allweddol a'r prif gyllid gyda'i gilydd, gallwn weld bod y mwyafrif helaeth o brosiectau wedi'u cyflawni'n allanol, ac yn aml gan grwpiau cymunedol.

Credir bod y strategaeth gyfathrebu hon wedi helpu'r awdurdodau lleol i ddosbarthu cyllid yn fwy teg o gymharu â dulliau a ddefnyddiwyd mewn rhanbarthau eraill. Yn wir, roedd arweinwyr awdurdodau lleol yn trafod sut roedd ganddynt fwy o reolaeth dros ddosbarthiad daearyddol y cyllid (o gymharu â rhaglenni blaenorol) ac yn mynegi eu bod wedi gallu sicrhau dosbarthiad tecach. Yn Ynys Môn a Gwynedd, roedd hyn yn caniatáu i ardaloedd yn yr awdurdodau a gafodd lai o gyfleoedd i dderbyn cymorth o dan raglenni blaenorol elwa. Ystyriwyd hyn yn un o lwyddiannau allweddol y rhaglen, gan helpu i greu cefnogaeth gymunedol a chynyddu capasiti yn yr ardaloedd a oedd â'r profiad lleiaf o ddatblygu cymunedol. Mae hyn hefyd yn cael ei ategu gan ganfyddiadau o rai o werthusiadau'r Cronfeydd Allweddol a ganfu bod llawer o'r prosiectau wedi'u cyflawni gan sefydliadau cymunedol bach a dibrofiad a bod canlyniadau datblygu capasiti pwysig wedi'u hadrodd. Byddai'n ddiddorol cymharu dosbarthiad daearyddol a sefydliadol y cyflawni rhwng rhaglenni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd i ddeall perfformiad y rhaglen mewn perthynas â chyflawni teg, ac a ellir cadarnhau canfyddiadau arweinwyr awdurdodau lleol.

Dangosodd arolwg o arweinwyr prosiectau fod arweinwyr cyflawni ar gyfer y prif brosiectau (ac eithrio'r rhai a ariannwyd drwy'r Cronfeydd Allweddol) yn fwyaf tebygol o fod wedi dysgu am raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin naill ai trwy gynrychiolwyr awdurdodau lleol (45%) neu drwy sianeli mewnol, gan gynnwys gweithio oddi mewn i awdurdodau lleol (19%).

Ffigur 4.2: Sut wnaethoch chi glywed am raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin?




**Ffynhonnell:** Arolwg Arweinwyr Prosiectau (n=58)

Felly, er bod ei bod yn ymddangos bod y Cronfeydd Allweddol wedi cynhyrchu canlyniadau da wrth ddarparu cyfleoedd i sefydliadau 'newydd' gyflawni prosiectau, mae'r dystiolaeth ar gyfer cyflawniad y prif brosiectau ychydig yn wahanol. Mae'r nifer gymharol isel o arweinwyr prosiectau a glywodd am y cyfle trwy sianeli eraill fel chwiliadau ar-lein, grwpiau cymunedol, neu ddigwyddiadau rhwydweithio yn dangos bod cyrhaeddiad y rhaglen yn gymharol gyfyngedig i'r rhai a oedd eisoes yn hysbys i'r awdurdodau lleol[20]. Gall hyn hefyd fod oherwydd amserlen gyfyngol rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a oedd yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol dargedu sefydliadau nad oeddent wedi gweithio gyda nhw o'r blaen a datblygu perthnasoedd newydd. Yn wir, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cadarnhau hyn, gan nodi bod y rhan fwyaf o'r prif brosiectau wedi'u cyflawni gan bartneriaid lleol dibynadwy sydd eisoes yn hysbys i'r awdurdodau lleol.

[20] Mae'n werth nodi na ymgynghorwyd ag ymgeiswyr aflwyddiannus ac efallai y bydd y canfyddiad hwn yn adlewyrchu y derbyniwyd gwell ceisiadau gan sefydliadau â pherthnasoedd parod.

Mantais y dull hwn yw ei fod yn atal sefydliadau o'r tu allan i'r ardal, heb fawr o ddealltwriaeth o'r cyd-destun lleol ond sydd arnynt awydd derbyn cyllid, rhag cyflawni prosiectau. Mynegodd rhanddeiliaid fod y wybodaeth leol hon yn sylfaenol i osgoi dyblygu â'r ddarpariaeth leol bresennol. Yn anecdotaidd, roedd enghreifftiau o sefydliadau ledled y DU yn targedu sawl awdurdod lleol mewn ffordd ddyfaliadol gan gyflwyno cynigion a oedd yn llai abl i ymateb yn effeithiol i anghenion lleol. Roedd y dull yng Ngogledd Cymru yn atal hyn rhag digwydd.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r partneriaid hyn, megis Cadwyn Clwyd a Menter Môn, hanes hir o gyflawni yng Ngogledd Cymru. Mynegodd arweinydd awdurdod lleol arall rwystredigaeth na ellid cefnogi rhai prosiectau buddsoddiad cyfalaf potensial uchel am eu bod ar gam rhy gynnar yn eu datblygiad i'w cyflawni o fewn amserlen y rhaglen.


Mae canlyniadau'r arolwg o Arweinwyr Prosiectau yn cefnogi'r farn mai cyfyngedig fu’r ymgysylltu â chyflenwyr newydd: Roedd 96% eisoes wedi darparu gwasanaethau neu wedi helpu i gyflawni gweithgareddau i'w hawdurdod lleol cyn y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

I gloi, er bod y prif brosiectau yn gyffredinol wedi’u cyflawni'n fewnol neu gan sefydliadau allanol profiadol, roedd y Cronfeydd Allweddol yn darparu cyfleoedd i sefydliadau cymunedol llai profiadol gyflawni prosiectau, fel y disgrifiwn yn yr adran nesaf. Yn gyffredinol, mae’n ymddangos bod y rhaglen wedi sicrhau cydbwysedd da lle cyflawnwyd y prosiectau craidd mwy gan sefydliadau profiadol y gellid dibynnu arnynt i gyflawni gweithgareddau allweddol o fewn yr amserlen dynn, tra bod adnoddau sylweddol hefyd wedi'u dyrannu i sefydliadau cymunedol llai profiadol drwy'r cronfeydd allweddol. Felly, mae mecanwaith y Cronfeydd Allweddol wedi bod yn arbennig o werthfawr wrth agor llwybrau i gyflawni ar gyfer cyflenwyr newydd ac ehangu perthnasoedd awdurdodau lleol â sefydliadau sydd wedi'u gwreiddio’n ddwfn mewn cymunedau lleol.

### 4.2.2 Ymgysylltu â buddiolwyr terfynol

O ran buddiolwyr terfynol, mae ein meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso yn tynnu sylw at bwysigrwydd strategaethau cymunedol megis ymgysylltu â grwpiau lleol, defnyddio rhwydweithiau atgyfeirio, a gweithgareddau allgymorth a hyrwyddo, fel y dangosir yn Ffigur 54.3 isod (e.e. 63% o brosiectau yn defnyddio allgymorth cymunedol i ymgysylltu â buddiolwyr terfynol). Mae hyn hefyd yn dangos gwerth galluogi sefydliadau cymunedol, neu sefydliadau sydd â rhwydweithiau cryf mewn cymunedau, i arwain ar gyflawni. Roedd cyfanswm o 74% o'r adroddiadau gwerthuso a adolygwyd gennym yn canfod bod y dulliau hyn wedi bod yn effeithiol.

Ffigur 4.3: Codio dulliau ymgysylltu â chleientiaid




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=90)

Lluosi

Y thema gyffredinol ar draws Gogledd Cymru oedd bod darparu cyllid Lluosi yn her. Roedd rhanddeiliaid yn priodoli hyn yn bennaf i'r fformiwla ariannu a ddefnyddiwyd ar gyfer Lluosi yng Nghymru, gan arwain at lefel o gyllid a oedd yn fwy na'r galw am brosiectau sy'n canolbwyntio ar rifedd.

Gwnaeth sawl awdurdod lleol ganfod bod mentrau eisoes ar waith, gan gynnwys rhaglen Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru, Llywodraeth Cymru, a oedd â'r nod o gynyddu rhifedd a llythrennedd digidol i'r rhai 16 oed a hŷn. Yn Sir Ddinbych, canfu'r awdurdod lleol fod partneriaid cyflawni'n cystadlu am fuddiolwyr â rhaglenni eraill a oedd yn bodoli eisoes.

Er yr heriau hyn, roedd rhai awdurdodau lleol yn ei chael hi'n haws nag eraill cyflawni prosiectau Lluosi. Mae'r ddwy enghraifft orau i'w gweld yn Ynys Môn a Wrecsam.

Cyflawnwyd Lluosi yn Ynys Môn yn rhannol gan Gymunedau Ymlaen Môn a oedd yn bartner dibynadwy iddynt ac a oedd â hanes o ddarparu cyrsiau rhifedd. Yn wir, cymaint oedd eu llwyddiant, deallwn fod tua £400k o danwariant Lluosi wedi'i ailddyrannu o awdurdodau lleol eraill i Gymunedau Ymlaen Môn i ddiwallu'r galw yn Ynys Môn. Roedd llawer o'i lwyddiant yn deillio o'r defnydd o raglen gymorth rhifedd greadigol gan ddefnyddio "sgiliau rhifedd cudd"[21] i wella rhifedd oedolion ar draws y gymuned yn Ynys Môn.

Defnyddiodd Wrecsam fecanwaith y Gronfa Allweddol i gyflawni cyfran sylweddol o'u dyraniad Lluosi. Yn debyg i'r dull yn Ynys Môn, roedd hyn yn canolbwyntio ar ddulliau mwy creadigol trwy sicrhau y gellid ymgorffori'r ffocws ar rifedd mewn gweithgareddau eraill. Fel yn enghraifft Ynys Môn, arweiniodd llwyddiant y prosiect at oddeutu £214k ychwanegol yn mynd i'r Gronfa Allweddol, a dynnwyd o danwariant mewn ardaloedd eraill o'r rhanbarth.

[21] Yn fras, mae'r term hwn yn disgrifio prosiectau sy'n ymgorffori rhifedd mewn gweithgareddau eraill, yn hytrach na chyrsiau rhifedd mwy ffurfiol. Mae 'mathemateg mewn ffordd lechwraidd' hefyd yn aml yn cael ei ddefnyddio fel cyfeiriad at hyn.

Lansiwyd y Gronfa Allweddol trwy weminar, a arweiniodd at ystod eang o syniadau yn dod ymlaen ac yn y pen draw cyflawnwyd mwy nag 20 o brosiectau dan arweiniad y gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys dosbarthiadau pobi, prosiectau rhifedd garddwriaethol, cyfrifyddu ymarferol i ficrofusnesau, a darpariaeth wedi'i thargedu yn CEF Berwyn (y carchar yn Wrecsam). Gwnaeth yr adroddiadau gwerthuso ganfod bod y dull hwn ar lawr gwlad yn gwneud Lluosi yn fwy hygyrch ac effeithiol i sefydliadau llai a dangos sut mae ymagwedd hyblyg a chreadigol at y mathau o brosiectau a gyflawnwyd gan gynllun Lluosi wedi helpu i wella niferoedd y cyfranogwyr.

## 4.3 Effeithiolrwydd y prosesau cyflawni

Rhan allweddol o'r meta-adolygiad oedd asesu'r hyn yr oedd y gwerthusiadau wedi'u casglu ynghylch effeithiolrwydd pob proses yn nghyflawniad y rhaglen, o'r cam ymgeisio cychwynnol i'r broses gymeradwyo, profiad o gontractio, cymorth gan awdurdodau lleol, a'r agweddau monitro ac adrodd ar gynnydd. Lle roedd gwybodaeth ar gael, neilltuodd ymchwilwyr sgôr cadarnhaol neu negyddol cyffredinol yn seiliedig ar b’un a oedd y naratif yn fwy ffafriol nag anffafriol. Er bod llawer o adroddiadau yn cynnwys barn gymysg, roedd y sgôr deuaidd hwn yn ffordd syml o farnu effeithiolrwydd cyffredinol, wedi'i ategu gan nodiadau sy'n esbonio'r rhesymau dros bob sgôr.

Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y meta-adolygiad wedi'i gyfyngu gan fod cwmpas y prosesau hyn yn yr adroddiadau gwerthuso yn amrywio'n sylweddol. Ar y cyfan, ni wnaed unrhyw asesiadau ar y prosesau penodol hyn ac felly mae'r meta-adolygiad wedi'i gyfyngu i leiafrif o adroddiadau gwerthuso lle roedd digon o naratif i ddisgrifio effeithiolrwydd pob proses gyflawni. Efallai bod hyn yn dangos yr angen am fwy o safoni adroddiadau gwerthuso prosiectau mewn rhaglenni yn y dyfodol er mwyn galluogi cyfuno canfyddiadau’n fwy cadarn.

Mae gweddill yr adran hon yn disgrifio canfyddiadau'r meta-adolygiad ar gyfer pob proses, ynghyd â chanfyddiadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid a'r arolwg o arweinwyr prosiectau.

### 4.3.1 Y broses ymgeisio

Lle roedd gwybodaeth ar gael, roedd y gwerthusiadau yn gyffredinol gadarnhaol am y broses ymgeisio gyda 61% o'r adroddiadau a asesodd hyn (17/28) yn rhoi asesiad cadarnhaol cyffredinol. Mae'r adroddiadau yn nodi cymorth cryf a phrosesau effeithiol ac mewn llawer o achosion roedd yr ymgeiswyr o’r farn bod y broses yn llyfn ac yn syml. Roedd llai o adborth cadarnhaol yn y gwerthusiadau o ymyriadau Cymunedau a Lle, a allai fod oherwydd anawsterau y gallai rhai o'r sefydliadau cymunedol llai fod wedi'u hwynebu wrth lywio'r broses. Roedd y thema hon yn arbennig o amlwg yn rhai o werthusiadau'r Gronfa Allweddol a oedd yn argymell cael prosesau llai llym ar gyfer y dyraniadau grant bach iawn.

Ymhlith y gwendidau eraill a ddisgrifiwyd yn yr adroddiadau roedd y gofyniad am sawl dyfynbris – yn enwedig lle roedd costau mor isel â £2.5k neu lle roedd cyflenwyr a ffefrir, a nifer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i ddewis o’u plith a oedd yn aml yn gorgyffwrdd, gan arwain at ddryswch ymhlith ymgeiswyr. Roedd y ddwy her hyn yn deillio o ofynion y rhaglen ac roeddent y tu allan i reolaeth y tîm.

Mae adborth o’r arolwg o arweinwyr prosiectau yn awgrymu bod y broses ymgeisio, yn gyffredinol, wedi'i hamlinellu'n glir ac yn hawdd i'w dilyn (gwnaeth 71% neu 40/56 nodi hyn), bod faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani yn rhesymol (73%; 40/55), bod y cwestiynau’n briodol (80%; 44/55), bod y broses ymgeisio yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau (75%; 41/55), a bod adborth a chyfathrebu yn ystod y broses ymgeisio yn amserol ac yn adeiladol (65%; 36/55).

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o arweinwyr prosiectau (67%; 38/57) yn teimlo bod eu profiad o'r broses ymgeisio yn gadarnhaol, gyda 49% yn dweud ei fod yn 'dda' a 18% yn dweud ei fod yn 'ardderchog'. Dim ond cyfran fach (7%) a gafodd brofiad gwael o'r broses ymgeisio.

Mae gan yr awdurdodau hynny sydd wedi derbyn lefelau dwys o gyllid eisoes ecosystem o sefydliadau cyflawni sydd wedi cael profiad blaenorol o geisiadau am gyllid. Roedd adborth o gyfweliadau’n awgrymu bod hyn yn cael ei adlewyrchu gan ansawdd uchel cyffredinol y ceisiadau a oedd yn dod ymlaen drwy’r alwad agored. Mae'r ymgynghoriadau hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd canfyddedig y cam Mynegi Diddordeb wrth sgrinio ceisiadau o ansawdd isel neu anaddas.

Er bod y broses yn gyffredinol gyson ar draws yr awdurdodau lleol, roedd rhai gwahaniaethau nodedig. Er enghraifft, roedd adborth gan sefydliadau a oedd yn gwneud cais ar draws sawl sir yn cyfleu bod eglurder a dull strwythuredig Sir Ddinbych yn amlwg. Cyhoeddodd yr awdurdod lleol eu blaenoriaethau, ymyriadau, allbynnau a chanlyniadau cyllido ar eu gwefan gyda dolenni clir a oedd yn caniatáu i ymgeiswyr gydweddu eu cynigion ag amcanion strategol yr awdurdod. Roedd hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill a gellid ei efelychu yn y dyfodol fel arfer da.

### 4.3.2 Y broses gymeradwyo

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn ystyried bod y broses benderfynu yn gadarnhaol, gan ei bod yn blaenoriaethu arbenigedd lleol ac yn caniatáu mewnbwn traws-sector helaeth a oedd yn ystyried ystod eang o safbwyntiau. Roedd rhanddeiliaid ehangach yn teimlo bod y broses yn drylwyr, a thrafodwyd ceisiadau prosiectau yn drylwyr ac yn gadarn. Rhoddodd y Paneli Partneriaeth Leol ystyriaeth i ystod eang o safbwyntiau a helpodd i ddileu unrhyw duedd neu ragfarn.

Dywedodd pedwar o'r chwe awdurdod lleol eu bod, yng ngham cyntaf proses yr alwad agored, wedi derbyn cyfanswm gwerth ceisiadau a oedd bedair gwaith neu fwy yn fwy na'u dyraniad cyllid. Yn unol â hynny, roedd hyn yn gofyn am brosesau cadarn i ganfod yr ymyriadau mwyaf addas i'w cynorthwyo ac roedd arweinwyr awdurdodau lleol yn hyderus eu bod wedi cyflawni hynny. Roedd rhanddeiliaid yn disgrifio meini prawf asesu cadarn a oedd yn ceisio sicrhau eu bod yn cynorthwyo prosiectau sydd â'r effeithiau posibl mwyaf a'r allbynnau cryfaf. Mewn un awdurdod, comisiynwyd sefydliad allanol i gynnal asesiad annibynnol i ddilysu'r asesiadau cychwynnol mewnol a gynhaliwyd gan dîm yr awdurdod lleol. Roedd hefyd yn darparu asesiad cyflenwol a oedd yn canolbwyntio ar werth am arian yn benodol tra bod tîm yr awdurdod lleol yn canolbwyntio mwy ar b'un a oedd y prosiectau'n cydweddu'n strategol.

Er bod y rhanddeiliaid cyflawni o'r farn bod y prosesau hyn yn gadarn, roeddent hefyd wedi arwain at weithdrefn hir, ac roedd achosion o oedi'n aml yn cael eu crybwyll mewn adroddiadau gwerthuso. Yn wir, roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau gwerthuso (71%; 20/28) a oedd yn cwmpasu'r broses gymeradwyo yn darparu asesiad negyddol cyffredinol ac achosion o oedi yn y broses a nodwyd fel y prif ffactor. Yng nghyd-destun amserlen gyflawni'r rhaglen a oedd eisoes yn fyr iawn, dim ond cynyddu'r broblem oedd unrhyw oedi yn ystod y broses gymeradwyo. Roedd i'r rhain yn aml oblygiadau ymarferol ar gyflawni. Er enghraifft:

> 'Yn yr achosion lle y gwnaeth llythyrau cynnig lithro o ran amserlen, roedd hyn wedi achosi llai o amser gweithredu i'r prosiectau eu hunain. Nid oedd hyn yn ddelfrydol gan fod rhai grwpiau yn rheoli prosiectau adeiladu cyfalaf heriol.'
>
> 'Roedd oedi wrth sicrhau cytundeb cyllido yn effeithio ar recriwtio darpar swyddogion, gan olygu mai pump swyddog yn unig, yn hytrach na chwech, y gwnaeth y prosiect eu cyflogi, ac nid oedd digon o amser i ddod o hyd i arbenigedd addas ym maes datblygu cymunedol i lenwi'r holl swyddi.'
>
> **Ffynhonnell:** Dyfyniadau o adroddiadau gwerthuso prosiectau

Nododd sawl adroddiad gwerthuso arall fod oedi cyn derbyn hysbysiad ffurfiol wedi arwain at oedi wrth recriwtio staff a chychwyn gweithgareddau'r prosiect, a oedd yn effeithio ar gyflawni allbynnau a chanlyniadau ac yn ymhelaethu ymhellach ar heriau yn sgil y ffaith bod amserlen gyflawni'r rhaglen eisoes yn dynn.

Nododd yr awdurdodau lleol fod y prosesau gwneud penderfyniadau yn amrywio'n sylweddol o ran amserlen ar draws pob awdurdod lleol. Roedd hyn yn heriol yn bennaf i'r prosiectau Aml-Awdurdod Lleol. Cyfeiriodd un rhanddeiliad at y ffaith eu bod "ond yn gallu symud mor gyflym â'r awdurdod arafaf," oherwydd ni ellid hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad y penderfyniad nes bod pob awdurdod lleol wedi cymeradwyo'r cais.

Yn yr un modd, dywedodd arweinwyr awdurdodau lleol fod y prosiectau Aml-Awdurdod Lleol wedi cael eu rheoli'n effeithiol gan y Tîm Rhanbarthol yn gyffredinol, gan dynnu sylw at rolau clir a threfniant effeithiol yn arwain at gydweithrediad da rhwng pob partner. Efallai fod hyn yn dangos y byddai dull symlach ar gyfer prosiectau rhanbarthol wedi bod yn fwy effeithiol, o bosibl gyda chyfran o gyllid pob awdurdod lleol wedi'i 'neilltuo' ar y dechrau ar gyfer cyflawni rhanbarthol fel y gwnaethpwyd mewn rhanbarthau eraill (e.e. De-ddwyrain Cymru).

### 4.3.3 rofiad o gontractio

Roedd oedi a thagfeydd hefyd yn thema gyffredin yn yr adroddiadau gwerthuso a drafododd y profiad o’r cyflawni, gyda 71% o'r nifer fach iawn o adroddiadau a oedd yn ymdrin â hyn (12/17) yn rhoi sgôr negyddol gyffredinol ar yr agwedd hon am y rheswm hwnnw. Cyfeiriwyd at heriau tebyg eto yn yr adroddiadau mewn perthynas â dim digon o amser ar gyfer recriwtio a chaffael, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â phrosiectau adeiladu cyfalaf. Roedd recriwtio yn arbennig o anodd o ystyried natur tymor byr y rolau a oedd newydd eu creu, ac roedd ansicrwydd ynghylch y flwyddyn bontio yn gwaethygu'r her o gadw staff.

Cafwyd ymateb mwy cadarnhaol yn yr arolwg o arweinwyr prosiectau a awgrymodd mai canfyddiad y mwyafrif (56%) oedd bod yr amser a gymerwyd i gwblhau'r broses gontractio yn rhesymol tra bod mwyafrif helaeth o arweinwyr prosiectau (68%) o'r farn bod y broses gontractio yn glir ac yn syml. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i drin canfyddiadau'r meta-adolygiad ar y profiad contractio yn ofalus (e.e. efallai na chafodd ei drafod yn y rhan fwyaf o adroddiadau am nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd).

Ar y cyfan, mae’n ymddangos y bu’r profiad cyflawni yn eithaf cymysg a bod y prif faterion yn deillio o natur tymor byr y rhaglen. Er ei bod yn ymddangos fod y prosesau a roddwyd ar waith yng Ngogledd Cymru yn gadarn, efallai bod hyn yn anfantais o ran hwyluso dull mwy effeithlon ac amserol a fyddai wedi helpu i wrthwneud y ffaith bod yr amserlen gyflawni eisoes yn heriol.

### 4.3.4 Arweiniad a chymorth gan awdurdodau lleol

Roedd timau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn yr awdurdodau lleol yn cynnal perthynas uniongyrchol, dydd i ddydd, â’r prosiectau lleol, gan ddarparu cymorth anffurfiol ar faterion cyflawni, ceisiadau am newid prosiect, a chysylltu â'r Tîm Rhanbarthol yn ôl yr angen. Byddai’r awdurdodau lleol yn cwrdd â phob arweinydd prosiect yn eu hardal yn fisol. Roedd hefyd yr opsiwn i gael sgwrs anffurfiol rhwng pob cyfarfod cynnydd misol a drefnwyd, yn dibynnu ar anghenion pob prosiect. Nid oedd yr awdurdodau lleol yn gyfrifol am gasglu data monitro’r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond fe wnaethant ddarparu cymorth i brosiectau i lunio adroddiadau cynnydd ac roeddent yn anfon nodiadau atgoffa i’w hannog i gwblhau’r adroddiadau yn amserol.

Gwnaeth y meta-adolygiad ganfod bod yr agwedd hon ar gyflawniad y rhaglen yn effeithiol gyda mwyafrif y gwerthusiadau (61%; 11/18) yn rhoi sgôr cadarnhaol cyffredinol, sy'n dangos newid diwylliannol pwysig. Ymatebodd swyddogion awdurdodau lleol yn gyflym ac yn effeithiol i ymholiadau a godwyd gan arweinwyr prosiectau ar faterion fel ffurflenni cais am newid, er bod rhai adroddiadau o ganllawiau annigonol wedi'u darparu ar y dechrau mewn perthynas â gofynion tystiolaeth. Dywedwyd bod yr oedi wrth ddarparu'r canllawiau hyn wedi'i achosi gan yr oedi wrth dderbyn canllawiau gan Lywodraeth y DU. Cyfeiriodd adroddiadau eraill at newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion ran o'r ffordd drwy'r cyflawniad a materion yn ymwneud ag anghysondeb mewn dehongliadau ar draws awdurdodau lleol.

### 4.3.5 Monitro ac adrodd ar gynnydd


Roedd diffyg canllawiau clir gan Lywodraeth y DU yn thema a gododd dro ar ôl tro mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid, yn enwedig mewn perthynas â monitro a chofnodi tystiolaeth. Lle'r oedd y canllawiau ar gyfer casglu tystiolaeth o dan brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wedi bod yn gynhwysfawr ac yn ddiamwys, nid oedd dull ysgafnach y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu digon o eglurder, gan adael lle i ddehongliad goddrychol o'r hyn a oedd yn gymwys fel tystiolaeth. Cynyddodd hefyd y baich gweinyddol i'r Tîm Rhanbarthol, a oedd yn aml yn gorfod ceisio eglurhad gan dîm cymorth lleol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, nodwyd bod tîm lleol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymatebol ac yn ddefnyddiol wrth roi arweiniad. Er mwyn lleihau'r risg o oddrychedd a chyngor gwrthgyferbyniol, roedd y Tîm Rhanbarthol yn cofnodi'r holl geisiadau mewn system ganolog, gan arwain at gyngor mwy cyson mewn ymateb i geisiadau am eglurhad.

Gwnaeth y Tîm Rhanbarthol fabwysiadu cyfnod adrodd treigl ar gyfer hawliadau. Cyn i bob prosiect ddechrau, roedd derbynnydd y grant a'r Tîm Rhanbarthol yn cytuno ar amserlen hawlio, a nodwyd yn y Cytundeb Cyllid Grant. Talwyd yr hawliadau grant bob tri mis (h.y. bob chwarter), yn seiliedig ar y Cytundeb Cyllid Grant. Arweiniodd y broses at lif cyson o ddata gan osgoi cyfnodau brig o ran adroddiadau a fyddai'n effeithio'n negyddol ar gapasiti'r Tîm Rhanbarthol. Roedd arweinwyr y prosiectau hefyd yn elwa gan fod gan bob un ohonynt chwarter llawn i gasglu a chyflwyno eu data cynnydd yn gywir, gan arwain at lai o oedi ac adroddiadau mwy cyson.

Dyluniwyd y broses fonitro i fod yn "llai manwl", gyda ffocws ar asesu a oedd prosiectau'n mynd rhagddynt yn unol â'r allbynnau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, yn hytrach na gosod gofynion y tu hwnt i'r hyn oedd ei angen ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn caniatáu i brosiectau weithio o fewn fframwaith nad oedd yn ychwanegu baich gweinyddol gormodol, tra'n dal i ddarparu mecanwaith goruchwylio cadarn i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud.

Caiff hyn ei ategu gan ganlyniadau'r arolwg o arweinwyr prosiectau, sy'n dangos bod mwyafrif (63%) o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod adrodd ar cynnydd yn hawdd i'w wneud, bod yr amserlen adrodd yn glir (81%), a bod y broses hawlio yn galluogi prosiectau i dderbyn taliadau amserol (66%). Fodd bynnag, ychydig o dan hanner (49%) oedd yn teimlo bod y gofynion ynghylch tystiolaeth yn glir.

Ffigur 4.4: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am brosesau contractio, adrodd a hawliadau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin?




**Ffynhonnell:** Arolwg o Arweinwyr Prosiectau (n = 57 yr un)

Her allweddol oedd bod y broses ganolog wedi arwain at lwyth gwaith sylweddol i'r Tîm Rhanbarthol, a oedd yn gyfrifol am brosesu hawliadau a monitro data ar draws pob un o'r 169 o brosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â chymeradwyo ceisiadau am newid prosiect. Roedd y baich gweinyddol hwn yn bwysau ar gapasiti'r tîm ac ar adegau roedd angen cymorth ychwanegol gan dîm lleol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghyngor Gwynedd. Cyfrannodd hefyd at oedi wrth brosesu ceisiadau am newid, a oedd yn ei dro yn effeithio ar amserlenni cyflawni.

At hynny, roedd y broses ganolog yn cyfyngu ar ba mor weladwy oedd y weithdrefn hawlio i awdurdodau lleol. O ganlyniad, nid oeddent yn gallu darparu cymorth digonol i'w prosiectau lleol pan gododd ymholiadau penodol ynghylch monitro a hawliadau. Yn aml roedd yn rhaid iddynt gyfeirio'n ôl at y Tîm Rhanbarthol i gael eglurhad ar ymholiadau, a oedd yn ymateb yn araf oherwydd eu capasiti cyfyngedig.

Mae canfyddiadau'r meta-adolygiad yn ategu'r asesiad cymysg hwn o'r prosesau monitro ac adrodd ar gynnydd. Yn gyffredinol, darparodd ychydig dros hanner yr adroddiadau gwerthuso asesiadau cadarnhaol o fonitro (51%; 22/43) ac adrodd ar gynnydd (53%; 16/30). Roedd y prif reswm dros ymatebion negyddol yn ymwneud â'r goblygiadau o ran adnoddau i arweinwyr prosiectau, gyda sefydliadau llai, cymunedol a rhai sy’n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn arbennig yn ei chael hi'n anodd.

## 4.4 Boddhad â’r cymorth

Gwnaeth y meta-adolygiad hefyd edrych ar lefelau boddhad y buddiolwyr a oedd wedi’u hadroddwyd. Roedd y dulliau gweithredu yn amrywio ar draws y gwerthusiadau: roedd rhai’n asesu boddhad derbynwyr grant tra bod eraill yn rhoi sgôr cyffredinol ar gyfer buddiolwyr terfynol. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai dim ond 22 o adroddiadau gwerthuso oedd yn cynnwys mesur o foddhad cyffredinol y buddiolwyr.

Er y cyfyngiadau methodolegol hyn, roedd y canfyddiadau yn gyson gadarnhaol, gyda lefelau uchel o foddhad wedi'u cofnodi ymhlith buddiolwyr. Roedd yr adroddiadau’n darparu cofnod cyfartalog o 90% o foddhad da neu ragorol. Roedd hyd yn oed y gwerthusiad lleiaf cadarnhaol yn adrodd bod 68% o fuddiolwyr o’r farn bod eu boddhad yn dda neu’n ardderchog.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos, er bod heriau wedi'u nodi mewn rhai prosesau cyflawni, bod y cymorth a ddarparwyd drwy brosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru wedi cael derbyniad eithriadol o dda gan fuddiolwyr.

## 4.5 Rheoli a Llywodraethu’r Rhaglen

Y Tîm Rhanbarthol oedd yn rheoli'r holl brosesau monitro a hawliadau. Fe wnaethant weithredu dull canolog, strwythuredig a chyson o fonitro a chasglu data trwy eu dangosfwrdd a oedd yn seiliedig ar PowerBI. Datblygwyd y dangosfwrdd gan y Tîm Rhanbarthol yn fewnol er mwyn gallu olrhain allbynnau, canlyniadau, a gwariant pob prosiect mewn amser real, gyda'r opsiwn i hidlo yn ôl ardal awdurdod lleol. Roedd data o'r dangosfwrdd yn sail i Adroddiadau Cynnydd Chwarterol y Rhaglen i’r Bwrdd Cydweithredu. Cyflwynodd y Tîm Rhanbarthol adroddiadau chwarterol a chwe misol i’r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol trwy system PowerApp. Er bod y system PowerApp yn cael ei ystyried yn feichus, dyluniwyd dangosfwrdd PowerBI i ganiatáu i'r tîm drosglwyddo data yn hawdd o un cais i'r llall. Mynegodd rhai Awdurdodau Lleol heriau ynghylch y defnydd o ap PowerBI, lle roedd angen i’r tîm rhanbarthol gadw'r wybodaeth yn gyfredol er mwyn iddo weithio’n ymarferol, a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu capasiti.

Cafodd y dull hwn dderbyniad da yn gyffredinol gan arweinwyr awdurdodau lleol, tra bod rhanddeiliaid ehangach yn fodlon â'r prosesau rheoli a llywodraethu a rôl arweiniol Cyngor Gwynedd.


Ar lefel arweinwyr prosiectau, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y mwyafrif (60%) wedi cael profiad cadarnhaol o systemau rheoli’r rhaglen: roedd 39% yn teimlo bod eu profiad yn 'dda,' a 21% yn cyfleu bod eu profiad yn 'ardderchog'. Datgelodd ymatebion eraill i'r arolwg lefelau uchel o foddhad â sgiliau a phrofiad staff rheoli’r rhaglen, gyda 93% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud eu bod yn gadarnhaol ynghylch sgiliau a phrofiad staff rheoli’r rhaglen.

## 4.6 Ffactorau llwyddiant allweddol a meysydd i'w gwella

Roedd rhan olaf y meta-adolygiad yn canolbwyntio ar y gwersi allweddol a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau gwerthuso mewn perthynas â'r galluogwyr sydd eu hangen er mwyn i'r prosiectau lwyddo a'r prif feysydd i'w gwella.

Mewn perthynas â ffactorau llwyddiant allweddol, roedd pedair prif thema yn amlwg yn yr adroddiadau, fel y dangosir yn Ffigur 4.5.

Ffigur 4.5: Codio ffactorau llwyddiant allweddol o adroddiadau gwerthuso'r prosiectau




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=101)

Mae rhai o'r rhain yn amlwg, megis sylfeini strategol cryf gydag arweinyddiaeth effeithiol, strwythurau llywodraethu cryf ac amcanion clir, ynghyd â sylfeini gweithredol cryf gan gynnwys staff profiadol a phrosesau effeithiol. Roedd y ddwy thema hon yn rhan gref o lwyddiant Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy, fel y dangosir yn y portread isod.

**Portread: Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy**

Mae'r canfyddiadau'n amlygu'r ffaith bod dyluniad y Cronfeydd Allweddol yng Nghonwy wedi'i lunio gan yr angen i sicrhau bod sefydliadau llai yn yr ardal yn gallu cael mynediad at gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd y Gronfa Allweddol yn llwyddiannus wrth ymgysylltu ag ystod eang o ymgeiswyr am brosiectau, o grwpiau cymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr i sefydliadau addysgol a busnesau bach, arbenigol.

Roedd y dull hyblyg wedi'i arwain gan y galw yn caniatáu i arian gael ei ddyrannu mewn ymateb i anghenion fel yr oeddent yn codi. Arweiniodd hyn at lefel uchel yn manteisio ar y cyfle, yn enwedig yn achos Cronfeydd Allweddol Adfywio Cymunedol a Chefnogi

Busnesau Lleol, lle bu gofyn i'r ddwy gronfa dderbyn cyllid ychwanegol mewn ymateb i'r lefel uchel o alw.

Roedd cydweddu'n strategol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn sicrhau bod y Cronfeydd Allweddol yn cyfrannu at nodau polisi ehangach. Yng nghyfnod dylunio'r Cronfeydd Allweddol, cymerwyd gofal yn dilyn mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol a oedd yn cynrychioli ystod o sectorau er mwyn osgoi dyblygu â ffrydiau ariannu eraill, fel rhaglen Trawsnewid Trefi a Chronfa Ffyniant Bro.

Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod y Cronfeydd Allweddol wedi'u llywodraethu a'u rheoli'n gadarn yn gyffredinol, gyda swyddogion ymroddedig a phrofiadol yn darparu cymorth wedi'i deilwra i ymgeiswyr a Phanel Partneriaeth Lleol yn goruchwylio penderfyniadau. Roedd y strwythur hwn yn hwyluso ymgysylltiad lleol cryf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig nad ydynt ar yr arfordir sydd yn aml heb fynediad at gyfleoedd cyllid grant. Roedd yr ymatebolrwydd a'r cymorth gan swyddogion y Cronfeydd Allweddol yn gryfderau allweddol ac arweiniodd at y lefelau uchel o foddhad a adroddwyd gan arweinwyr prosiectau.

Efallai mai'r agwedd fwyaf diddorol yw pwysigrwydd dulliau da sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac mae'n dangos gwerth y dull o'r gwaelod i fyny a fabwysiadwyd gan dîm y rhaglen yng Ngogledd Cymru. Roedd yr adroddiadau gwerthuso yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod wedi ymwreiddio mewn cymunedau er mwyn sicrhau ymgysylltiad da, ynghyd â datblygu partneriaethau cryf fel y dangosir gan enghraifft Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam a ddangosir yn y portread isod.

**Cronfa Allwedd Gymunedol Wrecsam**

Gwnaeth y prosiect ragori ar dargedau allbynnau a chanlyniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn rhannol oherwydd y galw uchel am y cyllid grant a arweiniodd at nifer uwch o grantiau gwerth is yn cael eu dyfarnu na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Galluogwyd y prosiect i gael ei gyflawni'n llwyddiannus gan bartneriaeth effeithiol rhwng Cadwyn Clwyd a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a'r cysylltiadau cryf sydd gan y ddau bartner ag ystod eang o sefydliadau cymunedol lleol.

Mae'r cyllid wedi arwain at amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ymhlith sefydliadau a fu'n rhan o'r prosiect, megis sefydliadau'n cynyddu eu cyrhaeddiad a'r ystod o gyfleoedd y gallant eu cynnig i aelodau'r gymuned, gan alluogi dilyniant prosiectau ar raddfa fwy a chreu cyfleoedd i wneud ceisiadau am gyllid grant yn y dyfodol.

Yn olaf, roedd yr angen i fod yn hyblyg ac addasu'r model cyflawni yn ffactor llwyddiant allweddol pellach a amlygwyd yn aml mewn adroddiadau. Roedd hyn yn aml yn golygu bod yn ymatebol i amgylchiadau sy'n newid (e.e. symud tuag at ddarparu cyrsiau byr mewn ymateb i'r amserlen gyfyngedig), ailddyrannu arian i elfennau lle roedd mwy o alw'n dod i'r amlwg, neu wneud newidiadau i ddiwallu anghenion cyfranogwyr a gwella ymgysylltiad. Mae'r prosiect TAPI 2 a gyflawnwyd gan GISDA yn enghraifft dda o'r gallu hwn i addasu, fel y dangosir yn y portread isod.

**Tîm o Amgylch y Person Ifanc 2 (TAPI 2): prosiect peilot a gyflawnwyd gan GISDA**

Roedd prosiect TAPI2 yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar y person ar sail ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth emosiynol, sgiliau chwilio am swydd, cyrsiau achrededig a phrofiad gwaith i bobl ifanc agored i niwed yng Ngwynedd a oedd ymhell i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Datblygodd y prosiect ymagwedd leol gyda staff (pan fo'n ymarferol) yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu trefi lleol fel Nefyn ac Aberdaron ac nid yn unig yn y canolfannau allweddol ym Mhwllheli, Caernarfon a Blaenau Ffestiniog. Roedd hyn yn golygu bod y prosiect yn gallu darparu i ystod ehangach o bobl ifanc. Gweithiodd y prosiect yn dda gyda sefydliadau eraill fel Cyfle Cymru, Gwasanaethau Ieuenctid a Gofal Gwynedd, a'r Ganolfan Waith i gael mynediad at atgyfeiriadau ac er mwyn darparu cymorth i bobl ifanc.

Elfen allwedd o lwyddiant cyffredinol y prosiect oedd y gallu i newid y ffordd y cyflawnwyd y prosiect i ddiwallu anghenion cyfranogwyr. I ddechrau, roedd y prosiect yn cael trafferth ymgysylltu â phobl ifanc a daeth yn amlwg bod llawer eisiau sesiynau 'un-i-un' oherwydd problemau hyder mewn lleoliadau cymdeithasol. Yn unol â hynny, newidiodd y prosiect ei fodel cyflawni i ddarparu ar gyfer hyn.


Roedd yr adborth gan bobl ifanc yn gadarnhaol iawn, yn aml yn cyfeirio at eu boddhad â'r staff a gweithgareddau'r prosiect. Yn wir, ansawdd ac ymroddiad y staff oedd un o gryfderau'r prosiect.

Mae'r prif feysydd i’w gwella a drafodwyd mewn adroddiadau gwerthuso yn aml yn canolbwyntio ar wrthdro’r ffactorau llwyddiant a nodwyd uchod, fel yr angen i gynyddu ymgysylltiad cymunedol a datblygu partneriaethau, a'r angen am welliannau gweithredol fel mynd i'r afael â materion capasiti staffio neu ddiffygion ym mhrosesau prosiectau. Fodd bynnag, roedd dau faes allweddol i'w gwella sy'n haeddu eu trafod.

Yn gyntaf, fel a nodwyd trwy gydol y bennod hon, amserlen fer y rhaglen fu'r her allweddol a effeithiodd ar bob agwedd ar gyflawni. Roedd hyn yn effeithio ar recriwtio staff a chyfranogwyr ac ansawdd y cyflawni gyda phrosesau’n cael eu rhuthro a chyfaddawdau’n cael eu gwneud wrth ymateb i’r amserlen heriol. Roedd yr angen i gychwyn ar brosiectau’n gyflym wedi’i rwystro gan yr amser a gymerodd i sefydlu perthynas rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni. Roedd rhai o'r prosiectau cyfalaf mwy yn wynebu oedi oherwydd prosesau caniatâd cynllunio araf a thagfeydd caffael ac roedd y materion hyn yn anodd eu datrys o fewn yr amserlen ariannu dynn. Arweiniodd amserlen fer y rhaglen hefyd at ansicrwydd, yn enwedig tua diwedd 2024, gan arwain at anawsterau cadw staff. Gwnaeth llawer o sefydliadau golli staff allweddol pan ddaeth contractau i ben oherwydd oedi wrth gyhoeddi cynlluniau am gyllid pontio, a arweiniodd at anawsterau wrth ail-recriwtio staff ar gontractau tymor byd penodedig.

Yn ail, cyfeiriwyd yn gyson yn yr adroddiadau at yr angen am well monitro a gwerthuso. Roedd hyn yn cynnwys agweddau fel strwythurau adrodd cliriach, darparu gwell arweiniad i gyfranogwyr ynghylch pwysigrwydd eu hadborth, a'r angen am systemau gwell i ddogfennu taith y cyfranogwyr a dilyn ymlaen er mwyn olrhain effeithiau. Tynnodd eraill sylw at yr angen i symleiddio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cael eu cofnodi er mwyn symleiddio'r broses, yn enwedig yn achos grwpiau cymunedol bach.

Ffigur 4.6: Codio'r prif feysydd i'w gwella o adroddiadau gwerthuso'r prosiectau




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=121)

# 5. Gwerthusiad o Effaith

Mae'r bennod hon yn darparu adolygiad lefel uchel o'r effeithiau a gynhyrchwyd gan raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru, gan dynnu ar dystiolaeth o'n meta-adolygiad o werthusiadau’r prosiectau. Mae hyn wedi'i ddylunio i ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd drwy'r gwerthusiad cenedlaethol a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, sy'n darparu dadansoddiad manylach ar effaith y rhaglen mewn meysydd penodol (Grymuso cymunedau a gwella'r sector gwirfoddol a chymunedol; Datgarboneiddio Gogledd Cymru; a gwella sgiliau sylfaenol, digidol a 'meddal').

Yn yr adran hon rydym yn ystyried y prif effeithiau tymor byr a thymor hwy a gynhyrchwyd, gan dynnu ar y Ddamcaniaeth Newid ac asesu'r cyfraniad yn erbyn y prif anghenion a nodwyd ar y dechrau (e.e. drwy ddogfen Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru), yn ogystal â thrafod canlyniadau neu effeithiau annisgwyl neu anfwriadol. Rydym yn trafod yr effeithiau hyn o dan ddwy thema eang effeithiau cymdeithasol ac ar sail lle, a chanlyniadau economaidd ac amgylcheddol. Defnyddiwyd y dull hwn yn hytrach na chynnal asesiad yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi oherwydd natur drawsbynciol yr effeithiau a gynhyrchwyd gan bob blaenoriaeth fuddsoddi, fel y dangoswn yn yr is-adrannau isod.

## 5.1 Effeithiau cymdeithasol ac ar sail lle

Wrth ddisgrifio'r angen am fuddsoddiad, gwnaeth dogfen Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru amlygu’r angen i adfywio canol trefi yn y rhanbarth er mwyn helpu i ddenu buddsoddiad ac adfywio economïau lleol. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth hefyd ar yr angen i ddiogelu a gwella asedau naturiol yn well, a chynorthwyo mentrau neu asedau treftadaeth a diwylliant i ysgogi twristiaeth. Yn olaf, roedd llawer o bwyslais hefyd ar yr angen i fynd i'r afael â diffyg seilwaith craidd sy'n cefnogi cydlyniant cymunedol ac yn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.


Roedd yr anghenion hyn wedyn yn llywio’r ymyriadau, yr allbynnau a’r meysydd effaith a amlinellwyd yn nogfen Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ac a grynhowyd yn y Ddamcaniaeth Newid. Yn fras, gellir eu categoreiddio i ddau faes effaith allweddol: gwell ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol, a mwy o falchder mewn lle. Rydym yn darparu asesiad lefel uchel o effaith y rhaglen yn erbyn y themâu hyn isod.

### 5.1.1 Canlyniadau Datblygu Cymunedol

Fel y trafodwyd gennym yn adran 3.2, mae'r data monitro a gasglwyd gan y rhaglen yn darparu rhai arwyddion defnyddiol o effaith y rhaglen wrth gynhyrchu canlyniadau datblygu cymunedol, gan ddogfennu'r miloedd o sefydliadau cymunedol a gynorthwywyd. Fe wnaethom archwilio hyn yn llawer mwy manwl fel rhan o'n meta-adolygiad, a oedd yn cynnwys ymarferiad manwl i adolygu a chodio'r holl ganlyniadau ac effeithiau sydd wedi’u cynnwys yn y 121 o adroddiadau gwerthuso.

Yr effaith ar gynyddu ymgysylltiad cymunedol, cydlyniant a mynediad at wasanaethau oedd y thema y cyfeiriwyd ati amlaf yn yr adroddiadau hyn. Fel y dangoswn yn Ffigur 5.1 dros y dudalen, gwnaeth 43% o brosiectau gyflawni'r canlyniadau hyn, ac roedd y rhain yn aml yn arwain at welliannau i iechyd a lles pobl (a adroddwyd mewn 36% o'r adroddiadau yn gyffredinol).

Ffigur 5.1: Codio **canlyniadau datblygu cymunedol** o adroddiadau gwerthuso'r prosiectau




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=121)

## Cynyddu capasiti sefydliadau cymunedol

Efallai mai'r math mwyaf arwyddocaol o brosiectau yn hyn o beth oedd y cronfeydd allweddol a phrosiectau eraill a oedd yn ceisio buddsoddi mewn sefydliadau cymunedol a chynyddu eu capasiti, a thrwy wneud hynny helpu i gynyddu eu cyrhaeddiad neu faint darpariaeth eu gwasanaethau. Roedd y prosiectau hyn yn aml yn caniatáu i sefydliadau gynyddu nifer y defnyddwyr a allai gael mynediad i'w gwasanaeth neu eu galluogi i gyrraedd grwpiau gwahanol, sydd weithiau'n anoddach eu cyrraedd. Ar adegau eraill, roedd y buddsoddiad yn hybu gwytnwch y sefydliadau cymunedol ac yn cael effaith bwysig o ran diogelu. Roedd y prosiectau hefyd yn cael effaith bwysig ar alluoedd y sefydliadau a gafodd brofiad gwerthfawr o ysgrifennu cynigion a chyflawni prosiectau, a oedd yn waddol allweddol i'r rhaglen trwy sicrhau bod cymunedau wedi'u paratoi'n well i gyflawni gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

Roedd gan bron i bob awdurdod lleol brosiectau sylweddol drwy’r Cronfeydd Allweddol yn cyflawni'r math hwn o weithgarwch.

Yn Wrecsam, mae tri o'u Cronfeydd Allweddol (sy'n cyfrif am gyfanswm o bron i £5 miliwn o'u cyllideb) yn arbennig o amlwg o ran cynyddu capasiti sefydliadau cymunedol. Cronfa Allweddol Cymunedau a Lle Wrecsam yw'r brif enghraifft, er bod Cronfeydd Allweddol Pobl a Sgiliau a Lluosi wedi cael effaith debyg. Yn achos y cyntaf o’r rhain, canfu'r adroddiad gwerthuso fod y prosiect wedi cynyddu capasiti a chynaliadwyedd grwpiau cymunedol lleol trwy ddatblygu cyfleusterau / seilwaith, gwasanaethau a ffynonellau incwm newydd. Yn ôl yr adroddiad, dywedodd 64% o sefydliadau a gynorthwywyd amdanynt eu hunain eu bod yn fwy gwydn ar ôl cael cymorth, dywedodd 74% fod ganddynt well dealltwriaeth o sut i gael gafael ar gyllid, a dywedodd 56% fod ganddynt well sgiliau ysgrifennu cynigion. Dywedodd y mwyafrif helaeth hefyd fod y prosiect wedi eu helpu i ennill y profiad sydd ei angen i gyflawni prosiectau ar raddfa fwy yn y dyfodol. Roedd yr effaith ar y cymunedau y mae'r sefydliadau hyn yn eu gwasanaethu hefyd yn amlwg, gydag 82% o dderbynwyr grant yn dweud bod y prosiect wedi eu galluogi i ehangu eu cyrhaeddiad gyda nifer fwy o aelodau'r gymuned yn cael mynediad i'w gwasanaethau neu gyfleusterau yn ogystal â'u galluogi i gyrraedd cymunedau a demograffeg newydd (e.e. datblygu gwasanaethau sy'n cynorthwyo grwpiau penodol fel ieuenctid,  yr henoed, unigolion ag anghenion iechyd meddwl ac ati).

Yng Ngwynedd, roedd tri phrosiect mawr yn canolbwyntio ar gynyddu capasiti sefydliadau cymunedol mewn gwahanol sectorau neu gyd-destunau gyda chyfanswm o tua £4.2 miliwn wedi'i wario ar y gweithgarwch hwn. Roedd y rhain yn cynnwys Grymuso Gwynedd, lle canfu'r gwerthusiad fodel llwyddiannus a oedd yn defnyddio swyddogion allgymorth i helpu sefydliadau llai profiadol i ddatblygu eu ceisiadau. Roedd y cymorth hwn yn darparu canlyniadau pwysig i feithrin capasiti ynddo'i hun, ac mewn rhai achosion arweiniodd at ffurfio grwpiau cymunedol newydd. Canfuwyd bod y cyfuniad o gymorth swyddogion a'r cyllid wedi effeithio'n sylweddol ar gapasiti’r grwpiau cymunedol a’u hunangynhaliaeth. Rhoddodd prosiect arall, Diwyllesiant, gymorth grant i 40 o sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth tra bod y prosiect nodedig olaf, Mantell Gwynedd, wedi ariannu 36 o brosiectau grant i wella cyfleusterau cymunedol.

Gwnaeth Cronfa Allweddol Meithrin Capasiti Cymunedol Sir Ddinbych (prosiect gwerth £1.5 miliwn) sefydlu 8 Cwmni Buddiant Cymunedol newydd a darparu grantiau cyfalaf i sefydliadau wella eu cyfleusterau fel y gallent ddiwallu anghenion cymunedol yn well. Ymhlith y sefydliadau a gafodd grant, roedd modd gweld modelau incwm amrywiol, lleihad mewn bregusrwydd ariannol a chynnydd yn y refeniw a gynhyrchwyd. Yn yr un modd, cyfeiriodd y rhan fwyaf o sefydliadau a dderbyniodd gymorth grant gan Gronfa Allweddol Cymunedol Sir y Fflint (prosiect tua £0.7 miliwn) at welliannau i'w hadeiladau, a arweiniodd at lai o gostau oherwydd arbedion effeithlonrwydd ynni a'u galluogi i gynyddu'r ystod o weithgareddau a gynigiwyd ganddynt.

Yng Nghonwy, cyflwynodd Cronfa Allweddol Meithrin Capasiti'r Sector Gwirfoddol gyfres o weithdai hyfforddi wedi'u teilwra i anghenion y sector gwirfoddol. Roedd y rhain yn ymdrin â phynciau fel rheoli gwirfoddolwyr; strategaethau cyllido cynaliadwy; llywodraethu a chydymffurfiaeth; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; a gwerthuso prosiect a mesur effeithiau.

Ar raddfa lai, mae sawl enghraifft arall o brosiectau a fuddsoddodd mewn cynyddu capasiti sefydliadau cymunedol tra bod rhai wedi buddsoddi mewn asedau cymunedol penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys buddsoddiadau i garej a swyddfa bost ym Mhenrhos, gwelliannau i Bwll Padlo Conwy, a Chanolfan Tenis Wrecsam. Yn achos y ddau gyntaf, llwyddodd y rhaglen i ddiogelu'r asedau hyn i'r gymuned. Er enghraifft, yn achos Canolfan Tenis Wrecsam cyflwynwyd cyrtiau padel newydd dan do, sef y cyntaf yn y rhanbarth.

Gyda'i gilydd, gwnaeth y meta-adolygiad ganfod gweithgarwch sylweddol yn ymwneud â chynyddu gallu sefydliadau cymunedol. Roedd tystiolaeth dda i ddangos bod y buddsoddiadau hyn wedi cael yr effaith a fwriadwyd wrth eu galluogi i gynyddu eu gwytnwch a graddfa eu darpariaeth, ac adroddodd sefydliadau'n aml am effeithiau i'w cymunedau. Fodd bynnag, nodwn fod diffyg tystiolaeth gan aelodau'r gymuned yn uniongyrchol yn yr adroddiadau hyn, a dyma'r prif gyfyngiad wrth geisio deall effaith y rhaglen ar gynyddu ymgysylltiad â'r gymuned a'r effaith gymdeithasol sydd ynghlwm wrth hynny.

### Mwy o hygyrchedd

Mae cynyddu hygyrchedd gwasanaethau ac asedau cymunedol wedi bod yn faes effaith pwysig pellach sydd â'r potensial i gynyddu ymgysylltiad cymunedol. Mae sawl enghraifft lle mae buddsoddiadau wedi gwneud y rhain yn fwy hygyrch i grwpiau cymunedol penodol. Er enghraifft, gwnaeth prosiect Gardd Furiog Fictoraidd Erlas wella mynediad o amgylch y safle, yn enwedig i bobl hŷn a phobl ag anghenion corfforol; gwnaeth prosiect Gwyliau Gwasanaeth Ieuenctid Conwy [22] ddosbarthu 150 o docynnau bws, gan alluogi pobl ifanc o ardaloedd gwledig neu ynysig i fynychu clybiau a gweithgareddau ieuenctid; ac fel rhan o brosiect Hwb yr Orsedd, sicrhawyd bod ardal y parc yn fwy hygyrch. Roedd prosiectau eraill wedi cynyddu hygyrchedd drwy waredu rhwystrau ariannol, gan gynnwys prosiect Datblygu a Chefnogi Talent yng Nghonwy a ariannodd gostau teithio ac offer yn ogystal â ffioedd hyfforddi a chystadlu i athletwyr ifanc gymryd rhan yn eu gweithgareddau. Gwnaeth Prosiect Gwella Pyllau Padlo Conwy wedyn sicrhau y gellid cael mynediad i'r ased yn rhad ac am ddim.

Er bod data buddiolwyr terfynol sydd ar gael i'w asesu yn gyfyngedig, gallwn dybio y bydd y cynnydd hwn mewn hygyrchedd wedi arwain at ragor o aelodau'r gymuned yn ymwneud â gwasanaethau allweddol a mwy o ddefnydd o gyfleusterau, gan ddarparu ystod o fuddiannau hamdden, lles a gweithgarwch corfforol ac ati.

[22] Roedd hon yn un o nifer o fentrau a ariannwyd drwy Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, Conwy.

## Gweithgarwch datblygu cymunedol arall

Y tu hwnt i'r cymorth i sefydliadau cymunedol, gallwn hefyd weld effaith y rhaglen ar gynyddu ymgysylltiad cymunedol o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a gyflawnwyd. Yn ôl data monitro'r rhaglen, cyflawnwyd 863 o raglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol dan arweiniad y gymuned. Adroddwyd yn aml yn y gwerthusiadau eu bod wedi helpu i leihau ynysu cymdeithasol, gwella lles a chynyddu ymgysylltiad cymunedol. Mae'r enghreifftiau o hyn yn amrywiol, o dros 20 o ddigwyddiadau a 60 o weithgareddau a gyflawnwyd yn Hwb Cymunedol Neuadd y Dref Rhuthun, i brosiectau sy'n cynnwys pobl mewn gweithgareddau beicio, cerddwyr, casglu sbwriel, a phrosiectau'r celfyddydau cymunedol. Mae'r rhain yn aml yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau agored i niwed fel oedolion ag anableddau dysgu, goroeswyr cam-drin domestig, a phobl sy'n byw gyda dementia. Canfu'r adroddiadau fod y gweithgareddau wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol ar gyfranogwyr; gan gynnwys gwell lles corfforol a meddyliol, gwell hunan-barch a hyder, yn ogystal ag ymdeimlad o bwrpas a pherthyn. Yn yr un modd, yn wahanol i'r cymorth a roddwyd i ddatblygu capasiti sefydliadau cymunedol, nid oedd yn glir sut y byddai canlyniadau'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal.

## Crynodeb

I gloi, mae tystiolaeth sylweddol wedi'i chynnwys yn y meta-adolygiad i ddangos yr effaith ar gynyddu capasiti a gweithgareddau cymunedol sy'n debygol o fod wedi cynyddu ymgysylltiad chael effaith gadarnhaol ar les pobl.

Daeth grymuso cymunedol i'r amlwg hefyd fel thema gref yn yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ac mae'n ffocws canolog i'r gwerthusiad cenedlaethol. Amlygodd yr ymgynghoriadau, o gymharu â rhaglenni blaenorol, fod y fenter hon yn teimlo'n llawer agosach at gymunedau oherwydd ei dull o weithredu o'r gwaelod i fyny. Mewn rhai ardaloedd, roedd ymdrech fwriadol i dargedu cymunedau a oedd wedi derbyn llai o gymorth o'r blaen. Er bod hyn yn fwy heriol—o ystyried prinder sefydliadau ac unigolion profiadol i gyflawni prosiectau—aeth rhai mentrau i'r afael â hyn trwy gyfuno cyllid grant â chymorth swyddogion i helpu sefydliadau cymunedol i feithrin sgiliau a capasiti. Mae'r dull hwn nid yn unig wedi galluogi prosiectau mwy effeithiol i gael eu cyflawni ond credir hefyd ei fod wedi creu capasiti hirdymor gwerthfawr oddi mewn i gymunedau. Chwaraeodd y Cronfeydd Allweddol ran bwysig wrth gryfhau'r arfer o gyflawni dan arweiniad y gymuned hefyd ac maen nhw'n cynnig model defnyddiol ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.

### 5.1.2 Canlyniadau Ymdeimlad o Le a’r effaith ar economi ymwelwyr

Balchder cymunedol


Mae tystiolaeth gref o weithgarwch y rhaglen yn arwain at gynnydd mewn balchder hefyd. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy fuddsoddi yn ymddangosiad ffisegol lleoedd drwy gronfeydd gwella’r parth cyhoeddus fel y buddsoddiad o tua £2 filiwn ym mhrosiect Gwynedd, 'Canol Trefi - Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm', a oedd â'r nod o gynyddu balchder drwy adfywio canol trefi yn ardal yr awdurdod. Buddsoddodd prosiectau eraill mewn ymddangosiad ffisegol asedau penodol, fel gwelliannau i ardd a mynwent eglwys fel rhan o Brosiect Gwytnwch Cynhwysiant Treftadaeth Gymunedol De Wrecsam, a buddsoddodd eraill mewn uwchraddio adeiladau masnachol fel Prosiect Parc Menter Dyffryn Nantlle lle derbyniodd 16 o fusnesau gyllid a Chronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol Conwy a gynorthwyodd 23 o fusnesau drwy Welliannau i Eiddo Masnachol.

Gall rhai effeithiau ymdeimlad o le hefyd fod yn gysylltiedig â chanlyniadau diogelwch cymunedol. Yn wir, roedd hyn yn amlwg yn yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid lle amlygwyd y cysylltiad rhwng aelodau o'r gymuned yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned ac yn ymfalchïo mewn byw yno. Efallai mai'r enghraifft orau o hyn oedd prosiect Teledu Cylch Cyfyng Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn a fuddsoddodd £250k mewn 108 o gamerâu newydd a 14 gweinydd newydd.

Mae Ffigur 5.2 isod yn dangos bod hanner yr holl brosiectau Cymunedau a Lle, a 36% o'r prosiectau yn gyffredinol, wedi cynyddu'r ymdeimlad o le ymhlith y cymunedau a gynorthwywyd. Mae hyn yn ganolog i holl ethos rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gyffredinol a oedd yn ymwneud â gwella balchder cymunedol. Mae'r siart hefyd yn dangos y cysylltiad rhwng gwella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth, adfer adeiladau, a gwella mannau cymunedol (presennol neu newydd), a chynyddu balchder mewn lle.

Mae'n ddiddorol nad oedd yr effeithiau hyn wedi'u cyfyngu i brosiectau Cymunedau a Lle. Yn wir, roedd y prosiectau Cefnogi Busnesau Lleol yn aml yn gysylltiedig ag ymdeimlad cynyddol o le (y cyfeiriwyd ato mewn 31% o adroddiadau gwerthuso) sy'n debygol o fod oherwydd gwelliannau i adeiladau masnachol, marchnadoedd, a'r strydoedd mawr.

Ffigur 5.2: Codio **effeithiau ymdeimlad o le** o adroddiadau gwerthuso'r prosiectau




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=121)

## Economi ymwelwyr

Mae'r un gweithgareddau a gynyddodd falchder trigolion lleol yn y lle maen nhw'n byw hefyd yn aml yn cyfrannu at gynnig yr ardal fel cyrchfan. Bydd yr enghreifftiau a ddarparwyd uchod wedi cyfrannu trwy wella ymddangosiad ffisegol yr ardal. Ceir hefyd lawer o enghreifftiau o fuddsoddiadau mewn asedau treftadaeth fel prosiect y Farchnad Fenyn yr adroddwyd ei fod wedi cyfrannu at adfywio canol tref Dinbych ac wedi cael effaith ar ddenu ymwelwyr. Mae Prosiect Gwella Pyllau Padlo Conwy, a drafodwyd yn yr adran flaenorol, yn enghraifft arall gydag ymwelwyr yn adrodd bod y pyllau padlo yn ychwanegu at apêl gyffredinol Conwy fel cyrchfan. Dyluniwyd prosiectau eraill yng Nghonwy hefyd i wella'r cynnig i ymwelwyr, gan gynnwys dwy loches newydd ar hyd Promenâd Traeth y Gogledd yn Llandudno, Llwybr Tref Alice ac ymgyrch farchnata i annog ymwelwyr i ddod i Gonwy drwy gydol y flwyddyn. Bu buddsoddiadau hefyd yn amgueddfeydd Lloyd George a Wrecsam, Galeri yng Nghaernarfon, a Chlwb Criced Parc Gwersyllt. Mae'r siart uchod yn dangos bod chwarter y prosiectau wedi arwain at welliant yn y cynnig diwylliannol a threftadaeth, y gellir ei gysylltu â gwella'r cynnig fel cyrchfan.

Ymhellach, buddsoddodd sawl prosiect mewn mannau gwyrdd neu las fel prosiect Cysylltu i'r Arfordir a Chefn Gwlad yn Sir y Fflint a fuddsoddodd mewn gwell llwybrau beicio a llwybrau troed ymhlith pethau eraill, tra buddsoddodd Rhaglen Cyrchfan Werdd yn Ynys Môn mewn llwybrau pren ac elfennau eraill o seilwaith.

Yn olaf, roedd prosiectau eraill yn ceisio creu bywiogrwydd a rhoi hwb i'r economi ymwelwyr trwy becynnau o ddigwyddiadau. Efallai mai'r enghraifft orau yw prosiect 'Digwyddiadau yn Wrecsam' a oedd yn cyflawni 29 o ddigwyddiadau ac a ragorodd yn helaeth ar darged yr ymweliadau gyda 92,669 wedi'u denu. Mewn enghraifft arall, gwnaeth prosiect Diwyllesiant gynorthwyo 54 o ddigwyddiadau neu weithgareddau lleol, gan arwain at £2 filiwn o wariant ymwelwyr, yn ôl yr hyn a adroddwyd, tra bod prosiect 'Creu Conwy' wedi cyflawni dros 200 o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynorthwywyd gan fuddsoddiad prosiect yn y seilwaith digwyddiadau symudol sydd ar gael i'w ddefnyddio gan gymunedau yng Nghonwy. Dywedodd swyddogion yng Nghonwy fod hyn wedi galluogi perfformiadau diwylliannol i fod yn fwy hygyrch, cynhwysol a lleol.

Ym mhob un o'r rhain, roedd adroddiadau o fwy o ganfyddiadau o gyfleusterau a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Yn wir, mae Ffigur 5.2 yn dangos bod 20% o'r gwerthusiadau a adolygwyd gennym wedi canfod bod y prosiectau wedi arwain at ddenu mwy o ymweliadau a/neu ymwelwyr.

Crynodeb

Gyda'i gilydd, mae tystiolaeth dda i ddangos bod y rhaglen wedi cynyddu balchder pobl yn y lle maen nhw'n byw ac wedi gwella cynnig y rhanbarth fel cyrchfan, er nad yw'n bosibl meintioli graddfa'r effaith hon gan nad oedd unrhyw ddangosyddion ffurfiol i fesur gwelliannau mewn balchder neu gynnydd yng ngwariant ymwelwyr.

## 5.2 Effeithiau economaidd ac amgylcheddol

Yn ogystal â gwella balchder cymunedol, dyluniwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd i gynyddu cyfleoedd bywyd trwy fuddsoddi mewn datblygiad economaidd a hwyluso cyfleoedd i unigolion symud ymlaen. Roedd dogfen Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn amlinellu sawl her yn ymwneud â busnesau gan gynnwys yr angen i ddatgarboneiddio eu gweithrediadau, cryfhau cymorth i fusnesau cymdeithasol, cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi, a gwella'r economi ymwelwyr (trafodwyd yr olaf o'r rhain yn yr adran flaenorol). At hynny, roedd y ddogfen hefyd yn tynnu sylw at brinder sgiliau mewn sectorau twf allweddol (yn enwedig yn gysylltiedig â sero net) a rhwystrau i gyflogaeth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur (gan gynnwys diffyg sgiliau 'meddal' fel hyder a chymhelliant).


Mae'r ffocws ar effeithiau amgylcheddol ac economaidd yn aml yn cydblethu, gyda ffocws sylweddol o fewn prosiectau datblygu busnes ar eu helpu i ddatgarboneiddio. Bu ffocws sylweddol hefyd ar gynyddu cyflogadwyedd a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd trwy helpu pobl i symud yn agosach at y farchnad lafur, yn ogystal â chynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith. Caiff pob un o'r themâu hyn eu trafod yn yr is-adran hon.

## 5.2.1 Datblygu busnes a datgarboneiddio

Roedd y rhan fwyaf o brosiectau (57%) o leiaf yn rhannol yn canolbwyntio ar gynhyrchu canlyniadau economaidd cadarnhaol, ac nid yw'n syndod bod hyn yn arbennig o berthnasol i Gefnogi Busnesau Lleol gydag 83% o'r adroddiadau gwerthuso yn nodi effeithiau datblygu economaidd (gweler Ffigur 5.3 dros y dudalen). Roedd rhywfaint o hyn yn deillio o'r gweithgarwch a drafodwyd yn yr adran flaenorol gyda 20% o brosiectau yn cyfrannu tuag at wella'r cynnig fel cyrchfan. Fodd bynnag, roedd ychydig yn fwy cyffredin i gymorth busnes gael ei nodi fel y ffactor sy'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd.

Fel y nodwyd eisoes, roedd hyn yn aml yn cydblethu ag effeithiau amgylcheddol gyda 55% o holl adroddiadau gwerthuso prosiectau Cefnogi Busnesau Lleol hefyd yn cyfeirio at ryw fath o effaith amgylcheddol.

Ffigur 5.3: Codio effeithiau datblygu busnes, economaidd a datgarboneiddio o adroddiadau gwerthuso'r prosiectau




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=121)

Gwelwyd y ffocws deuol hwn ar effeithiau economaidd ac amgylcheddol yn aml mewn prosiectau cymorth busnes a oedd yn ceisio helpu busnesau i ddatgarboneiddio. Roedd llawer o enghreifftiau o hyn yn y prosiectau a gynorthwywyd, wrth i brosiectau geisio cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith y gymuned fusnes, yn aml gyda chynlluniau datgarboneiddio wedi'u cynhyrchu fel y prif allbwn (yn wir, datblygwyd 426 o gynlluniau ar draws y prosiectau hyn). Roedd prosiectau'r Academi Ddigidol Werdd, a gyflawnwyd mewn 5 o'r 6 awdurdod (Wrecsam oedd yr unig eithriad), yn enghraifft dda o brosiectau a gyfrannodd at leihau allyriadau carbon ymhlith busnesau a oedd yn cymryd rhan drwy gynlluniau datgarboneiddio. Yn ôl yr adroddiadau, fe wnaethant gynyddu dealltwriaeth busnesau o'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer datgarboneiddio ac arweiniodd at greu dau adnodd (canllaw busnes cynaliadwy ac adnodd ymwybyddiaeth llythrennedd carbon) sy'n offer y gellir parhau i gael eu defnyddio i helpu busnesau yn eu hymdrechion i ddatgarboneiddio. Rhan arall o waddol y prosiectau oedd sefydlu hwb penodol yr Academi Ddigidol Werdd yn Sir Ddinbych, a barhaodd i wasanaethu fel cyfleuster hygyrch ar gyfer hyfforddiant ac arddangos, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, technolegau adnewyddadwy, sgiliau ac arloesi.

Mae sawl enghraifft arall. Gwnaeth Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol Conwy gynorthwyo ystod amrywiol o brosiectau ynni gwyrdd, fel cynorthwyo busnesau lleol i gymryd camau rhagweithiol tuag at ddatgarboneiddio eu gweithrediadau, gosod atebion ynni adnewyddadwy a gwella eu heffeithlonrwydd ynni cyffredinol.

Roedd Prosiect Cydweithredu Sero Net Colomendy, Cefnogi Busnesau Sir Ddinbych, yn rhoi ddata effeithiol i fusnesau ac arweiniodd at iddynt roi ystyriaeth i’w hallyriadau carbon. Gwnaeth Cronfa Sir y Fflint gynorthwyo 37 o fusnesau gydag astudiaethau dichonoldeb ar leihau carbon gan ymgysylltu â 90 o fusnesau mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, gyda llawer ohonynt yn defnyddio cynlluniau lleihau carbon i wneud penderfyniadau strategol a sicrhau cyllid ychwanegol. Roedd prosiect Labordy Byw yn hybu sgiliau, gwybodaeth a thwf y gweithlu ym maes datgarboneiddio a thechnoleg ôl-ffitio yn y gogledd-orllewin, tra bod prosiect Dyfodol Datgarboneiddio Cynaliadwy Sir y Fflint yn rhoi cyfle i fusnesau gael cymorth gan beirianwyr cymwys a phrofiadol yn yr AMRC. Ar gyfer y prosiect olaf hwn, dywedodd y buddiolwyr fod y peirianwyr wedi dangos dealltwriaeth dda o'u gofynion busnes penodol a’u bod yn gallu darparu argymhellion perthnasol ac ymarferol o ganlyniad i'r ymweliad, gyda mapiau llwybrau datgarboneiddio wedi'u datblygu gan ddarparu gwerth da. Gwnaeth y gwerthusiad o brosiect Sero Net Gogledd Cymru ganfod bod 42% o fusnesau a gynorthwywyd eisoes wedi rhoi gwelliannau ar waith yn ymwneud â chynaliadwyedd ar ôl ymgysylltu â'r prosiect.

Dangosodd gwerthusiadau prosiect eraill effeithiau lleihau carbon mwy diriaethol. Yn ôl gwerthusiad Cefnogi Busnesau Sir Ddinbych, cafwyd gostyngiad blynyddol o 147.43 tCO2e o ganlyniad i'r ynni adnewyddadwy a osodwyd, tra bod Prosiect Parc Menter Dyffryn Nantlle wedi cynorthwyo 15 o adeiladau i wella eu heffeithlonrwydd ynni a/neu leihau eu hallyriadau carbon.

### 5.2.2 Gwella cyflogadwyedd a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd

Roedd sbectrwm eang i agwedd cyflogadwyedd y rhaglen, o 'cyn-gyflogadwyedd' a chymorth i'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, i ddarpariaeth cyflogadwyedd mwy traddodiadol a helpu pobl i ddod o hyd i waith. Roedd llawer o'r ffocws ar y cyntaf, gyda phrosiectau'n anelu at fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a diweithdra hirdymor trwy helpu pobl ag anghenion cymhleth i symud yn agosach at y farchnad lafur a pharatoi i allu gweithio.


Dangosodd data’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol fod yna lawer o weithgarwch yn hyn o beth, gyda miloedd yn cael eu cynorthwyo i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth a gweithwyr allweddol, ymgymryd â sgiliau bywyd a sgiliau meddal (hyder a gwytnwch) ac dod yn economaidd weithgar ac yn fwy cyflogadwy. Un o'r prif gyflawniadau yn hyn o beth yw'r 5,734 o bobl sy'n profi llai o rwystrau strwythurol i ddod o hyd i waith a darpariaeth sgiliau ar ôl cael cymorth tra bod 4,184 wedi cael eu cynorthwyo i gael addysg.

Roedd y canlyniadau hyn hefyd yn amlwg yn y meta-adolygiad, lle cyfeiriodd 63% o adroddiadau gwerthuso Pobl a Sgiliau at ddatblygu sgiliau, cyfeiriodd 50% at ganlyniadau cyflogadwyedd (gan gynnwys mwy o hyder), ac yn hanfodol roedd 47% o brosiectau wedi cynorthwyo unigolion i symud yn agosach at y farchnad lafur neu ail-ymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant (gweler Ffigur 5.4 dros y dudalen).

Roedd nifer o enghreifftiau o brosiectau a oedd â phwyslais cryf ar hyn. Gwnaeth y gwerthusiad o Llwybrau i Gyflogaeth, a gyflawnwyd yng Nghonwy, ganfod bod 89% o'r cyfranogwyr yn credu bod y cwrs/cyrsiau a gymerwyd wedi helpu i leihau eu rhwystrau strwythurol i ddod o hyd i waith a darpariaeth sgiliau o leiaf i ryw raddau tra bod 43% wedi llwyddo i ddod o hyd i waith yn dilyn y cwrs/cyrsiau. Adroddwyd bod prosiect TAPI2 wedi gwella hyder pobl ifanc gyda chynnydd cyfartalog o 29% a dangosodd prosiect MAPS, o gael cymorth cywir a hyblyg wedi’i deilwra, y gallai pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oresgyn rhwystrau, meithrin sgiliau, a symud tuag at ddyfodol cadarnhaol.

O ran ail-ymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant, mae dwy enghraifft amlwg. Roedd prosiect TRAC Conwy yn barhad o brosiect hirhoedlog. Gwnaeth y gwerthusiad ganfod effaith gadarnhaol sylweddol ar ail-ymgysylltu â'r disgyblion mwyaf heriol a bregus yng Nghonwy, a adroddwyd bod 33% o'r cyfranogwyr wedi gwella eu hymddygiad yn yr ysgol a bod lles 36% o'r cyfranogwyr wedi gwella. Gwnaeth y gwerthusiad o brosiect Camau Cefnogol Coleg Cambria ganfod bod 65% o ddysgwyr yn dweud bod eu presenoldeb wedi gwella’n sylweddol, cyfeiriodd 55% at well cymhelliant, a dywedodd 57% bod eu graddau wedi gwella.

Ffigur 5.4: Codio effeithiau cyflogadwyedd ac effeithiau sy'n gysylltiedig ag addysg o adroddiadau gwerthuso’r prosiectau




**Ffynhonnell:** Meta-adolygiad o adroddiadau gwerthuso (n=121)

### 5.2.3 Dod o hyd i waith

Yn olaf, fel y nodwyd, mae'r rhaglen hefyd wedi cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith, er mai cyflawniad cymedrol o 705 (93% o'r targed) a gafwyd. Mae'r Gwasanaeth Gweithio'n Iach yng Nghonwy yn enghraifft dda o brosiect a ddarparodd wasanaeth cyflogadwyedd mwy traddodiadol, gydag 85 o 102 o gleientiaid yn cael eu cynorthwyo i wneud gweithgareddau chwilio am waith. Dywedodd pob un ohonynt eu bod wedi gwella eu cyflogadwyedd trwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol; roedd 94 wedi creu CV, roedd 72 wedi gwneud cais am swydd ac roedd 51 wedi sicrhau cyfweliad â chyflogwr; a llwyddodd 28 o gleientiaid i ddod o hyd i waith.

Roedd rhai o'r prosiectau'n canolbwyntio ar brinder sgiliau penodol a oedd wedi'u nodi yn yr ardal. Er enghraifft, roedd prosiect Childcare Works yng Nghonwy yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant, helpu cyfranogwyr i ennill cymwysterau, a darparu lleoliadau gwaith yn y sectorau gofal plant ac addysgu. O ganlyniad i'r cymorth hwn, daeth 12 o gyfranogwyr o hyd i waith ar ôl eu hamser yn y rhaglen – 6 fel gweithwyr gofal plant a 5 fel cynorthwywyr addysgu. Roedd prosiect Coleg Cambria (Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru) yn darparu hyfforddiant â chymhorthdal i gyflogwyr yn Wrecsam a Sir y Fflint i fynd i'r afael â bylchau sgiliau, gan gynnwys hyfforddiant grŵp, cymwysterau swydd-benodol, cyrsiau arweinyddiaeth a hyfforddiant un i un. Gwnaeth y gwerthusiad ganfod bod y prosiect yn llwyddiannus i raddau helaeth, gyda 74% o gyflogwyr yn dweud bod y prosiect wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau i raddau helaeth a dywedodd 86% eu bod yn teimlo eu bod yn gallu goresgyn prinder sgiliau yn y farchnad i ryw raddau. Fodd bynnag, er yr enghreifftiau hyn, nid yw'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra'n na'i gyfeirio benodol at grwpiau diffiniedig a'u hanghenion.

### 5.2.4 Crynodeb

Heb os, mae amrywiaeth o effeithiau economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol wedi'u cyflawni, gyda ffocws a gweithgarwch prosiect arbennig o gryf ynghylch cynorthwyo busnesau i leihau costau ar yr un pryd â lleihau allyriadau carbon trwy sicrhau mwy o effeithlonrwydd ynni. Mae'n ymddangos hefyd bod tystiolaeth eithaf cryf o effaith ar unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur o ran gwella eu cyfleoedd bywyd a dod yn economaidd weithgar, er mai dim ond cyflawniad cymedrol a fu o ran llwyddo i ddod o hyd i waith. Felyn achos y canfyddiadau blaenorol, mae'r asesiad adolygiad lefel uchel yn unig y mae'r asesiad hwn yn ei ddarparu o effeithiau'r rhaglen ac mae'n dibynnu ar ansawdd y data sydd ar gael yn yr adroddiadau gwerthuso. Y prif fwlch oedd y diffyg adborth gan fuddiolwyr terfynol a'r defnydd o ddulliau gwerthuso mwy cadarn (fel defnyddio grwpiau rheoli i gynnal asesiadau effaith gwrth-ffeithiol). Wedi dweud hynny, mae'r adroddiadau gwerthuso a adolygwyd gennym yn darparu canfyddiadau dangosol defnyddiol sy'n awgrymu bod y rhaglen wedi creu effeithiau pwysig i fusnesau a chyflogadwyedd.

# 6. Dadansoddiad Cymharol: Rhanbarthau Eraill a Modelau Cyllido Blaenorol

Mae'r bennod hon yn archwilio ymhellach fanteision ac anfanteision y dull gweithredu a ddefnyddiwyd yng Ngogledd Cymru drwy ddau fath o ddadansoddiad cymharol: yn gyntaf, cymharu darpariaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin â modelau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol; ac yn ail, cymharu â chyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin mewn ardaloedd eraill ledled y DU. Diben hyn yw ceisio canfod arferion da a llywio ymhellach y gwaith o ddylunio a chynllunio rhaglenni cyflawni yn y dyfodol.

## 6.1 Cymharu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin a modelau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol

Mae Adran 2.2. yn yr adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad manwl o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd cyn trafod nodweddion allweddol model y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn yr adran hon rydym yn tynnu ar ein hadolygiad desg manwl o werthusiadau blaenorol, ynghyd â'n hymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn ystyried manteision ac anfanteision dull gweithredu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin o gymharu â'r model cyflawni blaenorol.

### 6.1.1 Nodweddion allweddol a chyflawniadau model y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

Dechreuwn drwy grynhoi nodweddion allweddol model y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd fel y'u disgrifir yn adran 2.2.

Llywodraeth Cymru (drwy WEFO) oedd yn gyfrifol am ddewis prosiectau ac felly roedd ganddi rôl bwysig wrth bennu'r blaenoriaethau strategol.

Roedd cydweithrediad rhanbarthol hirsefydlog a chynyddol i helpu i ddatblygu prosiectau a oedd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol, o'r partneriaethau lleol o dan raglen 2000-07, i fecanweithiau’r Timau Ymgysylltu Strategol a’r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol mewn rhaglenni dilynol. Yn yr un modd, roedd y cyfnod cychwynnol yn cynnwys dull cryf 'o'r gwaelod i fyny' y canfuwyd bod iddo gryfderau a gwendidau. Roedd y gwendidau’n cynnwys aneffeithlonrwydd ac anawsterau wrth gydweddu ag amcanion rhanbarthol a strategol. O ganlyniad, symudodd rhaglen 2007-13 tuag at fwy o gydlynu rhanbarthol er mwyn symleiddio strwythurau cyflawni a chanolbwyntio ar brosiectau mwy strategol. Er y gallai hyn fod wedi darparu mwy o effeithlonrwydd a thargedu strategol gwell, a chanfuwyd ei fod wedi lleihau achosion o ddyblygu, roedd hefyd yn rhoi llawi o ddylanwad i gyrff lleol effeithio ar eu hardaloedd ac, o gymharu, gellir ei ddisgrifio fel mwy o ddull 'o'r brig i lawr'.

Parhaodd y duedd hon i gyfnod cyflawni 2014-20 gan gyflwyno mentrau Cymru gyfan a oedd yn aml yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru.

Cyflawniadau'r Cronfeydd Strwythurol

Cyflawnwyd cannoedd o brosiectau yng Ngogledd Cymru o dan Amcan 1 (a rhaglenni cysylltiedig).[23] Roedd y rhain yn cynnwys:

- Uwchraddio Seilwaith e.e. gwelliannau ar Wibffordd yr A55, ystadau diwydiannol a pharciau busnes i ddatblygu busnesau a swyddi mewn ardaloedd nad oedd ganddynt fawr o seilwaith modern o'r blaen.
- Cymorth Busnes ac Amaethyddiaeth e.e. buddsoddi mewn technoleg newydd mewn gweithgynhyrchu, a chymorth i greu hyd at 2,500 o fusnesau bach a chanolig newydd net (busnesau newydd).
- Sgiliau a Swyddi i bobl ddi-waith a Phrentisiaethau Modern i bobl ifanc, gyda 44,700 o gyfranogwyr yn cael eu helpu i ddod o hyd i waith neu ddysgu pellach ar draws Gorllewin Cymru a’r Cymoedd.
- Adfywio Cymunedol drwy raglen LEADER a mesurau eraill i e.e. adnewyddu neuaddau pentref, cychwyn mentrau cymdeithasol, a rhedeg canolfannau dysgu TG cymunedol. Er bod y prosiectau hyn yn fach yn unigol, gyda'i gilydd fe wnaethant wella ansawdd bywyd a phlannu hadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Gwnaeth y gwerthusiad terfyn rhaglen (2012) ganfod bod Cronfeydd Strwythurol 2000–06 wedi gwneud "cyfraniad gwerthfawr" at addasiad economaidd Cymru. [24] **Fodd bynnag, rhybuddiodd y gwerthusiad hefyd y byddai disgwyl i raglen fer 7 mlynedd drawsnewid economi ranbarthol yn afrealistig.** I ddangos hyn, nododd y gwerthuswyr y byddai hyd yn oed enillion uchel damcaniaethol ar fuddsoddiad £2 biliwn yr UE yn ychwanegu dim ond ffracsiwn o ganran at gynnyrch domestig gros Cymru. Hynny yw, roedd y Cronfeydd Strwythurol yn hanfodol ond nid yn ddigonol ar eu pennau eu hunain i oresgyn canrif o lusgo economaidd. Erbyn 2006, roedd Gogledd Cymru yn dal i wynebu problemau fel cynhyrchiant isel a phocedi o ddiweithdra, a dyna pam y parhaodd y rhanbarth i dderbyn yr haen uchaf o gyllid yr UE mewn rhaglenni dilynol.

Parhaodd y meysydd effaith a amlygwyd uchod yn gyffredinol i fod yn brif ffocws yn 2007-13 gyda buddsoddiadau mewn seilwaith mawr pellach (parciau diwydiannol newydd a gwelliannau trafnidiaeth), creu swyddi a thwf busnes. Roedd buddsoddiad sylweddol hefyd mewn ymchwil ac arloesi a oedd yn ceisio cysylltu'r byd academaidd â diwydiant lleol a buddsoddi mewn cyfleusterau ymchwil ar ben uchaf y farchnad. Erbyn 2013, roedd gan Ogledd Cymru seilwaith ymchwil a datblygu llawer gwell, gan helpu i ddyblu gwariant ymchwil a datblygu cyffredinol Cymru fel canran o gynnyrch domestig gros ers 2001.[25]

[23] Trosolwg o'r Gwerthusiad - Rhaglenni Ewropeaidd 2000-06
[24] Trosolwg o'r Gwerthusiad - Rhaglenni Ewropeaidd 2000-06
[25] Trosolwg o'r Gwerthusiad - Rhaglenni Ewropeaidd 2000-06

Dechreuodd y rhanbarth hefyd elwa o raglenni Cymru gyfan yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys ReAct, a ddarparodd grantiau ailhyfforddi i weithwyr a gollodd eu gwaith yn ystod dirwasgiad ddiwedd y 2000au (e.e. gwnaeth llawer o'r sector gweithgynhyrchu, gyda chyflogwyr fel Airbus, elwa o hyn) a chynllun lleoli graddedigion GO Wales.

Mae gwerthusiadau ac archwiliadau o raglenni 2007–13 yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol o ran eu gweithrediad. Er y cyflawniadau hyn, roedd yr her graidd yn parhau mewn perthynas â'r llusgo o ran dangosyddion economaidd lefel uchel ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (gan gynnwys llawer o Ogledd Cymru). Erbyn 2013, roedd cynnyrch domestig gros y pen y rhanbarth yn dal i fod tua 70% o gyfartaledd yr UE - mewn gwirionedd heb newid mewn termau cymharol ers 2000. Roedd hyn yn golygu bod Gogledd-orllewin Cymru yn gymwys eto ar gyfer y rownd nesaf o lefel uchaf o gymorth yr UE. Gwnaeth rhai beirniaid, fel Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, y sylw bod Cymru ar ôl dwy rownd o ariannu yn "dal i geisio dal i fyny" yn economaidd, gan gwestiynu'r effaith drawsnewidiol. Fodd bynnag, dadleuodd eraill y gallai'r rhanbarth fod wedi llithro ymhellach yn ôl, a bod llawer o faterion strwythurol (fel natur ymylol a dirywiad diwydiannol) yn cymryd ymdrech hirdymor i'w goresgyn. Y consensws oedd bod cynnydd wedi'i wneud wrth osod sylfeini (sgiliau, seilwaith, adeiladu rhwydweithiau), ond roedd angen buddsoddiad parhaus.

Mae themâu tebyg i'w gweld yng nghyflawniadau rhaglen ariannu 2014-20. Cafwyd gwelliannau seilwaith, gan gynnwys ffocws sylweddol ar ymestyn cysylltedd band eang drwy brosiect Cyflymu Cymru, a chafwyd buddsoddiad pellach mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu ac arloesi o'r radd flaenaf, ac mewn prosiectau cyflogaeth, sgiliau a chynhwysiant cymdeithasol. Roedd darpariaeth gynyddol o brosiectau ledled Cymru ac roedd yna hefyd brosiectau rhanbarthol gyfan fel TRAC, a oedd yn cynorthwyo dros 1,200 o bobl ifanc mewn perygl i aros mewn addysg neu hyfforddiant.

Mewn adroddiad diwedd rhaglen Llywodraeth Cymru yn 2023, amlygwyd y ffaith bod **pob rhan o Gymru wedi elwa** o gronfeydd yr UE – yng Ngogledd Cymru, mae'r gwaddol allweddol yn cynnwys gwell cysylltiadau trafnidiaeth, sector ynni adnewyddadwy sy'n ffynnu, canolfannau ymchwil arloesol, a gweithlu mwy medrus sy'n barod ar gyfer heriau'r dyfodol. Mae canfyddiadau gwerthuso wedi bod yn gadarnhaol i raddau helaeth ynglŷn â chyflawniad 2014–20: cyrhaeddwyd neu ragorwyd ar dargedau ar gyfer nifer yn dod o hyd i waith, cymwysterau a enillwyd, busnesau a gynorthwywyd, ac ati, yn y rhan fwyaf o gategorïau erbyn 2023. Cyfeiriwyd at fodel llywodraethu ymgysylltiad rhanbarthol fel arfer gorau, gan feithrin dull cydweithredol a oedd yn sicrhau bod y prosiectau'n cydweddu'n strategol ag anghenion rhanbarthol (er enghraifft, cysylltu rhaglenni sgiliau â'r galw disgwyliedig am sgiliau mewn prosiectau mawr fel Wylfa Newydd, a oedd yn y camau cynllunio yn ystod y cyfnod hwn).

**Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu'r diffyg cynnydd yn erbyn nodau canlyniadau lefel uchel; arhosodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (ac felly Gogledd-orllewin Cymru) yn y categori "Llai Datblygedig" hyd at Brexit. Mewn gwirionedd, pe na bai'r DU wedi gadael yr UE, byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn gymwys ar gyfer rownd newydd o gyllid Amcan 1/Cydgyfeirio yn 2021–2027, gan fod cynnyrch domestig gros y pen y rhanbarth yn dal i fod yn is na'r trothwy o 75%.** Mae hyn yn ategu'r ffaith nad oedd y Cronfeydd Strwythurol, er eu bod yn allweddol wrth roi hwb i'r economi, wedi "cau'r bwlch" yn llawn yng Ngogledd Cymru o gymharu â rhanbarthau mwy cyfoethog yr UE. Mae ffactorau hirdymor fel natur ymylol ddaearyddol, poblogaeth sy'n heneiddio, a degawdau o danfuddsoddiad cyn 2000 yn rhesymau a wnaeth gyfrannu. Serch hynny, gellir dweud bod Gogledd Cymru yn gadael oes ariannu'r UE gyda llawer mwy o gapasiti a gwytnwch economaidd nag oedd ganddo ar ddechrau Amcan 1 yn 2000.

### 6.1.2 Dulliau lleol yn erbyn dulliau cenedlaethol o ddatblygu economaidd

Mae ymchwil a dadansoddiadau polisi diweddar yn cynnig dealltwriaeth o'r ddeinameg rhwng llywodraethu lleol neu ranbarthol a dulliau cenedlaethol neu ganolog. Mae'r astudiaethau hyn gyda'i gilydd yn amlygu cyfyngiadau canoli a manteision posibl datganoli pwerau ac adnoddau, tra hefyd yn cyflwyno dadleuon o blaid cynnal neu gryfhau cydlyniad cenedlaethol.

Thema sy'n codi drosodd a thro ar draws adroddiadau niferus yw annigonolrwydd model llywodraethu canolog wrth fynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol a meithrin twf economaidd cynaliadwy. Er enghraifft, mae'r Academi Brydeinig (2024)[26] a'r Sefydliad Llywodraethu (2022)[27] yn pwysleisio bod crynodi pŵer economaidd, ariannol a gwleidyddol yn Llundain wedi cyfrannu at anghydraddoldebau daearyddol parhaus yn y DU. Mae'r ffynonellau hynny'n dweud bod rheolaeth y llywodraeth ganolog dros liferi economaidd allweddol fel trafnidiaeth, datblygu sgiliau, a mecanweithiau cyllido wedi cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i deilwra ymyriadau i'w cyd-destunau penodol. At hynny, gall dibynnu ar grantiau wedi'u clustnodi yn hytrach na chyllid hyblyg gyfyngu ar gapasiti llywodraethau lleol i gynllunio'n strategol ar gyfer y tymor hir.

Mae tystiolaeth o Bapur Gwyn Llywodraeth Leol (2024)[28] ac astudiaethau achos fel Manceinion yn dangos y gall grymuso arweinyddiaeth leol a datganoli ystyrlon yrru twf cynhyrchiant cryfach a darparu gwasanaethau mwy effeithiol. Mae profiad Manceinion yn enghraifft o sut mae pwerau datganoledig, ynghyd â fframweithiau sefydlog a pharch at ymreolaeth leol, yn galluogi rhanbarthau i berfformio'n well na hyd yn oed Llundain yn economaidd. Mae adroddiad yr Academi Brydeinig yn cefnogi ymhellach y ddadl dros ddatganoli dyfnach, gan alw am integreiddio polisi rhanbarthol o fewn strategaethau economaidd cenedlaethol i ddatgloi potensial cynhyrchiol holl ranbarthau'r DU.

[26] Transforming the UK economy requires a transformed regional policy | Yr Academi Brydeinig
[27] Subnational government in England | Y Sefydliad Llywodraethu
[28] Papur Gwyn Llywodraeth Leol | Cymdeithas Llywodraeth Leol

Mae llywodraethu lleol effeithiol yn gofyn am atebolrwydd cadarn a dulliau i ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae gwaith ymchwil Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2025)[29] yn tynnu sylw at y ffaith bod cefnogaeth y cyhoedd i ddatganoli yn dibynnu ar strwythurau llywodraethu tryloyw sy'n sicrhau bod arweinwyr lleol yn parhau i ymateb i anghenion cymunedol. Mae trigolion yn blaenoriaethu materion lleol fel tai, trafnidiaeth, a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan ddisgwyl i awdurdodau datganoledig gyflawni gwelliannau diriaethol. Mae'r ymchwil yn pwysleisio'r angen am fframweithiau atebolrwydd clir i atal agendâu gwleidyddol rhag cysgodi buddiannau cymunedol.[30]

Fodd bynnag, mae yna safbwynt arall sy'n pwysleisio manteision dull cenedlaethol neu ganolog. Mae cefnogwyr yn dadlau bod canoli yn caniatáu mwy o gydlyniant polisi, dyrannu adnoddau'n effeithlon, a'r gallu i fynd i'r afael â heriau ar raddfa fawr sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau lleol. Mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Bennett (2023) yn beirniadu system y DU gan ddweud ei fod yn "ddigyswllt", a'i fod wedi'i nodweddu gan ddull llunio polisi canolog sy'n rhy ddominyddol ond datgysylltiedig, a all arwain at aneffeithlonrwydd ond hefyd yn adlewyrchu'r angen am gydlynu cenedlaethol cryf mewn meysydd polisi cymhleth.[31] Dadleuir bod llywodraethu canolog yn hanfodol ar gyfer rheoli heriau cenedlaethol strategol fel newid yn yr hinsawdd a'r economi, sy'n gofyn am gyfeiriad unedig ac na all awdurdodau lleol tameidiog eu trin yn effeithiol.[32]

Dadleuir hefyd bod canoli yn hwyluso safoni metrigau perfformiad ac atebolrwydd, gan helpu i oruchwylio a chymharu'n fwy eglur ar draws rhanbarthau. Gall systemau canolog leihau dyblygu, sicrhau ansawdd gwasanaeth cyson, ac atal camreoli lleol neu ansefydlogrwydd ariannol, fel y gwelir mewn achosion lle mae cynghorau wedi mynd i ddyledion anghynaladwy. Mae'r Ganolfan Dinasoedd (2022) yn tynnu sylw at y ffaith bod economi'r DU yn dioddef o system llywodraeth leol dameidiog sydd heb adnoddau digonol, gan awgrymu y gallai llywodraethau lleol, heb gymorth canolog cryf, fod yn brin o'r capasiti i gyflawni'n effeithiol.[33] Casgliad yr adroddiad hwnnw yw na fydd diwygiadau fesul cam yn ddigonol; er mwyn sicrhau codi'r gwastad mewn ffordd ystyrlon, rhaid i lywodraeth y DU roi diwygiadau beiddgar ar waith sy'n datganoli pŵer, trwsio aneffeithlonrwydd strwythurol, a darparu adnoddau priodol i awdurdodau lleol.

---

[29] Public priorities around effective governance of new devolved areas | Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol
[30] Why hasn't UK Regional Policy worked? - Yorkshire Universities
[31] The UK's incoherent state, levelling-up and the problems of English governance - Sefydliad Polisi Cyhoeddus Bennett
[32] Real decentralisation will bring great benefits - Effective Governance Forum (2023)
[33] Centralisation Nation: Britain's system of local government and its impact on the national economy | Centre for Cities

Mae'r ddadl yn canolbwyntio ar ddod o hyd i'r cydbwysedd gorau posibl rhwng ymagwedd ddatganoledig a goruchwyliaeth ganolog. Tra bod datganoli yn cynnig natur ymatebol, arloesedd ac ymgysylltu lleol, mae canoli yn cynnig cydlyniad, graddfa a chyfeiriad strategol. Mae trafodaethau polisi diweddar yn awgrymu bod llywodraethu effeithiol yn y DU yn galw am fodel partneriaeth lle mae llywodraethau lleol a chenedlaethol yn cydweithio'n agos, gyda rolau, cyfrifoldebau a fframweithiau atebolrwydd clir sy'n parchu ymreolaeth leol tra'n sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu bodloni. Mae’r Papur Gwyn Llywodraeth Leol (2024) yn galw'n benodol am "bartneriaeth gyfartal, barchus rhwng llywodraeth leol a chenedlaethol—model partneriaeth gwirioneddol wedi'i ategu gan statud, yn seiliedig ar arferion rhyngwladol gorau."

Manteision ac anfanteision allweddol cyflawni datganoledig

Caiff ei gydnabod yn gyffredinol bod datganoli cyflawni i gyrff rhanbarthol a lleol yn cynnig sawl mantais:

- Ymyriadau wedi'u Teilwra: Mae gweithredwyr lleol yn deall heriau a chyfleoedd economaidd penodol yn eu hardaloedd, gan alluogi ymatebion polisi wedi'u targedu’n well ac sy’n fwy perthnasol.
- Mwy Ymatebol: Gall cyrff rhanbarthol addasu'n gyflymach i amodau economaidd sy'n newid o gymharu ag adrannau cenedlaethol canolog.
- Ymgysylltu Cymunedol Mae dulliau cyflawni lleol yn cynnig cyfleoedd i gynnwys y cyhoedd yn fwy a chael mwy o atebolrwydd democrataidd, gan feithrin polisïau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol.
- Integreiddio Gwasanaethau: Gall cydlynu rhanbarthol helpu i sicrhau bod datblygiad economaidd yn cydweddu â pholisïau cymdeithasol, trafnidiaeth a sgiliau, gan hybu strategaethau twf rhanbarthol holistaidd.

Fodd bynnag, mae 'cyflawni datganoledig' hefyd yn wynebu heriau sylweddol:

- Bylchau Gweithredu: Gall fod diffyg cyswllt rhwng llunio polisi ar lefel Llywodraeth Cymru a chyflawniad effeithiol ar lawr gwlad gan gyrff rhanbarthol. Caiff ei dybio’n aml bod pasio deddfwriaeth neu bolisi yn ddigonol i yrru newid, ond gall gweithredu ymarferol lusgo ar ei hôl hi.
- Llywodraethu Tameidiog: Gall lluosogrwydd gweithredwyr lleol a rhanbarthol arwain at gyfrifoldebau'n gorgyffwrdd, dulliau gweithredu anghyson, ac anawsterau wrth gydlynu ymdrechion ar draws ffiniau.
- Atebolrwydd Cyfyngedig: Mae diffyg tryloywder cymharol o ran gwneud penderfyniadau mewn consortia lleol yn lleihau craffu cyhoeddus a her ddemocrataidd, gyda sectorau gwirfoddol a chymdeithas sifil yn dibynnu'n fawr ar gyllid a dylanwad y llywodraeth.
- Cyfyngiadau Capasiti: Efallai nad oes gan awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol llai yr adnoddau, yr arbenigedd neu'r galluoedd strategol i reoli mentrau datblygu economaidd cymhleth yn effeithiol.

Crynodeb

Mae yna densiwn rhwng rheolaeth ganolog a grymuso lleol. Mae adroddiadau sy'n hyrwyddo o blaid datganoli yn pwysleisio ei botensial i leihau anghydraddoldebau, gwella gwasanaethau cyhoeddus, a gwella ymgysylltiad democrataidd. I'r gwrthwyneb, mae dadleuon dros ganoli yn pwysleisio'r angen am gyfeiriad polisi unedig, effeithlonrwydd adnoddau, a diogelu buddiannau cenedlaethol.

Mae datganoli cyflawni polisi datblygu economaidd i gyrff rhanbarthol a lleol yng Nghymru yn cynnig y potensial ar gyfer strategaethau twf economaidd sydd wedi'u teilwra mwy, ac sy'n fwy ymatebol ac integredig. Fodd bynnag, mae heriau mewn cydlyniant polisi, gallu gweithredu, ac atebolrwydd yn cyfyngu ar wireddu'r manteision hyn yn llawn. Mae dull cytbwys sy'n cyfuno cyflawni datganoledig â goruchwyliaeth strategol, dyrannu adnoddau a chymorth capasiti cryf yn genedlaethol yn hanfodol i sbarduno datblygiad economaidd cynaliadwy ledled Cymru.

### 6.1.3 Gwersi allweddol ar raddfa prosiect

Yn ogystal ag ystyried dulliau cyflawni lleol yn erbyn cenedlaethol, roedd ein hadolygiad desg hefyd yn ystyried manteision model prosiectau niferus / ar raddfa fach / lleol a ddarparwyd drwy raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru o gymharu â modelau mwy strategol / o'r brig i lawr sy'n cynnwys llai o ymyriadau, ond rhai uchel eu gwerth.

Canlyniad uniongyrchol y dull prosiectau niferus / ar raddfa fach fel arfer yw bod lefel uchel o gyfranogiad cymunedol ac amrywiaeth o fathau o brosiectau. Yn ystod cyflawniad Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2000–2006 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, cyflawnwyd 1,700 o brosiectau gwahanol, yn aml gan awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol. Roedd ymdrech wasgaredig o'r fath yn golygu bod trefi bach ac ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru yn elwa o amrywiaeth o fentrau ar lefel gymunedol – o gynlluniau hyfforddi lleol i welliannau i ganol trefi. Un enghraifft bendant yw prosiect Adfywio Canol Trefi Gogledd Ddwyrain Cymru yn Wrecsam a Sir y Fflint, prosiect gwerth tua £2 filiwn a gyflawnodd welliannau i adeiladau canol trefi lleol a mannau cyhoeddus [34]. Mae hyn yn nodweddu'r model o'r gwaelod i fyny: prosiectau ar raddfa gymedrol, lleoliad-benodol sydd â'r nod o adfywio cymunedau ar y lefel ficro. Mae'r dull hwn yn aml yn well am dargedu problemau lleol yn uniongyrchol (e.e. prosiect wedi'i deilwra ar gyfer grŵp difreintiedig penodol mewn tref benodol). Yr her o ran polisi yw sut i ymhelaethu'r llwyddiannau bach niferus hyn i greu newid rhanbarthol ehangach.

[34] Dathliad o gronfeydd yr UE - LLYW.CYMRU

Mae gan natur dameidiog y model hwn oblygiadau hefyd. Gall pa mor gynaliadwy yw'r canlyniadau fod yn bryder i brosiectau ar raddfa fach, gyda llawer o brosiectau sy'n cael eu gyrru'n lleol yn dibynnu ar gylchoedd cyllido tymor byr. Mae rhaglenni mwy hefyd mewn sefyllfa well i dargedu materion systemig a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol e.e. trwy wella lefel addysg rhanbarth trwy raglen sgiliau ar draws y rhanbarth yn gyfan. Ar y llaw arall, gall prosiectau o'r gwaelod i fyny fod â manteision hirdymor cynnil trwy adeiladu seilwaith cymdeithasol. Er enghraifft, gallai canolfan ieuenctid leol a sefydlwyd gyda grant ennyn balchder cymunedol parhaol neu sgiliau arwain ymhlith y rhai sy'n ymwneud â'i redeg, hyd yn oed os yw'r ganolfan yn cau'n ddiweddarach. Mae'r effaith yn aml yn wasgaredig ac yn anodd ei fesur – wedi'i wasgaru ar draws llawer o unigolion a chymunedau mewn camau cynnydd bach.

Mae llunwyr polisi hefyd wedi sylwi bod llu o brosiectau lleol heb eu cydlynu weithiau wedi arwain at ddyblygu ymdrechion a chystadleuaeth am adnoddau. Mewn ymchwiliad yn 2012 i gronfeydd yr UE, canfuwyd achosion o brosiectau niferus wedi'u hariannu gan yr UE "yn darparu hyfforddiant tebyg neu'n targedu'r un busnesau" mewn un ardal yng Nghymru, a ystyriwyd yn aneffeithlon ac nid yn arbennig o gynaliadwy.[35]

Hefyd, mae **gorbenion gweinyddol** yn tueddu i fod yn uchel: mae pob prosiect bach yn galw am reoli, adrodd ac archwilio. Dangosodd tystiolaeth o raglenni yng Nghymru fod baich gwaith papur ar sefydliadau bach yn sylweddol – *"*mae swm y gwaith gweinyddol sydd ei angen, y tu hwnt i gyfrifyddu arferol, yn rhwystr", gan olygu bod angen i rai prosiectau gyflogi gweinyddwyr penodol er mwyn ymdrin â gwaith papur y grant.[36]

Erbyn cyfnod rhaglennu 2007–2013, roedd nifer y prosiectau a ariannwyd gan yr UE yng Nghymru wedi gostwng yn ddramatig gyda 273 o brosiectau yn cael eu hariannu erbyn diwedd 2012. Roedd hyn yn ymdrech ymwybodol i symud tuag at lai o brosiectau ar raddfa fwy. Mae canlyniadau'r prosiectau o'r brig i lawr hyn yn aml i'w gweld yn fwy uniongyrchol mewn dangosyddion macro e.e. canfuwyd eu bod wedi cyfrannu at brif gyflawniadau fel creu 71,000+ o swyddi newydd rhwng 2007 a 2020 trwy raglenni'r UE.[37] Canfuwyd bod y dull hwn hefyd wedi gwella effeithlonrwydd gweinyddol a chydweddiad â strategaethau ehangach trwy ganolbwyntio arian mewn nifer hylaw o ymyriadau. Cryfhawyd goruchwyliaeth strategol; yn wir, un feirniadaeth o raglenni cynharach yng Nghymru oedd y diffyg trosolwg strategol wrth gydlynu llawer o brosiectau lleol.[38] Gall dull â mwy o ffocws hefyd sicrhau bod canlyniadau hirdymor (fel codi cynnyrch domestig gros neu gynhyrchiant rhanbarthol) yn gyrru pa brosiectau gaiff eu dewis – gan osgoi'r demtasiwn i ariannu cynlluniau lleol dymunol ond isel eu heffaith.

---

[35] Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru - Senedd
[36] Ibid.
[37] Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru 2000–2023: Dathliad o Gyflawniadau
[38] Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014–2020 yng Nghymru: Effaith a Manteision

Un anfantais yw bod ymyriadau o'r brig i lawr yn peryglu bod yn llai ymatebol i wahaniaethau cynnil lleol a gallant ddioddef o feddylfryd un ateb sy’n addas i bawb. Mewn rhai achosion, gall cymunedau deimlo diffyg perchnogaeth dros brosiectau sydd wedi'u dylunio'n ganolog, a all effeithio ar ymgysylltiad a llwyddiant y fenter yn y pen draw. Er enghraifft, gallai rhaglen hyfforddi fawr a gyflwynir yn genedlaethol fethu ag ymdrin â rhwystrau lleol penodol neu fethu â chyrraedd yn ddwfn i bob cymuned, lle gallai grŵp lleol gael mwy o lwyddiant wrth ymgysylltu â chyfranogwyr.

Mae’n gwestiwn a yw rhaglenni eang ar raddfa fawr yn cyrraedd y rhai mwyaf ymylol yn effeithiol. Mae'r rhaglenni hyn mewn perygl o fod yn "*ofodol ddall*", gan godi cyfartaledd cyffredinol ond gadael pocedi o amddifadedd heb eu datrys. Gall prosiectau ar raddfa lai sy’n cael eu gyrru'n lleol dargedu anghydraddoldebau penodol iawn. Er enghraifft, gallai prosiect cymunedol ganolbwyntio ar helpu menywod di-waith hirdymor mewn ardal wledig benodol, neu ddarparu rhaglenni ar ôl ysgol mewn cymdogaeth ddifreintiedig, gan gyrraedd y rhai sydd fwyaf angen cymorth yn uniongyrchol. Mae'r targedu hwn ar lefel fân yn un o gryfderau'r dull gwaelod i fyny; gall ddylunio ymyriadau ar gyfer lleiafrifoedd neu is-grwpiau y gallai cynllun cenedlaethol eang eu methu. Yng Nghymru, roedd mentrau cymunedol a ariannwyd gan yr UE yn aml yn gweithio gyda'r poblogaethau mwyaf agored i niwed (e.e. helpu cyn-droseddwyr i ddod o hyd i waith, neu ddarparu hyfforddiant i bobl ag anableddau) fel rhan o'r agenda **"cynhwysiant gweithredol"**. Gall yr ymdrechion hyn waredu elfennau o anghydraddoldeb ar raddfa fach. Fodd bynnag, heb gydlynu, gall eu heffaith barhau i fod yn ynysig.

Y **cyfaddawd** rhwng dyfnder ac ehangder: mae dull o’r gwaelod i fyny yn rhoi dyfnder cyrhaeddiad mewn ardal neu grŵp bach, tra bo dull o'r brig i lawr yn rhoi ehangder ar draws cynfas helaethach. Efallai mai’r senario delfrydol fyddai eu cyfuno, gan ddyrannu o'r brig i lawr i sicrhau bod pob ardal ddifreintiedig yn cael rhywbeth, a defnyddio dulliau o'r gwaelod i fyny i sicrhau bod prosiectau wedi'u teilwra i'r anghenion yno.

Mae yna hefyd y risg o gamddyrannu o ddefnyddio'r model canolog, gwerth uwch: os yw cynllunwyr canolog yn dewis y "bargeinion mawr" anghywir (buddsoddi mewn diwydiant nad yw’n ffynnu, dyweder), mae'r gost cyfle yn uchel am fod cymaint o'r cyllid wedi'i glymu mewn ychydig o brosiectau. Yng Nghymru, er bod llawer o brosiectau strategol wedi creu allbynnau trawiadol, mae beirniaid wedi nodi, er bod biliynau o gronfeydd strwythurol wedi’u buddsoddi, bod gwahaniaethau economaidd sylfaenol (yn enwedig rhwng Cymru a rhannau cyfoethocach o'r DU) yn parhau – sy'n awgrymu bod hyd yn oed prosiectau strategol yn cael trafferth "cau'r bwlch" yn sylfaenol.

Crynodeb

Mae manteision a gwendidau amlwg i'r model lleol gyda phrosiectau niferus ac i'r model strategol o'r brig i lawr. Mae'r dull wedi'i yrru'n lleol ar ei orau wrth ystyried cyfranogiad, perthnasedd lleol, a chynhwysiant, ond gall ddioddef o aneffeithlonrwydd ac effaith gyfyngedig ar lefel facro. Mae'r dull strategol yn rhagori wrth ystyried effeithlonrwydd, graddfa, ac effaith a allai fod yn drawsnewidiol, ond mae perygl o anwybyddu anghenion a gwahaniaethau cynnil ar lawr gwlad. Mae profiad hanesyddol o gronfeydd strwythurol yng Nghymru yn darparu enghreifftiau o'r pwyntiau hyn. Gwnaeth rhaglenni cynnar a oedd yn canolbwyntio ar lefel leol rymuso cymunedau a sicrhau amrywiaeth eang o fuddugoliaethau bach, ond yn ddiweddarach, gwnaeth rhaglenni canolog gyflawni canlyniadau helaethach, mwy mesuradwy ar draul ymreolaeth leol. Nid yw'r naill ddull na'r llall ar ei ben ei hun wedi datrys heriau datblygu rhanbarthol Cymru yn llwyr, gan awgrymu bod yn rhaid i strategaethau newydd gyfuno dealltwriaeth o'r ddau.

## 6.2 Cymharu cyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru â chyflawniad mewn rhanbarthau eraill

Mae'r is-adran ganlynol yn tynnu ar synthesis o ganfyddiadau gwerthuso prosesau o werthusiadau astudiaethau achos ar lefel lle y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o 34 ardal. Mae'n bwysig nodi, ar adeg ysgrifennu, bod y gwaith maes yn mynd rhagddo ac mai erbyn diwedd Rhagfyr 2025 y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gwblhau. O'r herwydd, gallai'r canfyddiadau a gyflwynir isod gael eu newid ar ôl i holl waith maes yr astudiaethau achos gael ei gwblhau. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hadolygu a'u cynnwys yn yr adroddiad synthesis terfynol ar gyfer y 34 o astudiaethau achos ar lefel lle y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fodd bynnag, mae'n bosibl tynnu sylw at rywfaint o'r gwersi sydd i'w dysgu o'r astudiaethau achos ledled y DU mewn perthynas â sut mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i gweinyddu'n lleol. Lle mae canfyddiadau'n ymwneud â lleoedd penodol, mae'r rhain wedi'u hamlygu, fodd bynnag, mae yna ganfyddiadau sy'n gyson ar draws y 34 lle. Bydd canfyddiadau manwl ar gyfer y 34 astudiaeth achos yn cael eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ôl i'r gwerthusiad ledled y DU gael ei gwblhau (dechrau 2026).

### 6.2.1 Llwyddiannau

**Hyblygrwydd ac Ymreolaeth Leol:** Yr agwedd ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a ganmolwyd amlaf oedd y ffaith bod penderfyniadau'n wedi'u datganoli, gan ganiatáu i awdurdodau lleol ddylunio ymyriadau a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion lleol penodol, ar sail tystiolaeth. Nodwyd yr ymreolaeth hon fel nodwedd i'w chroesawu sy'n cyferbynnu ag anhyblygrwydd canfyddedig rhai o gronfeydd blaenorol yr UE.

**Gwerth Hwb Rheoli Lleol Pwrpasol:** Ar draws pob model cyflawni, roedd presenoldeb tîm rheoli lleol medrus, sefydlog a chefnogol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (e.e. Rheolwr Rhaglen neu dîm y Gronfa Ffyniant Gyffredin) yn hwylusydd hanfodol. Cawsant eu canmol gan bartneriaid cyflawni am ddarparu eglurder, hwyluso partneriaethau (gweler Southend, Tamworth), a llywio heriau.

**Trosoli Partneriaethau a Seilwaith Presennol:** Roedd achosion o gyflawni'n llwyddiannus bron bob amser wedi'i adeiladu ar sylfeini a oedd yn bodoli eisoes ac a oedd wedi ennill eu plwyf. Roedd hyn yn cynnwys partneriaethau cryf gyda sector y Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol, byrddau llywodraethu sefydledig (e.e. Partneriaeth Economaidd Leol Gogledd Swydd Ayr, Bwrdd Partneriaeth Tamworth), a phartneriaid cyflawni profiadol.

**Parhad yn y Ddarpariaeth:** Strategaeth gyffredin ac effeithiol oedd defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i barhau â gwasanaethau llwyddiannus a gwerthfawr a ariannwyd yn flaenorol gan y Gronfa Adfywio Cymunedol neu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan atal bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer busnesau a grwpiau agored i niwed (gweler Chesterfield, Gogledd Swydd Ayr, De-ddwyrain Cymru).

### 6.2.2 Heriau

**Amserlenni Cyfyngol Llywodraeth Ganolog:** Dyma'r rhwystr mwyaf arwyddocaol a'r un y cyfeiriwyd ato amlaf. Mae pob un o'r 34 astudiaeth achos yn tynnu sylw at y ffaith bod yr amserlenni ar gyfer cynllunio a chyflawni wedi arwain at ymgynghoriadau cyfyngedig, oedi wrth gaffael, ac anawsterau wrth recriwtio a chadw staff o ganlyniad i natur tymor byr y contractau cyflogaeth.

**Systemau Canllawiau ac Adrodd Canolog:** Cyfeiriodd Awdurdodau Lleol at heriau gan gynnwys derbyn diffiniadau clir o allbynnau a chanlyniadau yn hwyr (gweler Caeredin, Cernyw ac Ynysoedd Scilly, Redbridge), porth adrodd a oedd yn anodd ei ddefnyddio (gweler Ucheldir yr Alban, Maidstone), a ffi weinyddol (4%) yr ystyriwyd yn gyffredin ei bod yn annigonol i dalu costau gwirioneddol rheoli'r rhaglen (gweler Southend, Maidstone, Watford).

**Y Bwlch Mesur:** Mae allbynnau meintiol canfyddedig yr Awdurdodau Lleol y mae'n ofynnol eu hadrodd i lywodraeth ganolog yn rhy anhyblyg ac yn methu â dal gwerth yr ymyriadau, sy'n aml yn werth ansoddol. Dywedodd rhanddeiliaid yn gyson fod dangosyddion perfformiad allweddol wedi methu â dal effeithiau hirdymor, canlyniadau ataliol a chanlyniadau cadarnhaol fel mwy o hyder neu gydlyniant cymunedol (gweler Adur & Worthing, Tamworth).

**Anhyblygrwydd Cyllid Strwythurol:** Dywedwyd yn aml bod nad yw'r rhaniad rhwng cyllid cyfalaf a refeniw yn cydweddu â'r galw lleol. Mewn llawer o ardaloedd, fel Southend a Chesterfield, roedd galw mawr am brosiectau sy'n seiliedig ar refeniw (e.e. ar gyfer staffio a gwasanaethau cymorth) ond roeddent yn cael trafferth dyrannu eu gwariant cyfalaf angenrheidiol.

### 6.2.3 Gwersi ar draws Awdurdodau Lleol yn ôl Grŵp

Mae canfyddiadau'r astudiaethau achos yn amlygu gwersi gwahanol i awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu math. Isod mae rhai arsylwadau ar broses mewn perthynas â phob un o'r grwpiau hyn. Efallai y bydd gwersi o bob un y gellir eu hystyried yng nghyd-destun Gogledd Cymru.

**Awdurdodau Cyfunol (WMCA, SYMCA):** Gwnaeth yr ardaloedd hyn yn elwa o strwythur a allai hwyluso trosolwg rhanbarthol strategol. Fodd bynnag, creodd hyn hefyd rywfaint o densiwn rhwng y strategaeth ranbarthol a osodwyd gan yr awdurdod cyfunol a blaenoriaethau penodol yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er enghraifft, efallai na fyddai penderfyniad gan yr Awdurdod Cyfun i ddyrannu cyfran fawr o'r cyllid i gymorth busnes wedi cael blaenoriaeth yn lleol (WMCA).

**Ardaloedd Gwledig (gweler Ucheldir yr Alban, Canolbarth Cymru, South Hams, Uttlesford):** Roedd yr ardaloedd hyn yn wynebu set gyffredin o heriau, gan gynnwys costau uwch ar gyfer darparu gwasanaethau oherwydd daearyddiaeth, anawsterau wrth ymgysylltu â phoblogaethau gwasgaredig, a rhwystr allweddol trafnidiaeth gyhoeddus wael, a oedd yn rhwystro cyfranogiad mewn prosiectau (e.e. prosiect Blue Prescribing yn Blaby).

**Partneriaethau Is-ranbarthol (gweler Richmond o fewn Partneriaeth De Llundain):** Gallai'r strwythurau hyn greu effeithlonrwydd ond hefyd arwain at fethu â chydweddu blaenoriaethau. Yr enghraifft amlycaf oedd Richmond, lle roedd targedau amrywiaeth a osodwyd yn is-ranbarthol yn afrealistig ac yn amhriodol ar gyfer demograffeg benodol y fwrdeistref.

**Cynghorau Dosbarth/Bwrdeistref Cyfagos:** Roedd enghreifftiau o gydweithredu agos, megis cynnal rhaglenni bron yr un fath er mwyn creu effeithlonrwydd. Fodd bynnag, rhwystrwyd hyn gan gyfyngiadau gweinyddol fel methu â chyfuno arian neu adnoddau rheoli yn ffurfiol, gan dynnu sylw at ddiffyg hyblygrwydd ar gyfer gweithio ar draws awdurdodau.

# 7. Casgliadau ac Argymhellion

## 7.1 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Mae'r gwerthusiad yn dangos bod rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru wedi cyflawni ystod eang o weithgareddau ac allbynnau mewn cyd-destun heriol. Yn gyffredinol, cyflawnodd y rhaglen lefel uchel o berfformiad ariannol, gyda 98% o'r dyraniad wedi'i wario, er bod amrywiadau rhwng blaenoriaethau buddsoddi. Ymyriadau Cymunedau a Lle oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant ac allbynnau tra bod Lluosi yn tanberfformio o gymharu â'i ddyraniad oherwydd galw cyfyngedig a heriau wrth gyflawni.

Roedd y perfformiad yn erbyn targedau dangosyddion perfformiad allweddol yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac roedd y rhan fwyaf o'r dangosyddion wedi'u cyflawni neu rhagorwyd arnynt. Fodd bynnag, mae maint y gorgyflawni yn achos rhai dangosyddion yn awgrymu efallai nad yw'r targedau bob amser wedi'u gosod ar lefel briodol, ac mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn fel tystiolaeth o effaith. Ni chyflawnwyd rhai dangosyddion canlyniadau pwysig, megis creu swyddi a chymwysterau Lluosi, yn llawn.

Mae'r dull galwad agored wedi galluogi'r arfer o deilwra'n lleol ac ymgysylltiad cryf â phartneriaid cyflawni sefydledig, ac roedd hynny wedi'i gefnogi wrth gyflwyno Cronfeydd Allweddol a oedd yn ehangu mynediad i sefydliadau llai. Fodd bynnag, creodd y dull hwn hefyd bwysau gweinyddol a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer ymyriadau mwy strategol ar draws y rhanbarth. Canfuwyd bod y model llywodraethu hybrid sy'n cyfuno cydlynu rhanbarthol â chyflawni lleol yn effeithiol ar y cyfan, ond roedd cyfyngiadau capasiti ac amserlenni byr yn creu tagfeydd ar gamau cymeradwyo, contractio, a cheisiadau newid.

O gymharu â modelau cyllido blaenorol yr UE, roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth leol ond nid oedd ganddi'r sicrwydd hirdymor a'r cydlyniant strategol a oedd o gymorth i brosiectau trawsnewidiol o dan raglenni cynharach. Roedd y ffaith bod y ffenestr gyflawni wedi'i chwtogi yn her dro ar ôl tro, gan effeithio ar recriwtio, caffael, a'r gallu i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd.

## 7.2 Effeithiau tymor hwy a ragwelir

Mae'n rhy gynnar i wneud datganiadau pendant am effeithiau hirdymor, ond mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu sawl maes lle gall buddion barhau i ddod i'r amlwg:

- **Asedau cymunedol a balchder mewn lle:** Mae buddsoddiadau mewn mannau cyhoeddus, cyfleusterau diwylliannol, ac amwynderau lleol wedi cyflawni gwelliannau gweladwy mewn llawer o gymunedau. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o gyfrannu at well canfyddiadau o le a mwy o ymgysylltiad cymunedol, er y bydd gwytnwch yr effeithiau hyn yn dibynnu ar gynnal a chadw parhaus a gweithgarwch cyflenwol.

- **Capasiti’r trydydd sector:** Mae'r rhaglen wedi galluogi rhai sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ehangu eu cyrhaeddiad a chryfhau eu capasiti gweithredol. Gall hyn wella eu gwytnwch a'u gallu i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, er y bydd angen cyllid a chymorth parhaus ar gyfer hyn.
- **Cyflogadwyedd a sgiliau:** Roedd llawer o ymyriadau Pobl a Sgiliau yn targedu unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae'r prosiectau hyn wedi darparu hyfforddiant a gweithgareddau meithrin hyder a allai helpu pobl i symud ymlaen at waith cyflogedig neu ddysgu pellach. Fodd bynnag, gallai’r cyfnod cyflawni byr a dibyniaeth ar gontractau tymor byr gyfyngu ar gynaliadwyedd y canlyniadau hyn heb ddarpariaeth ddilynol.
- **Datblygu busnes a datgarboneiddio:** Mae gan gefnogaeth i fusnesau lleol, gan gynnwys cyngor ar arloesi a datgarboneiddio, y potensial i gyfrannu at gystadleurwydd tymor hwy a nodau amgylcheddol. Mae maint yr effaith hon yn debygol o fod yn gymedrol o ystyried y gyfran gymharol fach o'r cyllid a ddyrannwyd i'r flaenoriaeth hon a'r amserlen fer ar gyfer cyflawni.

Yn gyffredinol, er bod y rhaglen wedi gosod rhai sylfeini cadarnhaol, bydd y graddau y mae'r rhain yn trosi i newid parhaol yn dibynnu ar fuddsoddiad a pharhad polisi yn y dyfodol.

## 7.3 Gwersi allweddol a ddysgwyd

Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at nifer o wersi a ddylai lywio dyluniad rhaglenni yn y dyfodol:

- **Cydbwyso hyblygrwydd â ffocws strategol:** Roedd ymreolaeth leol yn cael ei werthfawrogi'n eang ac yn galluogi ymyriadau i adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, roedd absenoldeb mecanweithiau rhanbarthol cryf yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer prosiectau trawsffiniol a chydweddu strategol. Gall rhaglenni yn y dyfodol elwa o ddull cymysg sy'n cyfuno hyblygrwydd lleol â chydlynu rhanbarthol.
- **Pwysigrwydd amserlenni realistig:** Y ffaith bod y ffenestr gyflawni wedi’i chwtogi oedd yr her fwyaf arwyddocaol a nodwyd ar draws pob ffynhonnell dystiolaeth. Effeithiodd ar recriwtio, caffael, a'r gallu i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd. Mae sicrwydd aml-flwyddyn yn hanfodol er mwyn cyflawni canlyniadau ystyrlon a chadw staff medrus.
- **Eglurder a chymesuredd wrth fonitro:** Er bod y dull ysgafnach o fonitro yn cael ei groesawu, roedd y diffyg canllawiau clir yn creu ansicrwydd ac anghysondeb. Ar yr un pryd, roedd y nifer fawr o ddangosyddion perfformiad allweddol yn rhoi baich ar sefydliadau llai ac yn diddymu eu defnyddioldeb wrth asesu perfformiad. Dylai rhaglenni yn y dyfodol geisio cael diffiniadau cliriach a set symlach o ddangosyddion sy'n cyd-fynd â’r ddamcaniaeth newid.

- **Targedu ymyriadau arbenigol:** Mae profiad Lluosi yn dangos risgiau cymhwyso fformiwlâu cyllido unffurf heb ystyried y galw lleol neu gapasiti cyflawni. Mae'n dangos gwendid rhaglenni sy’n cael eu pennu’n genedlaethol pan nad oes ganddynt fewnbwn lleol priodol. Dylai rhaglenni yn y dyfodol ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau i ymyriadau arbenigol.
- **Capasiti a gallu:** Roedd awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni yn wynebu cyfyngiadau capasiti, yn enwedig o ran rheoli’r rhaglen a chydymffurfiaeth. Mae adnoddau digonol ar gyfer y swyddogaethau hyn yn hanfodol i sicrhau cyflawniad effeithiol.

## 7.4 Argymhellion

10) **Mabwysiadu model cyflawni cymysg:** Cyfuno galwadau agored am brosiectau dan arweiniad y gymuned gyda chomisiynu strategol ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol fel cyflogadwyedd, cymorth busnes, a datgarboneiddio. Byddai hyn yn caniatáu’r gallu i ymateb yn lleol a thargedu buddsoddiad mewn meysydd sydd â'r angen mwyaf.

11) **Cryfhau cydlynu rhanbarthol:** Cyflwyno mecanweithiau ffurfiol ar gyfer cydgynllunio a chyfuno adnoddau er mwyn osgoi dyblygu a galluogi prosiectau trawsffiniol lle mae'r rhain yn ychwanegu gwerth. Gallai hyn gynnwys panel buddsoddi rhanbarthol neu ffrwd gyffredin o brosiectau strategol, wedi'u cynnwys yng nghamau cychwynnol dyluniad y rhaglen.

12) **Darparu sicrwydd cyllido tymor hwy:** Rydym yn cydnabod bod hyn y tu hwnt i reolaeth y rhaglen yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig argymell y dylid symud i ffwrdd o ddyraniadau tymor byr i setliadau aml-flwyddyn sy'n cyd-fynd â strategaethau rhanbarthol. Byddai hyn yn galluogi cynllunio gwell, lleihau risgiau cyflawni, a gwella cyfraddau cadw staff.

13) **Symleiddio monitro a gwerthuso:** Lleihau nifer y dangosyddion perfformiad allweddol a chanolbwyntio ar set lai o ddangosyddion ystyrlon sy'n cysylltu â’r ddamcaniaeth newid. Darparu canllawiau clir ar y dechrau a sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.

14) **Cynnal a gwella Cronfeydd Allweddol:** Parhau i ddarparu mecanweithiau i sefydliadau llai gael mynediad at gyllid ond symleiddio prosesau ymgeisio ac adrodd a chynnig cymorth technegol i adeiladu capasiti yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

15) **Cydweddu â strwythurau llywodraethu datganoledig:** Sicrhau bod rhaglenni'r DU a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn ategu ei gilydd ac yn osgoi darnio. Mae hyn yn cynnwys cydweddu blaenoriaethau â Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol.

16) **Buddsoddi mewn capasiti a sgiliau:** Dyrannu cyllid gweinyddol digonol i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni. Ystyried darparu adnoddau ar y cyd neu dimau cymorth rhanbarthol i leihau dyblygu a mynd i'r afael â bylchau mewn capasiti.

17) **Cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd:** Annog prosiectau i ddatblygu strategaethau ymadael ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid parhad neu integreiddio â gwasanaethau prif ffrwd i wneud y mwyaf o waddol buddsoddiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

18) **Mwy o safoni adroddiadau gwerthuso:** Mae'r gofyniad i bob prosiect gael ei werthuso wedi cynhyrchu cyfoeth o ddata i lywio'r adroddiad hwn. Er y bu hyn yn werthfawr iawn, mae amrywiadau o ran cadernid a chynnwys wedi cyfyngu i ba raddau y gellid cyfuno'r canfyddiadau. Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, byddai mwy o safoni gofynion gwerthuso yn helpu i sicrhau bod modd cymharu ac yn ei gwneud yn haws cyfuno canlyniadau.

# Atodiad A: Rhestr o Brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru

Tabl A1: Rhestr o brosiectau a gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol unigol:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Lle am Byth | Adnewyddu cyfleuster storio presennol yn Llyfrgell Llangefni i greu lle croesawgar y gellir ei ddefnyddio gan y gymuned a sefydliadau yn ogystal â chan wasanaeth y llyfrgell a'i bartneriaid mewnol ac allanol. Treialu rhaglen gynhwysfawr ac amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi'u dylunio i gyflwyno amrywiaeth o bynciau i drigolion Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Prosiect Pontio Cymunedau Môn | Nod y prosiect hwn, mewn partneriaeth â Medrwn Môn, yw datblygu ynys ddyfeisgar a gwydn, lle gall cymunedau ymgysylltu a chael eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio a darparu atebion sy'n canolbwyntio ar y gymuned, yn seiliedig ar angen gwirioneddol. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Pobl Ifanc Ynys Môn – 'yn llwyddo gyda'i gilydd' | Nod y prosiect hwn yw cefnogi pobl ifanc Ynys Môn i gyflawni eu potensial llawn, drwy wella sgiliau, lles a lleihau'r risg iddynt fod yn NEET yn y dyfodol. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Balchder Bro Môn | Nod y prosiect yw cyflwyno gweithgareddau, digwyddiadau a gwelliannau ac ymyriadau ar draws Ynys Môn, gan ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cymunedau eu hunain, a'u gwireddu, yn ogystal â blaenoriaethau strategol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol a sefydliadau gweithredol eraill. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Prosiect Teledu Cylch Cyfyng – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Gosod teledu cylch cyfyng mewn 2 ardal yn Ynys Môn, sef Llangefni a Chaergybi. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys gwaith ar golofnau goleuadau dethol. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Coed Môn | Gwella ein seilwaith gwyrdd trwy reoli a phlannu coed. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cysylltu Pobl, Natur a Lleoedd | Bydd y prosiect hwn yn gwella sgiliau, gwytnwch cymunedol a lles i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad gyflogaeth (gan gynnwys rhai dros 50 oed, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth, ac sydd ag anghenion iechyd a lles), drwy sefydlu a datblygu safleoedd awyr agored hygyrch, cynyddu gweithgareddau dysgu a sgiliau, gwella coetiroedd a gwybodaeth am yr amgylchedd lleol ym Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Creu Ynys Actif | Rhaglen o 3 phrosiect i greu Ynys Môn egnïol. | Cyngor Sir Ynys Môn |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Gwella asedau a sgiliau treftadaeth a chefn gwlad i hybu'r economi ymwelwyr | Gwella asedau a sgiliau Treftadaeth a chefn gwlad i gefnogi'r economi ymwelwyr. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhaglen Cyrchfan Werdd | Bydd y prosiect yn darparu manteision amgylcheddol ac i'r economi ymwelwyr yn unol â nodau ac amcanion Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Academi Ddigidol Werdd | Bydd y prosiect yn darparu cymorth gwerthuso a mentora arbenigol i fusnesau bach a chanolig i wella eu galluoedd digidol a Sero Net yn unol â'u strategaeth fusnes graidd, gan gynorthwyo busnesau i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant a lleihau carbon a chostau. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gwella asedau treftadaeth yn Oriel Môn ac Archifau'r Sir | Bydd y prosiect yn gwella dau ased treftadaeth allweddol – Oriel Môn ac Archifau Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Tanio Arloesedd | Bydd Tanio Arloesedd yn darparu cyfleoedd i fusnesau, cymunedau a phobl ledled Ynys Môn ffynnu. Creu cyfleoedd cyflogaeth newydd ar lefel uchel, hybu twf busnesau, creu busnesau newydd arloesol, ac uwchsgilio pobl leol yn y sectorau digidol ac ynni. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gwella Gwydnwch Ariannol Trigolion Ynys Môn a'r Economi Llesiant | Nod y prosiect hwn, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) Ynys Môn, yw gwella gwytnwch ariannol aelwydydd Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lle Da – Rhaglen Llunio Lle | Rhaglen llunio lle ar gyfer canol trefi a phentrefi mwy yn Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adfer Melin Llynon | Adfer Melin Llynon, adeilad rhestredig gradd 2 yn Llanddeusant, Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lluosi Môn | Fel rhan o'r prosiect, bydd Cymunedau Ymlaen Môn yn cynnal cyrsiau cymunedol ar draws Ynys Môn gyda sgiliau rhifedd cudd wedi'u hymgorffori i wella rhifedd oedolion ar draws Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Môn Ymlaen 2 | Mae'r prosiect hwn yn wasanaeth cymorth cyflogaeth dwys sy'n ceisio lleihau cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch (a chyflogadwyedd) ar draws Ynys Môn, a fydd yn ei dro yn helpu busnesau lleol i lenwi swyddi gwag ac uwchsgilio staff. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cefnogi Busnesau Môn 2 | Bydd y prosiect yn darparu cymorth un i un gan fentor penodol, cymorth cynllunio busnes a pharatoi llif arian, cymorth ynghylch gwneud cais am Gyfeirnod Treth Unigryw (UTR) a grantiau ariannol bach ar gyfer busnesau newydd a phresennol. | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gwelliannau i Ganol Trefi | Gwelliannau i ganol trefi a'r parth cyhoeddus yn Ynys Môn. | Cyngor Sir Ynys Môn |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Mannau Agored Gwell drwy Deledu Cylch Cyfyng | Gwella'r gwasanaeth teledu cylch cyfyng presennol trwy ddarparu a gweithredu camerâu symudol ychwanegol. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Planhigfa a Siop Bron y Nant | Pwrpas y prosiect yw darparu cyfleoedd gwaith a datblygu sgiliau i bobl ag anabledd drwy fodel cyflogaeth â chymorth. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gofal Plant Ar Waith | Mae'r prosiect yn cynnig rhaglen gyflogaeth 16 wythnos o hyfforddiant a lleoliadau gwaith â thâl i alluogi'r cyfranogwyr i ddechrau gyrfaoedd mewn gofal plant ac addysg gynnar fel Cynorthwywyr Meithrin dan Hyfforddiant. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol | Nod y gronfa yw cynorthwyo sefydliadau sy'n canolbwyntio ar y gymuned i gynnal prosiectau ledled Conwy a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion lleol ac a fydd yn cyfrannu at fagu balchder cymunedol a 'gwneud gwahaniaeth gweladwy' drwy Flaenoriaeth Fuddsoddi Cymunedau a Lle y Gronfa Ffyniant Gyffredin. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, Conwy | Bydd y prosiect yn defnyddio methodoleg Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned i rymuso unigolion, grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol i gymryd rhan yn y gwaith o greu syniadau arloesol i fynd i'r afael â phroblemau lleol, datblygu ceisiadau o ansawdd uchel a sicrhau bod y gallu i gyflawni prosiectau ar lefel uchel. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Prosiect Lles Cymunedol Conwy | Mae'r Rhaglen Lles Cymunedol yn helpu pobl i gynnal a gwella eu lles. Mae'r rhaglen yn helpu pobl i leihau unigrwydd a chryfhau cysylltiadau yn eu cymuned leol trwy weithgareddau y maen nhw am gymryd rhan ynddynt a chyfleoedd i wirfoddoli'n lleol. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Academi Ddigidol Werdd Conwy | Bydd y prosiect yn darparu cymorth gwerthuso a mentora arbenigol i fusnesau bach a chanolig i wella eu galluoedd digidol a Sero Net yn unol â'u strategaeth fusnes graidd, gan gynorthwyo busnesau i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant a lleihau carbon a chostau. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| CREU'R SBARDUN | PROSIECT TRAWSNEWID DIWYLLIANNOL AR GYFER SIR CONWY. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Prosiect Gwella Pyllau Padlo Conwy | Gwelliannau i 4 pwll padlo yn Llanfairfechan, Penmaenmawr, Llandudno (Craig y Don) a Llandrillo-yn-Rhos. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Cronfa Allweddol Cynyddu Gallu Sector Gwirfoddol Conwy | Mae hwn yn Brosiect Cynyddu Gallu i helpu grwpiau 3ydd sector lleol i adfer a datblygu i'r dyfodol. Mae'r prosiect yn cynnwys Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol a Rhaglen Hyfforddi Cynyddu Gallu. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Ymgysylltu â Chwaraeon a Gweithgareddau Iau Ffit Conwy | Bydd y prosiect yn cynorthwyo pobl ifanc 11-15 oed i wneud mwy o ymarfer corff, a datblygu gwytnwch iechyd corfforol a meddyliol. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar weithgareddau i annog mwy o ferched i gymryd rhan. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gwella a diogelu'r economi ymwelwyr ar gyfer y dyfodol | Amrywiaeth o weithgareddau i wella'r economi ymwelwyr yng Nghonwy. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod | Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn brosiect unigryw sy'n defnyddio gweithredwyr proffesiynol a phartneriaid i archwilio materion allweddol am y system cyfiawnder troseddol a phobl ifanc. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Datblygu Rhaglen Dysgu Nofio | Bydd y prosiect yn darparu buddsoddiad i foderneiddio'r ddarpariaeth nofio yn Sir Conwy. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gwelliannau i Bromenâd Llandudno | Bydd y prosiect hwn yn cynnwys gosod llochesi newydd ar hyd Promenâd Traeth y Gogledd yn Llandudno, yn ogystal ag adnewyddu'r colofnresi ger y Fach. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyrsiau Lluosi ac Adnoddau ar gyfer Gweithwyr | Amherthnasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cymorth Lluosi i Unigolion yng Nghonwy | Amherthnasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Llwybrau i Gyflogaeth | Bydd y prosiect yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi sy'n cynnwys cymwysterau achrededig penodol i'r sector, sgiliau cyflogadwyedd a lleoliadau gwaith mewn sectorau twf a blaenoriaeth yng Nghonwy. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau | Mae'r gronfa'n cynorthwyo sefydliadau i gynnal prosiectau ledled Sir Conwy a fydd yn cyfrannu at ymyriadau Pobl a Sgiliau a Lluosi (rhifedd oedolion) fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol - Conwy | Mae'r gronfa yn cynorthwyo ein busnesau masnachol neu gymdeithasol lleol i adnewyddu a datblygu i'r dyfodol a bydd yn galluogi grantiau i gael eu darparu i hybu twf economaidd a chynaliadwyedd. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Datblygu Talent a Chefnogaeth | Bydd y prosiect yn helpu pobl yng Nghonwy i gymryd rhan a datblygu mewn chwaraeon. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| TRAC | Mae prosiect lles TRAC yn darparu cymorth i bobl ifanc 11-16 oed sy'n cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) pan fyddant yn gadael yr ysgol. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Trawsnewid Meddyliau Ifanc – I2EM | Pwrpas y prosiect hwn yw cyflawni ystod o brosiectau o dan flaenoriaeth Pobl a Sgiliau y Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc a fydd yn cynnwys cynnal gweithgareddau mewn ysgolion i roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd yn ymwneud â gwaith a rhoi cipolwg ar lwybrau gyrfa yn y sector STEM yn rhanbarth Gogledd Cymru. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Fedra i Weithio (Gweithio'n Iach) | Cymorth i bobl ag anghenion iechyd meddwl ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Darpariaeth ardaloedd chwarae hygyrch | Bydd y prosiect hwn yn darparu ardaloedd chwarae mewn lleoliadau strategol ledled y sir sy'n hygyrch i bawb trwy osod offer arbenigol a gwneud gwelliannau i droedffyrdd a chelfi stryd yn y parth cyhoeddus a'r ardal o amgylch. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cael Mynediad at ein Treftadaeth | Galluogi mwy o hygyrchedd, defnydd ac ymwybyddiaeth o ddau ased allweddol yr Amgueddfa Dreftadaeth yn Rhuthun, Sir Ddinbych; Tŷ hanesyddol rhestredig Gradd 1 Nantclwyd y Dre a Charchar Rhuthun rhestredig Gradd 2 – yr unig garchar arddull Pentonville sydd ar agor fel Atyniad Treftadaeth yn y DU. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Adnoddau rheoli cyrchfan ychwanegol | Gwaith glanhau amgylcheddol ychwanegol, cynnal a chadw tir ac adnoddau AHNE. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Barod | Gweithio gyda phobl nad ydynt yn barod i fynd i mewn i'r farchnad lafur i oresgyn eu rhwystrau. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Parc Gwledig Bodelwyddan | Bydd y prosiect hwn yn datblygu Parc Gwledig ar Goetir/Parcdir ger Castell Bodelwyddan. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gardd Fotaneg a Phyllau Prom y Rhyl | Adfywio ardaloedd hamdden yng Ngerddi Botaneg a Phromenâd y Rhyl. | Cyngor Sir Ddinbych |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Canolfan Ddiwylliant, Treftadaeth a Lles y Farchnad Fenyn | Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu hwb twristiaeth a chymunedol i hybu adfywiad Dinbych. Bydd y prosiect yn rhoi bywyd newydd i adeilad o bwysigrwydd sylweddol i dreftadaeth Dinbych. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cymunedau a Natur – Croeso Cynaliadwy i Ymwelwyr | Bydd y prosiect hwn yn darparu Parcmyn mewn nifer o safleoedd ymwelwyr allweddol ledled Sir Ddinbych mewn ymateb i'r cynnydd dramatig yn nifer yr ymwelwyr â'r ardaloedd hyn. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynllun Grantiau Cymunedol a Rhaglen Celfyddydau Creadigol | Cynllun Grantiau Cymunedol a Rhaglen Celfyddydau Creadigol yn Sir Ddinbych, a gaiff ei gyflawni gan Denbighshire Leisure Ltd. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Teledu cylch cyfyng Canol Tref Dinbych | Uwchraddio hen gamerâu teledu cylch cyfyng ar draws tref Dinbych. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cronfa Allweddol Meithrin Gallu Cymunedol Sir Ddinbych | Cronfa allweddol ar gyfer meithrin gallu cymunedol Sir Ddinbych. Nod y prosiect hwn yw trawsnewid pŵer a gallu pobl yn y Trydydd Sector ac o fewn cymunedau ledled Sir Ddinbych i greu a darparu gwasanaethau hanfodol mewn byd sy'n newid ac yn heriol. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Academi Ddigidol Werdd Sir Ddinbych | Bydd y prosiect hwn yn darparu cymorth gwerthuso a mentora arbenigol i fusnesau bach a chanolig i wella eu galluoedd Digidol a Sero Net yn unol â'u strategaeth fusnes graidd, gan gynorthwyo busnesau i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant a lleihau carbon a chostau. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Prosiect Creu Coetir Sir Ddinbych | Nod y prosiect hwn yw gwella oddeutu 55.5 hectar o dir sy'n eiddo i'r cyngor ar gyfer atafaelu carbon, bioamrywiaeth a'r gymuned. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Strategaeth Rheoli Cyrchfan a Thwristiaid; Adnoddau Ychwanegol at yr Haf | Bydd y prosiect hwn yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer glanhau amgylcheddol a chynnal a chadw tir i ymdopi â niferoedd ychwanegol o ymwelwyr ac ymweliadau yn y sir yn ystod haf 2023/24. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cronfa Astudiaeth Ddichonoldeb | 12 astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer prosiectau posibl yn y dyfodol i sbarduno datblygiad economaidd ac adfywio ar draws y sir gyfan. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwarchodfa Natur Green Gates | Nod y prosiect hwn yw sefydlu gwarchodfa natur 13.3ha yn Green Gates, ger Parc Busnes Llanelwy. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Lefelau cynyddol o gynhwysiant digidol a sgiliau digidol sylfaenol ar draws Sir Ddinbych | Bydd y prosiect hwn yn cynnig cymorth cynhwysiant digidol uniongyrchol i unigolion. Bydd y cymorth ar ffurf cyngor a hyfforddiant ym maes cynhwysiant digidol ac yn darparu dyfeisiau addas i unigolion yn dibynnu ar eu hanghenion. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen – Aros ar y Trywydd Iawn | Nod Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen yw datblygu 'pecyn i gryfhau'r sefydliad' sy'n eu galluogi i barhau â'u proses ailstrwythuro ar ôl sawl blwyddyn o newid sefydliadol. | Cyngor Sir Ddinbych |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Llwybrau | Bydd prosiect Llwybrau yn darparu cymorth i oddeutu 420 o bobl ifanc bob blwyddyn academaidd yn Sir Ddinbych i leihau eu risg o ymddieithrio, darparu cymorth i ail-ymgysylltu mewn addysg, neu i symud i fyd gwaith neu hyfforddiant ar ddiwedd blwyddyn 11. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llwybrau (2022-23) | Mae Llwybrau’n cynnig cymorth i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio i ddychwelyd i fyd addysg. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Natur er Budd Iechyd | Mae sesiynau wythnosol yn cynnwys cadwraeth a sgiliau gwledig, iechyd a theithiau cerdded natur. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Rhaglen Natur er Budd Iechyd | Mae'r Rhaglen Natur er Budd Iechyd yn rhoi cyfleoedd i helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon trwy well mynediad i'r amgylchedd naturiol ar lefel leol. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Partneriaeth Sgiliau Treftadaeth Gogledd-ddwyrain Cymru | Bydd y prosiect treftadaeth a sgiliau hwn yn hybu ac yn diogelu crefftau, adeiladu a pheirianneg treftadaeth drwy greu cyfleoedd hyfforddi a rhannu gwybodaeth ar draws safleoedd yn Sir Ddinbych. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Parciau i Bobl | Presenoldeb parcmon ym mhob safle i gynnig cyngor ac arweiniad cadarnhaol i ymwelwyr. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwella'r Parth Cyhoeddus a Mannau Agored | Nod y prosiect hwn yw gwella ardaloedd hamdden ledled y sir gan ganolbwyntio ar: Bastion Road, Prestatyn a Pharc Glan-yr-afon, Llangollen. Gwelliannau amgylcheddol megis uwchraddio rheiliau dur a bolardiau yn y Gerddi Botaneg yn y Rhyl, a fydd hefyd yn gwneud yr ardal yn fwy hygyrch. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwelliannau i Deledu Cylch Cyfyng mewn Mannau Cyhoeddus | Uwchraddio hen gamerâu teledu cylch cyfyng presennol mewn mannau cyhoeddus ar draws y prif drefi yng ngogledd Sir Ddinbych, gan gynnwys meysydd parcio a gorsafoedd bysiau. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Prynu camerâu ANPR | Prynu chwe chamera ANPR arbenigol symudol. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cronfa Marchnad y Frenhines | Bydd y prosiect hwn yn cynorthwyo i sefydlu marchnad fanwerthu newydd yn Adeilad y Frenhines yn y Rhyl. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Allgymorth Cymunedol y Cerddwyr (Gogledd Cymru) | Ymgysylltu â chymunedau a grymuso pobl leol i fod yn fwy egnïol yn eu lleoedd lleol ac yn falch ohonynt. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw | Cymorth ariannol drwy gynlluniau grant i'n canolfannau cymunedol Croeso Cynnes a mentrau banc bwyd cymunedol. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Adfywio Promenâd y Rhyl | Nod y prosiect hwn yw gwella ardal bromenâd boblogaidd y Rhyl i ategu gwaith adfywio parhaus y Rhyl yn ogystal â'r gwaith amddiffyn arfordirol gwerth miliynau o bunnoedd. | Cyngor Sir Ddinbych |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Adnewyddu Canolfan Ieuenctid y Rhyl | Adnewyddu'r Ganolfan Ieuenctid yn y Rhyl. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Canolbwynt Cymunedol Neuadd y Dref Rhuthun | Nod y prosiect hwn yw creu Canolbwynt Cymunedol i bobl o bob oed a gallu yn Rhuthun, drwy wella cyfleusterau Neuadd y Farchnad, Neuadd y Dref a'r Hen Orsaf Dân. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Twrnameintiau Chwaraeon Ysgolion | Bydd twrnameintiau chwaraeon mewn ysgolion yn cael eu cynnal rhwng Ionawr a Mawrth 2023. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Swyddog Meysydd Chwarae a Thîm Cynnal a Chadw/Arolygu | Bydd y prosiect hwn, i ddechrau, yn mynd i'r afael â'r materion dybryd sy'n ymwneud â datblygu darpariaeth chwaraeon cyffredinol gyda'r nod o ddarparu cyfleusterau hyd at safon dderbyniol a diogel. Bydd y prosiect hefyd yn recriwtio Swyddog Meysydd Chwarae a Thîm Cynnal a Chadw i oruchwylio'r defnydd o feysydd chwarae cyhoeddus ledled y sir, y gwaith cynnal a chadw a'r archebion. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol Sir Ddinbych | Cronfa allweddol Sir Ddinbych ar gyfer Cefnogi Busnesau Lleol drwy roi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, yn enwedig mewn ardaloedd lle maen nhw'n brin. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynllun Gwella Eiddo Canol y Dref | Prosiect i dargedu eiddo gwag, heb eu defnyddio'n ddigonol neu flêr yng nghanol trefi Sir Ddinbych. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cymru Gynnes – Cefnogi Cymunedau | Bydd y cynllun peilot hwn yn gweithio gyda chymunedau yn Sir Ddinbych, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd blynyddoedd 5,8,9 a 10, y rhai sy'n byw ym mhob math o ddeiliadaeth. Bydd yn ystyried pobl, eiddo, lle, a phartneriaethau i sicrhau gweithredu cymdeithasol i wella lles, hyder a sgiliau pobl. Annog gwirfoddoli mwy effeithiol gyda'r gymuned ehangach i addysgu, gwneud pawb yn fwy ymwybodol o effeithlonrwydd ynni, technoleg werdd ac effaith tlodi tanwydd a chostau byw a darparu cyngor a chymorth am ddim i drigolion i leihau biliau ynni a gwella effeithlonrwydd ynni. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Rhaglen Strategol Sir Ddinbych yn Gweithio | Nod Sir Ddinbych yw mynd i'r afael â thlodi drwy helpu trigolion Sir Ddinbych i gael i mewn i addysg, byd gwaith a hyfforddiant. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynllun Dechrau Gweithio | Cynnig lleoliadau gwaith o ansawdd uchel i drigolion Sir Ddinbych sy'n 16 oed a hŷn. | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyflymu Datgarboneiddio a Chynhyrchiant drwy Dechnoleg a Sgiliau (ADAPTS) | Bydd y prosiect yn rhoi mynediad digyffelyb i weithgynhyrchwyr Sir y Fflint at beirianwyr ac arddangoswyr technoleg gweithgynhyrchu uwch, trosglwyddo gwybodaeth, hyfforddiant ac uwchsgilio mewn strategaethau digidol a datgarboneiddio. | Cyngor Sir y Fflint |
| 'Original Factory Shop', Bwcle | Gweithgareddau cyfnod cyn caffael mewn perthynas ag eiddo a elwir yn 'Original Factory Shop'. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cysylltu i'r Arfordir a Chefn Gwlad | Dau brosiect i gysylltu pobl ag arfordir a chefn gwlad Sir y Fflint | Cyngor Sir y Fflint |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Cronfa Allweddol Cymunedol Sir y Fflint | Bydd y prosiect yn cynorthwyo lleoliadau / cyfleusterau / mannau / grwpiau dan arweiniad y gymuned a/neu sy'n eiddo i'r gymuned i ddatblygu, cryfhau a gwella seilwaith cymunedol a phrosiectau cymunedol gyda phwyslais penodol ar gymunedau lleol a gwasanaethau llawr gwlad yn Sir y Fflint. | Cyngor Sir y Fflint |
| Academi Ddigidol Werdd Sir y Fflint | Bydd y prosiect yn darparu cymorth gwerthuso a mentora arbenigol i fusnesau bach a chanolig i wella eu galluoedd digidol a Sero Net yn unol â'u strategaeth fusnes graidd, gan gynorthwyo busnesau i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant a lleihau carbon a chostau. | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfodol Cynaliadwy Di-garbon Sir y Fflint (FAST) | Nod y prosiect yw ymgorffori Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy, sydd eisoes wedi'i sefydlu, yn gyfreithiol i ddatgloi ei botensial llawn er mwyn hybu twf gwyrdd. | Cyngor Sir y Fflint |
| Rhaglen Welliannau Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas | Bydd y prosiect yn cyflwyno rhaglen o naw prosiect refeniw cysylltiedig sydd wedi'u nodi fel camau allweddol a galluogwyr i gyflawni'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Dyffryn Maes Glas. | Cyngor Sir y Fflint |
| LEAP (Dysgu, Archwilio, Cyflawni, Perfformio) | Bydd y prosiect yn darparu nifer eang o wasanaethau ac ymyriadau addysg a fydd yn cael eu teilwra i anghenion unigol. Bydd y gwasanaethau a gynigir yn gwella'r ddarpariaeth addysg bresennol. | Cyngor Sir y Fflint |
| ‘Minding the Gaps’ ar gyfer Pobl Ifanc yn Sir y Fflint | Bydd y prosiect yn darparu llwybr o raglenni i gefnogi bwlch yn y ddarpariaeth ymgysylltu i ddiwallu anghenion pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ar ôl Covid. Mae'n ceisio mynd i'r afael â materion fel allgáu cymdeithasol, unigrwydd, prinder sgiliau a diffyg hyder. | Cyngor Sir y Fflint |
| Prosiect 11 | Mae'r prosiect yn gweithio ar draws asiantaethau gan ddefnyddio amryw ddulliau i leihau ecsbloetio, trais a throseddau cyfundrefnol sy'n ymwneud â phobl ifanc er mwyn creu cymdogaethau diogel. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cryfder mewn Rhifau | Bydd y prosiect yn cynnig cyfleoedd hyblyg am ddim i oedolion 19 oed neu hŷn i wella eu sgiliau rhifedd ac ennill cymhwyster. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau a Sector Twristiaeth | Nod y prosiect yw rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw mentrau micro, bach a chanolig sy'n gweithredu yn yr economi dwristiaeth a phrofiad. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cronfa Sir y Fflint | Mae'r prosiect yn darparu a rheoli tair cronfa grantiau sy’n rhoi cymorth cam cyntaf, wedi'i ddylunio i helpu busnesau i gymryd eu camau cyntaf ar eu teithiau di-garbon ac arloesi. | Cyngor Sir y Fflint |
| Rhaglen Fuddsoddi Canol Trefi – Sir y Fflint | Mae'r prosiect yn cynnwys nifer o brosiectau a fydd yn cael eu gweithredu ar draws saith canol tref a chymunedau cyfagos. Bydd y prosiect o fudd i'r awdurdod lleol, perchnogion eiddo canol trefi, busnesau, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a'r amgylchedd. | Cyngor Sir y Fflint |
| Croeso Cynnes | Creu mannau Croeso Cynnes ledled Sir y Fflint i'r holl drigolion eu mynychu. | Cyngor Sir y Fflint |
| WeMindTheGap | Rhaglen sydd wedi'i dylunio i gefnogi pobl ifanc. | Cyngor Sir y Fflint |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Academi Adra | Bydd y prosiect yn cyflwyno rhaglen o gyrsiau pythefnos, gan gyfuno hyfforddiant achrededig a phrofiad gwaith mewn sector gwaith a ddewisir gan y cyfranogwyr. | Cyngor Gwynedd |
| Prynu becws ar gyfer Llanaelhaearn | Prynu safle becws yn Llanaelhaearn sy'n cynnwys dau adeilad gwag, gyda'r nod o sicrhau parhad i fusnes lleol. | Cyngor Gwynedd |
| Bang Bangor – Olion | Bydd prosiect celfyddydol a diwylliannol cymunedol ar raddfa fawr yn cael ei gynnal ym Mangor dros gyfnod estynedig o 20 mis. | Cyngor Gwynedd |
| Beicio i Bawb | Bydd y prosiect yn cyflwyno amrywiaeth o sesiynau a gweithgareddau beicio yng Ngwynedd i wella sgiliau, magu hyder ac annog pobl o bob oed a gallu i feicio. | Cyngor Gwynedd |
| Prosiect Cefnogi Busnes yn gynnwys Cronfa Datblygu Busnes | Pwrpas y prosiect yw rhoi'r cymorth, y wybodaeth a'r gefnogaeth ariannol sydd eu hangen ar fusnesau Gwynedd i ddechrau, datblygu a ffynnu. | Cyngor Gwynedd |
| Adfywio Canol Tref Caernarfon | Bwriad i brynu, adnewyddu a gosod eiddo masnachol gwag yng nghanol tref Caernarfon. | Cyngor Gwynedd |
| Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau | Cronfa grant gystadleuol a fydd yn fodd o gefnogi sefydliadau lleol, gan gynnwys mentrau a grwpiau adfywio, i allu arwain a datblygu prosiectau sy'n ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. | Cyngor Gwynedd |
| Ymateb Costau Byw | Bydd y cynllun yn cynnig cyfres o gyfleoedd hyfforddi (â thâl) a fydd yn gwella sgiliau pobl mewn gwasanaethau canolfan alwadau, cymorth i gwsmeriaid, sgiliau derbyn a sgiliau gweinyddol. | Cyngor Gwynedd |
| Prosiect Diwyllesiant | Prosiect i hybu lles trigolion, cymunedau, yr amgylchedd a busnesau yng Ngwynedd. | Cyngor Gwynedd |
| Parc Menter Dyffryn Nantlle | Gwneud gwelliannau hanfodol i weithdai presennol, gwella eu heffeithlonrwydd ynni, a sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio gan fusnesau lleol i greu a chynnal swyddi am flynyddoedd i ddod. | Cyngor Gwynedd |
| Grymuso Gwynedd | Bydd y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â Cymunedoli Cyf (Rhwydwaith Menter Gymdeithasol Gwynedd) ar gynlluniau amrywiol sy'n creu gwydnwch cymunedol, ac yn creu atebion cymunedol i heriau sy'n wynebu Gwynedd, gan roi pwyslais ar ardaloedd daearyddol heb ddarpariaeth bresennol. | Cyngor Gwynedd |
| Canolfan Digwyddiadau Glyn Rhonwy | Cwblhau rhan 1 o gynllun mwy i ddatblygu Canolfan Digwyddiadau ar safle Glyn Rhonwy, Llanberis. Mae'n cynnwys adeiladu warws a gofod amlbwrpas y gellid ei ddefnyddio fel swyddfa / ystafell gyfarfod ac a fydd ar gael i'w logi gan y gymuned. | Cyngor Gwynedd |
| Rhaglen Gwydnwch Cymunedol Gwynedd | Prosiect i ddarparu cymorth i bobl ac adeiladu gwydnwch cymunedol. | Cyngor Gwynedd |
| Trafnidiaeth Gymunedol Gwynedd | Cynllun i ddarparu trafnidiaeth gymunedol mewn partneriaeth â mentrau cymdeithasol – sef Siop Griffiths, Partneriaeth Ogwen, Y Dref Werdd, ac O Ddrws i Ddrws. | Cyngor Gwynedd |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Academi Ddigidol Werdd Gwynedd | Cynllun sy'n darparu cymorth gwerthuso a mentora arbenigol i fusnesau i wella eu galluoedd digidol a Sero Net. Bydd yn cynorthwyo busnesau bach a chanolig i fod yn fwy effeithlon, yn fwy cynhyrchiol, i leihau eu hôl troed carbon, ac arbed costau. | Cyngor Gwynedd |
| Dwylo Diwyd – tyfu Caru Eryri | Cynllun i ddarparu, datblygu a thyfu rhaglen o waith cadwraeth ymarferol a hyfforddiant gyda gwirfoddolwyr yn Eryri a'r ardal gyfagos. | Cyngor Gwynedd |
| Ecoamgueddfa Llŷn | Bydd y cynllun yn datblygu cynllun Ecoamgueddfa Llŷn sydd wedi bodoli ers 2015, drwy gydweithio i hyrwyddo safleoedd ac adnoddau penodol yn Llŷn. Bydd yn datblygu gweithgareddau sy'n ymwneud ag archaeoleg, bioamrywiaeth a diwylliant yr ardal. | Cyngor Gwynedd |
| Menter Tŷ'n Llan | Cyflawni dwy elfen o brosiect ehangach i ddatblygu menter gymunedol Tŷ'n Llan, Llandwrog. Datblygu'r gegin a 5 ystafell i ymwelwyr. | Cyngor Gwynedd |
| Ardal natur a choetir cymunedol, Parc y Coleg | Bydd y cynllun yn trawsnewid ardal ym Mharc y Coleg, Bangor, sydd ar hyn o bryd yn anghroesawgar, i greu lle tawel i fwynhau a phrofi natur. | Cyngor Gwynedd |
| Hyfforddiant Sero Net (Tŷ Gwyrddfai) | Nod y prosiect, a fydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Adra, yw creu canolfan hyfforddi bwrpasol ar gyfer datgarboneiddio ac ôl-osod tai, yn Nhŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes. | Cyngor Gwynedd |
| NumberWise Living - Ymgyrch Rhifedd ar gyfer Tai Cymdeithasol | Datblygu sgiliau rhifedd ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yng Ngwynedd. | Cyngor Gwynedd |
| Swyddfa Bost a Garej Penrhos | Bydd y cynllun yn helpu dod ag adeilad Garej Penrhos a'r Swyddfa Bost yn Aberdyfi i berchnogaeth gymunedol. | Cyngor Gwynedd |
| Ailddehongli a moderneiddio Amgueddfa Lloyd George | Bydd y prosiect yn mynd ati i ailddehongli a moderneiddio Amgueddfa Lloyd George, ei pherthynas â'r gymuned leol a'i rôl wrth ddehongli'r gorffennol yn rhyngwladol. | Cyngor Gwynedd |
| Sero Net Gwynedd (Cam 2) | Bydd y prosiect yn cyflogi tîm o Wardeniaid Ynni i annog trigolion ledled Gwynedd i leihau eu defnydd o ynni a chynyddu lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu er mwyn lleihau gwastraff. | Cyngor Gwynedd |
| Potensial Sgiliau a Gwaith Pobl Gwynedd | Nod y prosiect yw cynorthwyo pobl ifanc ac oedolion ledled Gwynedd i gyflawni eu potensial personol drwy gynnig cymorth i unigolion naill ai i baratoi ar gyfer gwaith; symud i waith cyflogedig a / neu gynnig cyfleoedd i unigolion hyfforddi a datblygu sgiliau tra eu bod mewn gwaith. | Cyngor Gwynedd |
| Pysgod Cregyn Cynaliadwy a Dyframaeth Gogledd Cymru - Môr Ni Gwynedd | Bydd y prosiect yn ymgysylltu â'r sector pysgota ledled y Sir i asesu'r angen, gyda'r bwriad o greu sector mwy gwydn ac amrywiol. | Cyngor Gwynedd |
| Tîm o Amgylch y Person Ifanc 2 | Bydd TAPI 2 yn brosiect sy'n darparu cymorth dwys sy'n canolbwyntio ar y person, wedi'i deilwra o amgylch pobl ifanc agored i niwed yng Ngwynedd sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. | Cyngor Gwynedd |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Canol Trefi – gosod y sylfaen ar gyfer buddsoddiad, balchder a bwrlwm | Mae rhaglen adfywio Canol Trefi yn cynnwys sawl cynllun sydd â'r nod o osod sylfaen ar gyfer buddsoddiad a balchder i'r dyfodol. | Cyngor Gwynedd |
| Tŷ Gwyrddfai (Cam 3) – Labordy Byw | Prosiect ar y cyd â Phrifysgol Bangor a fydd yn cynnwys adeiladu dwy siambr wedi'u rheoli'n atmosfferig, er mwyn cynnal profion rheoledig ar ddeunyddiau adeiladu mewn amodau amgylcheddol amrywiol ac eithafol. Bydd y cyfleuster unigryw hwn yn chwarae rhan allweddol wrth gyflymu'r cynnydd tuag at ddylunio tai carbon isel a sero net. | Cyngor Gwynedd |
| Cronfa Cefnogi'r Sector Gwirfoddol | Mae'r Gronfa yn cynnig cyfleoedd ariannu rhwng £2k a £250k i grwpiau gwirfoddol neu gymunedol sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd. | Cyngor Gwynedd |
| Gwell darpariaeth cymorth busnes | Rhaglen o weithgareddau cymorth busnes a chynllun grant. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gardd Furiog Fictoraidd Erlas | Darparu gweithgarwch yn ystod y dydd, addysg a phrofiad gwaith mewn garddwriaeth. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyfleusterau Cynhwysol Clwb Criced Parc Gwersyllt | Creu pafiliwn clwb criced newydd. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Hwb yr Orsedd – Canolbwynt Cymunedol yr Orsedd | Datblygu hwb cymunedol yng nghanol yr Orsedd. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gadewch i ni newid bywydau 1000 o bobl ifanc yn Wrecsam | Rhaglen sydd wedi'i dylunio i gefnogi pobl ifanc yn Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cymunedau Carbon Isel – Swyddogion Datgarboneiddio | Dau swyddog datgarboneiddio i weithio gyda 6 o gymunedau carbon isel yn sir Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Mapiau a Mwy | Prosiect mentora a gwirfoddoli yn Wrecsam ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Llwybr at Gyflogaeth – Wrecsam (P2E) | Ystod o ymyriadau llwybrau at cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Prosiect Sero Net Canolfan Hamdden Plas Madoc | Lleihau allyriadau carbon yng Nghanolfan Hamdden Plas Madoc, Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte | Prosiect y celfyddydau a chreu lle dan arweiniad y gymuned | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cronfa Allweddol Grant Cyfalaf a Dichonoldeb Safleoedd ac Adeiladau | Grantiau refeniw a chyfalaf ar gyfer endidau yn Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| CHIRP De Wrecsam (Prosiect Cynhwysiant a Gwytnwch Treftadaeth Gymunedol) | Cryfhau'r gwead cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o falchder lleol a pherthyn yn ne Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Calendr Digwyddiadau Cymunedol Graddfa Fawr Cynaliadwy ar gyfer Sir Wrecsam | Cyfres o ddigwyddiadau arloesol yn sir Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Amgueddfa Bêl-droed Cymru – Amgueddfa Dau Hanner | Amgueddfa bêl-droed genedlaethol newydd i Gymru ac i Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dinas Wrecsam – Grymuso Esblygiad Gwyrdd | Prosiect cyd-greu, sy'n defnyddio chwarae a gwyddoniaeth i greu ymgysylltiadau a fydd yn ysbrydoli ledled sir Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cronfa Allweddol Cymuned a Lle Wrecsam | Cronfa allweddol cymuned a lle yn Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam | Cronfa allweddol gymunedol a chymorth cofleidiol i grwpiau cymunedol. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Cronfa Allweddol Lluosi Wrecsam | Cronfa allweddol ar gyfer prosiectau rhifedd yn sir Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Wrecsam | Cronfa allweddol Pobl a Sgiliau ar gyfer Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynllun Creu Lleoedd Wrecsam | Cynllun creu lleoedd ar gyfer canol dinas newydd Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Prosiect Trawsnewid Canolfan Tennis Ranbarthol Wrecsam | Trawsnewid y ganolfan tennis ranbarthol yn Wrecsam. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Tabl A2: Rhestr o brosiectau a gyflawnwyd gan sawl Awdurdod Lleol:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Camau Cefnogol | Bydd y cynllun yn darparu pecyn pwrpasol o gymorth mentora i bobl ifanc 16-25 oed sy'n symud ymlaen i Addysg Bellach, yn ogystal â chynnig gwasanaeth Iechyd Meddwl a Lles cynhwysfawr i gefnogi'r rhai sy'n symud ymlaen o'r coleg i fyd gwaith. | Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd |
| Caru Cymru | Bydd y prosiect yn darparu ystod o weithgareddau llwyddiannus Cadwch Gymru'n Daclus i greu a chefnogi nifer o rolau gwirfoddoli a chyfleoedd cymunedol. | Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Wrecsam |
| Lleoedd Newid – Newid Bywydau | Bydd ein prosiect yn gosod Toiledau Lleoedd Newid yn Sir Ddinbych i sicrhau bod pobl ag amhariadau cymhleth a lluosog yn gallu cael mynediad at gyfleusterau sy'n darparu'r lle a'r offer sydd eu hangen arnynt i fwynhau gweithgareddau o ddydd i ddydd y mae llawer yn eu cymryd yn ganiataol. | Conwy, Sir Ddinbych |
| Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru | Cynllun a fydd yn cynorthwyo cyflogwyr i nodi a diwallu anghenion hyfforddi a bylchau sgiliau yn eu gweithlu. Bydd hyn yn caniatáu i'w gweithwyr ddatblygu sgiliau ychwanegol a fydd yn eu tro yn creu twf ac yn cyflawni amcanion strategol y busnes. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig ar ffurf sesiynau grŵp ac unigol yn y gweithle. | Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam |
| Garddwriaeth Cymru (Gogledd Ddwyrain) | Prosiect i gynyddu cynhyrchiant, proffidioldeb, cydweithredu a gwytnwch yn y sector garddwriaeth yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint. | Sir Ddinbych, Sir y Fflint |
| Mentergarwch - Ynys Môn a Gwynedd | Bydd y prosiect yn cynnal a datblygu gwasanaeth cymorth busnes Hwb Menter, gan gynnig gwybodaeth, cyngor, cyfleoedd rhwydweithio, a lle i entrepreneuriaid ddatblygu eu syniadau cychwynnol yn fusnes llwyddiannus | Ynys Môn, Gwynedd |
| Lluosi | Bydd y prosiect yn cyflawni Rhaglen 'Rhifedd am Oes' ar gyfer trigolion cyflogedig a di-waith yn Sir y Fflint a Wrecsam sydd wedi'i dylunio i ddarparu cyrsiau hyblyg, dysgu digidol, a thiwtora personol i helpu pobl i drawsnewid eu bywydau drwy wella eu sgiliau rhifedd bob dydd. | Wrecsam, Sir y Fflint |
| Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru | Gweithgareddau sy'n galluogi, cefnogi ac arwain busnesau a sefydliadau ar draws pob sector ar dwf busnes, tra'n anelu at Sero Net a hybu'r economi gylchol. | Conwy, Gwynedd |
| Rhwydwaith Arloesi a Sgiliau Gogledd-ddwyrain Cymru | Cynllun talebau Trosglwyddo Gwybodaeth i fusnesau yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. | Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam |
| Gogledd Cymru Actif, Iach a Hapus | Bydd y prosiect yn cydweithio â'r gymuned mewn 2-3 lleoliad sydd â'r angen mwyaf am gymorth yn Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd, i ddatblygu sgiliau a hyder i ddod o hyd i atebion cynaliadwy er lles y gymuned yn y tymor hir. | Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Cyfleoedd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru | Nod y prosiect yw gwneud y mwyaf o'r manteision a'r cyfleoedd i drigolion, busnesau a chymunedau ledled Gogledd Cymru drwy fuddsoddiadau sy'n cydweddu â'r Weledigaeth Twf gan gynnwys Bargen Twf y Gogledd. | Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd |
| Rhifedd Byw | Prosiect i hyrwyddo rhifedd oedolion mewn ystod eang o gymunedau a lleoliadau gwaith yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn gan wella sgiliau mewn cyd-destun ymarferol sy'n berthnasol iddynt. | Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd |
| Cynllun Talebau Sgiliau ac Arloesedd | Bydd y prosiect yn cynorthwyo busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaid graddedig i gael mynediad at arbenigedd, cyfleusterau, sgiliau a thalent Prifysgol Bangor sy'n berthnasol i'w hanghenion ymchwil a datblygu, arloesi a sgiliau. | Ynys Môn, Sir y Fflint, Gwynedd |
| Cymorth arbenigol i Fentrau Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru | Darparu cymorth i fusnesau cymdeithasol a a busnesau ym mherchnogaeth gweithwyr yng Ngwynedd ac Ynys Môn. | Ynys Môn, Gwynedd |
| Cynllun Talent Twristiaeth | Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd cyffrous i sefydliadau addysgol ym maes lletygarwch a thwristiaeth, a fydd yn cynnwys profiad gwaith a sgiliau sylfaenol. | Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd |
| Synnwyr Gweithio | Bydd y prosiect yn gwella cyflogadwyedd pobl dros 25 oed sydd â cholled synhwyraidd neu anabledd, drwy ddarparu cymorth arbenigol i alluogi'r grŵp targed i gael gwaith cyflogedig neu symud yn agosach at gyflogaeth. | Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint |

# Atodiad B: Y Fframwaith Gwerthuso

Mae'r bennod hon yn darparu prif allbwn cam cyntaf y gwerthusiad trwy ddarparu'r 'cynllun' ar gyfer Camau 2 a 3. Rydym yn dechrau trwy drafod amcanion y gwerthusiad ac ystyriaethau allweddol megis yr angen i gydweddu â gweithgareddau gwerthuso eraill, cyn nodi'r cwestiynau gwerthuso allweddol a disgrifio'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r cwestiynau hynny.

## Nodau’r Gwerthusiad a’r Cwestiynau Gwerthuso

Nod y gwerthusiad yw asesu pa mor effeithiol y mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i chyflawni yng Ngogledd Cymru, pa effeithiau tymor byr y mae wedi'u cyflawni, a pha ganlyniadau tymor hwy a ddisgwylir. Mae hefyd yn ceisio nodi’r gwersi a ddysgwyd, adolygu rheolaeth y rhaglen, a darparu argymhellion ar sail tystiolaeth i lywio polisi datblygu rhanbarthol yn y dyfodol.

Cyflwynwyd y nodau a'r gofynion penodol canlynol yn y briff ar gyfer y gwerthusiad:

1. Crynhoi effeithiau tymor byr yr ymyriadau a chyflwyno barn ar yr effeithiau tymor hwy a ragwelir ar Ogledd Cymru yn ei gyfanrwydd ac mewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol.
2. Gwerthuso llwyddiant ac effeithiolrwydd rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y rhanbarth wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd lleol a chymunedol.
3. Asesu llwyddiant y dull a fabwysiadwyd i ddiwallu anghenion cymunedau, ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn ogystal ag ategu nodau Llywodraeth Cymru a'r DU.
4. Cyflwyno adolygiad cychwynnol o'r gwersi a ddysgwyd a'r effaith a ragwelir yn sgil y gyfran ariannu rhwng 2022/23 a 2024/25 i'w gynnal erbyn Haf 2025 (h.y. Cam 2, a gyflwynir yn rhan nesaf yr adroddiad hwn).
5. Cyflwyno adroddiad wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys gwybodaeth o 2025/26 i'w gwblhau erbyn Gwanwyn 2026 (h.y. Cam 3).
6. Cyfuno data o'r gwerthusiadau a gynhaliwyd ar weithgareddau a ariannwyd rhwng 2022/23 a 2024/25 er mwyn:
    a) Cyfrifo effaith gronnol y gweithgareddau a gynorthwywyd,
    b) Nodi’r themâu cyffredin, y gwersi a ddysgwyd a’r negeseuon allweddol ar draws prosiectau a/neu o fewn meysydd gweithgarwch / ardaloedd daearyddol.
7. Adolygu rheolaeth a gweinyddiaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru.
8. Llunio Damcaniaeth Newid derfynol ar lefel rhaglen.
9. Cynnal dadansoddiad cymharol ag ardaloedd eraill yng Nghymru a thu hwnt.
10. Darparu canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y gwerthusiad, wedi'u manylu mewn adroddiadau dwyieithog a fydd yn helpu i lywio'r anghenion a'r blaenoriaethau datblygu rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn y dyfodol.

11. Dod i gasgliadau o gam cyntaf yr ymchwil a fydd yn helpu i lywio'r ddeialog gyda Llywodraeth Cymru a'r DU ar ddyfodol cyllid datblygu rhanbarthol y tu hwnt i 2025/26, o ran gweithgarwch, dull gweithredu a gweinyddu.
12. Lleihau achosion o ddyblygu ymdrechion a sicrhau ychwanegedd mewn perthynas â gweithgareddau gwerthuso eraill.

Fodd bynnag, roedd yn amlwg o drafodaethau dilynol gyda'r Tîm Rhanbarthol bod dwy ystyriaeth arbennig o bwysig a dybryd ar gyfer y gwerthusiad, yr ydym yn eu trafod isod.

## Mewnbwn i waith cynllunio Llywodraeth Cymru a'r DU

Un o brif amcanion y gwerthusiad yw llywio gwaith cynllunio a dylunio parhaus Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer ymyriadau datblygu rhanbarthol yn y dyfodol. Bu gwahaniaethau pwysig ym model cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin o'i gymharu â'r hyn â'i rhagflaenodd o dan fodel cyllido'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys gwahaniaethau yn y strwythurau gwneud penderfyniadau a rôl gwahanol lefelau llywodraeth, gwerth a ffocws y cyllid (e.e. wedi'i ragnodi a'i dargedu'n strategol yn erbyn dulliau eang ac agored) a mwy. Yn unol â hynny, un o brif ffocysau'r cam gwerthuso cyntaf hwn oedd asesu rhinweddau'r ddau ddull gweithredu.

## Cydweddu â gweithgareddau gwerthuso eraill.

Gyda gwaith gwerthuso yn cael ei gyflawni'n genedlaethol (wedi'i gomisiynu gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol), yn lleol trwy'r astudiaeth hon, ac ar lefel prosiect, mae risg y gallai rhai agweddau ar y gwerthuso gael eu dyblygu ddwy neu dair gwaith, heb gynllunio gofalus. Felly, mae'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio'n ofalus ar sicrhau bod y gwahanol astudiaethau sydd wedi'u comisiynu yn ategu ei gilydd.

Bu ymgynghoriadau helaeth eisoes â grwpiau rhanddeiliaid a buddiolwyr trwy'r gwerthusiadau cenedlaethol ac ar lefel prosiect. Yn achos y gwerthusiad cenedlaethol, mae'r broses hon yn mynd rhagddi gan ymgynghori â gyda llawer o arweinwyr prosiectau, buddiolwyr a rhanddeiliaid eraill ar yr un adeg â chynnal y gwerthusiad hwn. Er mwyn osgoi dyblygu, mae ail gam y gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynnal gweithgareddau ymchwil eilaidd, yn benodol meta-adolygiad o'r holl adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect. Yn yr un modd, mae'n bwysig nodi bod y gwerthusiad cenedlaethol yn ymwneud ag asesu'r effaith o'r gyfran ariannu 2022/23 i 2024/25 yn unig. Yn unol â hynny, bydd Cam 3 y gwerthusiad hwn yn cynnwys ymgynghoriadau sylfaenol ag arweinwyr prosiectau a rhanddeiliaid eraill sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfran ariannu 2025/26.

Rydym wedi sicrhau rheolaeth effeithiol ar draws y tair haen o werthuso trwy gydlynu â'r gwaith gwerthuso ar lefel genedlaethol, darparu mewnbwn iddo a thynnu tystiolaeth ohono ac, yn yr un modd, wedi tynnu ar dystiolaeth o werthusiadau ar lefel prosiect.

# Cam 2: Adroddiad Gwerthuso Cychwynnol sy'n cwmpasu cyflawniad rhwng 2022/23 a 2024/25

## Nodau ac amcanion allweddol

Roedd dau brif nod ar gyfer Cam 2. Yn gyntaf, cynnal adolygiad cychwynnol o'r gwersi a ddysgwyd a’r effaith a ragwelir o gyfran ariannu 2022/23 i 2024/25. Yn ail, helpu i lywio'r ddeialog gyda Llywodraeth Cymru a'r DU ar ddyfodol cyllid datblygu rhanbarthol y tu hwnt i 2025/26.

## Ein dull gweithredu

Oherwydd y rhesymau a ddisgrifir uchod, mae ein gwerthusiad cychwynnol wedi cynnwys gweithgareddau ymchwil ddesg yn bennaf, ond gyda rhywfaint o weithgarwch ymchwil sylfaenol atodol. Roedd pedair prif dasg i gyd, sy’n cael eu hamlinellu isod.

### Tasg 2.1: Adolygiad deg manwl

Mae'r gwerthusiad wedi cynnal adolygiad o ddata adrodd diweddaraf y rhaglen gan gynnwys cyflawni yn erbyn targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol a phroffil gwariant. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o berfformiad ar gyfer Gogledd Cymru yn ei chyfanrwydd ochr yn ochr ag asesiad o berfformiad ym mhob awdurdod lleol.

Roedd ail ran y dasg hon yn ymwneud ag adolygiad desg i gymharu’r gwahaniaethau rhwng y model cyflawni ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a modelau cyllid datblygu rhanbarthol blaenorol. Yn benodol, mae'r adolygiad wedi canolbwyntio ar nodweddion allweddol y modelau cyflawni ar gyfer dull cyllido Amcan 1, cyllid y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd dros gyfnod cyflawni 2007-20, a dull cyllido’r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan ystyried y prif fanteision ac anfanteision sy'n gysylltiedig â phob model. Mae'r adolygiad wedi cynnwys ystyried strwythurau gwneud penderfyniadau a rôl gwahanol lefelau llywodraeth (e.e. dulliau lleol yn erbyn dulliau canolog), gwerth a ffocws y cyllid (e.e. wedi’i ragnodi a’i dargedu'n strategol yn erbyn dulliau eang ac agored) a mwy.

### Tasg 2.2: Meta-adolygiad o werthusiadau ar lefel prosiect

Yr elfen o’r gwerthusiad cychwynnol a oedd yn galw am yr adnoddau mwyaf ein meta-adolygiad cynhwysfawr o'r holl werthusiadau ar lefel prosiect ar gyfer y cyfnod sy'n cwmpasu 2022/23 i 2024/25. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o 122 o adroddiadau gwerthuso sy'n cwmpasu 169 o brosiectau. Datblygwyd offeryn synthesis yn Microsoft Access i gynnal yr adolygiad hwn gan ddefnyddio’r meysydd data canlynol i gasglu’r dystiolaeth:

- Gweithgarwch gwerthuso (i ystyried cadernid y canfyddiadau);
- Dyluniad y prosiect (cyflawniad daearyddol, buddiolwyr, ac a oeddent yn brosiectau newydd);
- Dulliau cyflawni a boddhad (dulliau ymgysylltu a'u heffeithiolrwydd, gweithgareddau y buddsoddwyd ynddynt, profiad o amryw brosesau rheoli a chyflawni ac unrhyw faterion a wynebwyd);

- Perfformiad yn erbyn targedau dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau gwariant a rhesymau dros danberfformiad (lle bo'n berthnasol);
- Canlyniadau a gyflawnwyd ac unrhyw ganlyniadau negyddol neu anfwriadol;
- Gwersi allweddol y gwnaeth y gwerthusiad eu canfod gan gynnwys ffactorau llwyddiant a meysydd i'w gwella.

Cafodd y data a gasglwyd trwy'r broses hon ei gyfuno a'i ddefnyddio i lywio canfyddiadau gwerthuso Cam 2 sy'n cael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Roedd y dadansoddiad yn ystyried themâu allweddol ar draws y rhanbarth yn ogystal â chymhariaeth rhwng y chwe awdurdod.

Tasg 2.3: Tynnu ar dystiolaeth a gasglwyd trwy werthusiadau cenedlaethol

Roedd dwy ran i'r dasg hon. Yn gyntaf, rydym wedi tynnu ar ganfyddiadau o'r gwerthusiad a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o gyflawniad ac effaith yng Ngogledd Cymru er mwyn osgoi dyblygu. Cyhoeddwyd Adroddiad Interim ym mis Mawrth 2025 a oedd yn cynnwys trafodaeth fanwl ar reoli a gweinyddu'r rhaglen, a oedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â'r cwestiynau gwerthuso mewn perthynas â'r prosesau a'r cyflawniad sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn. Cafodd yr adroddiad hwn ei lywio gan 30 o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ymhlith staff awdurdodau lleol a darparwyr cyflawni allanol ynghyd ag arolwg o 59 o arweinwyr prosiectau. Cyfeirir yn aml at ganfyddiadau'r ddau ymgynghoriad trwy gydol yr adroddiad hwn.

Yn ail, rydym wedi cynnal dadansoddiad cymharol o ganfyddiadau o feysydd eraill sy'n cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru a thu hwnt, er mwyn dod o hyd i arferion da. Roedd hyn yn canolbwyntio ar ganfod gwersi ynghylch sut mae gwahanol feysydd wedi ymdrin â dylunio, datblygu a gweithredu'r rhaglenni gyda ffocws ar nodi arferion gorau.

Tasg 2.4: Ymgynghoriadau ag Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Ategwyd yr ymchwil eilaidd a ddisgrifir uchod gan nifer fach o ymgynghoriadau â'r cysylltiadau arweiniol o bob awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys elfennau cwmpasu (e.e. drwy drafod y blaenoriaethau gwerthuso ar gyfer pob ardal) yn ogystal â thrafod eu barn ar wersi allweddol mewn perthynas â chyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr unigolion hyn eu cyfweld hefyd ar gyfer cam interim y gwerthusiad cenedlaethol ym mis Ionawr a Chwefror 2025. Gyda hynny mewn golwg, roeddem yn ofalus i beidio â rhoi sylw i'r un cwestiynau. Bydd yr adborth a gafwyd trwy'r ymgynghoriadau hyn hefyd yn llywio cam olaf y gwerthusiad cenedlaethol a fydd yn cael ei gynnal tan fis Medi 2025.

## Cam 3: Adroddiad Gwerthuso Terfynol yn ymdrin â chyflawniad yn ystod 2025/26

Prif nod Cam 3 yw asesu perfformiad ac effaith cyflawniad cyfran ariannu 2025/26 a darparu adroddiad wedi'i ddiweddaru (gan gynnwys gwybodaeth o 2025/26) i'w gwblhau erbyn Gwanwyn 2026.

Mae llawer o'r tasgau ymchwil yn canolbwyntio ar ddiweddaru gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod Cam 2, er y bydd mwy o ffocws ar weithgarwch ymchwil sylfaenol i gasglu profiadau aelodau'r tîm cyflawni, rhanddeiliaid strategol, ac arweinwyr prosiectau sy'n ymwneud â gweithgarwch prosiectau 2025/26. Caiff disgrifiad byr o bob tasg ei ddarparu isod.

Tasg 3.1: Adolygiad deg manwl
Bydd hyn yn golygu diweddariad o Dasg 2.1 gynharach trwy adolygu'r data monitro allweddol ar gyfer prosiectau a gyflawnwyd o dan gyfran ariannu 2025/26.

Tasg 3.2: Meta-adolygiad o werthusiadau ar lefel prosiect
Bydd hyn yn golygu diweddariad o Dasg 2.2 gynharach trwy adolygu unrhyw adroddiadau gwerthuso sydd wedi'u cwblhau ar gyfer prosiectau a gyflawnwyd o dan gyfran ariannu 2025/26.

Tasg 3.3: Ymgynghori â rhanddeiliaid
Bydd yr ymgynghoriadau â phersonél cyflawni a rhanddeiliaid strategol yn canolbwyntio ar nodi'r effeithiau a gynhyrchwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n cwmpasu'r cyfnod cyfan o 2022/23 hyd at 2025/26. Byddwn hefyd yn ymgynghori ag arweinwyr y prosiectau a ariannwyd o dan gyfran ariannu 2025/26 ac yn cyfuno ag ymgynghoriadau ag arweinwyr y prosiectau a gynhaliwyd drwy'r gwerthusiad cenedlaethol er mwyn cael darlun cyflawn o'u barn mewn perthynas â pherfformiad ac effaith y rhaglen.

# Cwestiynau gwerthuso allweddol

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiynau sy'n sail i'r gwerthusiad o raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Yn erbyn pob cwestiwn, rydym yn dangos y tasgau gwerthuso a ddefnyddiwyd i lywio ein hasesiad.

Tabl A3: Cwestiynau gwerthuso

| Cwestiwn gwerthuso | Tasgau i fynd i'r afael â'r cwestiwn |
|---|---|
| a) **Gwerthuso'r Cyflawniad a'r Prosesau** | |
| 1. Pa mor effeithiol y mae'r rhaglen wedi'i rheoli a'i gweinyddu yng Ngogledd Cymru? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2 |
| 2. Beth yw'r themâu cyffredin, y gwersi a ddysgwyd a'r negeseuon allweddol mewn perthynas â chyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru ac ym mhob awdurdod lleol unigol? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 3. Sut mae cyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru yn cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru a thu hwnt? | 2.3 |

| Cwestiwn gwerthuso | Tasgau i fynd i'r afael â’r cwestiwn |
| --- | --- |
| 4. Pa agweddau ar gyflawniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru ddylai helpu i lywio'r anghenion a'r blaenoriaethau datblygu rhanbarthol ar gyfer yr ardal yn y dyfodol? | 2.1, 2.2, 2.4 |
| 5. Beth yw manteision ac anfanteision dull gweithredu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin o gymharu â modelau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol (yn benodol dulliau ariannu Amcan 1 a’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd)? | 2.1, 2.2, 2.4 |
| 6. Ym mha ffordd y mae model y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ffafriol i gyflawni'n effeithiol yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol allweddol? | 2.1, 2.2, 2.4 |
| b) **Perfformiad Ariannol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | |
| 7. Pa gynnydd a wnaeth y rhaglen tuag at gyflawni ei thargedau ariannol, allbynnau a chanlyniadau ledled Gogledd Cymru ac ym mhob awdurdod lleol? | 2.1, 3.1 |
| 8. Sut roedd y perfformiad hwn yn amrywio yn ôl blaenoriaeth fuddsoddi? | 2.1, 3.1 |
| 9. Pa ffactorau sy'n esbonio amrywiadau, gan gynnwys tan- neu or-berfformiad? | 2.2, 2.4, 3.2, 3.3 |
| c) **Gwerthusiad o Effaith** | |
| 10. Beth yw effeithiau tymor byr yr ymyriadau? | 2.1, 2.2, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3 |
| 11. Beth yw'r effeithiau tymor hwy ar Ogledd Cymru gyfan ac mewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol? | 2.2, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 12. Sut mae'r rhaglen wedi darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd lleol a chymunedol? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 13. I ba raddau y mae'r ymyriadau wedi diwallu anghenion cymunedau, ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn gyffredinol? | 2.2, 2.3, 2.4, 3.2, 3.3 |
| 14. Pa ganlyniadau neu effeithiau annisgwyl neu anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) sydd wedi digwydd? | 2.2, 2.4, 3.2, 3.3 |

# Atodiad C: Trosolwg hanesyddol o gyllid datblygu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru

Mae cyllid datblygu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, a ledled y wlad, wedi cael ei siapio gan sawl degawd o fuddsoddiad o raglenni cyllido Ewropeaidd. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi bodoli ers 1958, ond dechreuodd ymgysylltiad Cymru â chronfeydd yr UE o iawn ar ôl 1975, pan lansiwyd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Roedd prosiectau cynnar Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yng Nghymru yn canolbwyntio ar wrthdroi dirywiad economaidd. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid i ddatblygu ystadau diwydiannol newydd (i ddenu busnesau i ardaloedd lle'r oedd pyllau neu ffatrïoedd wedi cau) a darparu ail-hyfforddiant i weithwyr sy'n symud ymlaen o ddiwydiannau sy'n crebachu.

Ym 1988, ymgymerodd y Gymuned Ewropeaidd â diwygiad mawr o'r Cronfeydd Strwythurol a ddyluniwyd i gynyddu eu heffaith. Cafodd y cronfeydd eu hintegreiddio i ddull rhaglennu aml-flwyddyn mwy cydlynol gydag egwyddorion fel canolbwyntio ar ranbarthau tlotach, partneriaeth ag awdurdodau lleol, a chynllunio aml-flwyddyn. Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer cronfeydd strwythurol a chydlyniant yn sylweddol tua'r adeg hon, gan ddyblu erbyn y cyfnod 1994-1999. I Gymru, roedd hyn yn golygu mwy o gyfleoedd ariannu a rhaglenni mwy strwythuredig.

Yn ystod 1989–1993, dynodwyd rhannau o Gymru o dan Amcanion penodol polisi cydlyniant yr UE. Yn nodedig, dosbarthwyd Cymru Wledig o dan Amcan 5(b) (targedu datblygu gwledig) a derbyniodd y rhanbarth Fframwaith Cymorth Cymunedol pwrpasol ar gyfer cymorth strwythurol gwledig.  Roedd y rhaglen hon yn cyd-ariannu prosiectau arallgyfeirio gwledig ac ailstrwythuro amaethyddol mewn siroedd cymwys yng Nghymru. Ar yr un pryd, roedd rhannau o Dde Cymru ddiwydiannol (y Cymoedd a rhai ardaloedd trefol a wynebai ddirywiad diwydiannol) yn gymwys o dan Amcan 2 (a oedd yn cynorthwyo rhanbarthau a oedd yn trawsnewid yn ddiwydiannol). Trwy Amcan 2 ar ddechrau'r 1990au, roedd cronfeydd yr UE yn helpu i adfywio hen gymunedau glo a dur yn Ne Cymru (er enghraifft, drwy ailddatblygu tir diwydiannol adfeiliedig a hybu mentrau newydd).

## Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

### 2000-06

Mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi chwarae rhan ganolog yn natblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru ers 2000. Dros fwy na dau ddegawd, derbyniodd Cymru dros £5.3 biliwn o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol, a fuddsoddwyd mewn mentrau lleol, blaenoriaethau rhanbarthol, a phrosiectau strategol mawr ledled y wlad. Nod y cronfeydd hyn oedd cryfhau economi Cymru, lleihau gwahaniaethau rhwng rhanbarthau, a chefnogi cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd a oedd yn wynebu heriau economaidd.

Byth ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd bellach) ym 1999, mae llawer o swyddogaethau datblygu economaidd wedi'u datganoli i Gymru a gwnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i wasanaethu fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglenni'r UE yng Nghymru. Roedd WEFO yn rheoli'r gwaith o ddewis prosiectau, monitro cynnydd, a sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r UE yng Nghymru.

Derbyniodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (gan gynnwys Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru) statws Amcan 1 ar gyfer 2000–2006, wedi'i rannu rhwng rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ar gyfer seilwaith, menter, ac ati) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ar gyfer sgiliau, cyflogaeth). Nid oedd siroedd gogledd-ddwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam) yn gymwys ar gyfer Amcan 1 sy'n dod o dan raglenni llai Amcan 2 (ardaloedd diwydiannol) ac Amcan 3 (ar draws Cronfa Gymdeithasol Ewrop) yn rhanbarth Dwyrain Cymru.

Rheolwyd rhaglen Amcan 1 yng Nghymru drwy ddull amlhaenog. Roedd yn cynnwys partneriaethau lleol a oedd yn cynnwys y pedwar awdurdod lleol, cynrychiolwyr sector preifat a chymunedau a ddatblygodd gynlluniau gweithredu lleol ac a gynorthwyodd i ddatblygu prosiectau trwy helpu ymgeiswyr ar syniadau a cheisiadau. Rhan allweddol o'u rôl oedd sicrhau bod prosiectau a ariannwyd gan yr UE yn mynd i'r afael ag anghenion lleol. Sefydlwyd partneriaethau rhanbarthol hefyd, a oedd yn canolbwyntio ar sectorau economaidd penodol ac yn gweithredu ar lefel Cymru gyfan. Yn olaf, crëwyd partneriaethau strategaeth i fynd i'r afael â heriau wrth gysylltu cynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol.

Roedd hwn yn ddull o'r gwaelod i fyny, wedi'i yrru gan y partneriaethau lleol, ac fe'i hystyriwyd yn arloesol ac yn effeithiol yng Nghymru. Gwnaeth ymchwiliad Tŷ'r Cyffredin yn 2002 ganmol yr "ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth yng Nghymru" gan nodi bod y strwythur wedi ei "ganmol gan y Comisiwn [Ewropeaidd]".[39] Gwnaeth yr ymchwiliad hefyd ganfod bod y berthynas rhwng y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru (drwy WEFO), a'r partneriaethau yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nodwyd bod cryfderau a gwendidau i'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod. Roedd partneriaethau lleol yn caniatáu mynd i'r afael ag anghenion cymunedol lleol penodol a darparu cymorth pwysig i ymgeiswyr a'u prosiectau. Fodd bynnag, roedd y nifer fawr o bartneriaethau a chyfrifoldebau a oedd yn gorgyffwrdd yn creu beichiau gweinyddol ac aneffeithlonrwydd. Roedd sicrhau bod cynlluniau gweithredu lleol yn cydweddu ag amcanion rhanbarthol a strategol hefyd yn anodd, gan arwain at greu'r 'partneriaethau strategaeth' a nodwyd uchod i geisio mynd i'r afael â'r bylchau hynny.[40][41][42]

[39] Tŷ'r Cyffredin - Materion Cymreig - Ail Adroddiad
[40] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
[41] bus-guide-n00000000000000000000000000000349-english.pdf
[42] Evaluating Objective 1 in Wales: the experience of the Mid-term Evaluation | Welsh Economic Review

## 2007-13

Parhaodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i dderbyn y lefel uchaf o gymorth o dan raglen 'Cydgyfeirio' yn 2007 (yr enw newydd ar gyfer Amcan 1). Dosbarthwyd Dwyrain Cymru fel rhanbarth "Cystadleurwydd a Chyflogaeth", a derbyniodd bot llai.

Yn ystod y cyfnod 2007–2013, symleiddiwyd y strwythurau cyflawni yng Nghymru yn sylweddol. Er bod partneriaeth yn parhau i fod yn gonglfaen (roedd angen dull partneriaeth ar yr UE), disodlwyd partneriaethau lleol gan fwy o gydlynu rhanbarthol. Roedd ffocws hefyd ar lai o brosiectau, ond rhai mwy o faint, gan bwysleisio cydweithredu rhwng rhanddeiliaid, a chynyddu'r defnydd o gaffael cystadleuol.[43] Trwy ganolbwyntio ar brosiectau mwy, strategol, roedd y rhaglen yn ceisio cyflawni arbedion maint – er enghraifft, roedd prosiectau rhanbarthol fel 'Sgiliau ar gyfer yr Economi Ddigidol' yn gweithredu ar draws sawl sir yn hytrach na phob sir yn rhedeg ei hamrywiad ei hun a fyddai wedi digwydd yn y cyfnod blaenorol.

Sefydlwyd **Timau Ymgysylltu Strategol** i ddisodli'r Partneriaethau Lleol. Eu prif amcan oedd sicrhau dull strategol mwy cydgysylltiedig o gynllunio a chyflawni prosiectau a ariennir gan yr UE ledled y rhanbarth. Roedd y Timau Ymgysylltu Strategol - a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol ond a ariannwyd gan WEFO - yn darparu cyngor, cymorth a chamau hwyluso partneriaeth i ymgeiswyr prosiect a rhanddeiliaid. Fe wnaethant gynorthwyo prosiectau ar gamau datblygu, cyflwyno a chau, a chynnal ymweliadau ôl-ofal a chymorth i baratoi at archwiliad. Trefnwyd y Timau Ymgysylltu Strategol yn ôl rhanbarthau **Cynllun Gofodol Cymru** fel yr oeddent ar y pryd[44], gyda thîm penodol ar gyfer Gogledd Cymru a oedd yn cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 fel partneriaeth i ddatblygu dull rhanbarthol o fynd i'r afael â thwf economaidd a'r heriau a oedd yn wynebu economi Gogledd Cymru. Yn wreiddiol, roedd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol ynghyd â sefydliadau AU ac AB y rhanbarth. Sefydlwyd strwythur Cyd-bwyllgor ffurfiol ar gyfer y Bwrdd yn 2019 i ddatblygu a chyflawni mentrau economaidd rhanbarthol ymhellach, gan gynnwys Bargen Twf y Gogledd[45]. Dros amser, mae swyddogaethau a brandio'r Bwrdd wedi esblygu, ac yn 2021 daeth **Uchelgais Gogledd Cymru** i fod yr enw a oedd yn wynebu'r cyhoedd.

---

[43] Mae gwerthusiad o weithrediad y rhaglen yn y cyfnod hwnnw i'w weld fan yma: https://www.gov.wales/docs/wefo/publications/evaluation/171205-ex-post-evaluation-2007-2013-final-report-cy.pdf

[44] Roedd Cynllun Gofodol Cymru yn fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio datblygiad gofodol hirdymor Cymru. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2004 ac fe'i diweddarwyd yn 2008, a'i bwrpas oedd sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddi a datblygu ledled Cymru yn cael eu cydlynu a'u bod yn gynaliadwy, gan ystyried nodweddion unigryw gwahanol ranbarthau.

[45] Llofnodwyd Bargen Twf y Gogledd ar 17 Rhagfyr 2020, sy'n rhychwantu 15 mlynedd.

Ers ei sefydlu, daeth Tîm Ymgysylltu Strategol Gogledd Cymru yn gysylltiedig yn agos â gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan wasanaethu fel "cangen Ewropeaidd" y dull rhanbarthol hwnnw.[46]

Nododd gwerthusiad yn 2013 fod y dull gweithredu yn ystod y cyfnod 2007-2013 wedi gwella ffocws strategol – cyflwynwyd prosiectau mwy a oedd yn gwasanaethu sawl sir, a chafwyd llai o ddyblygu.[47] Roedd WEFO yn dal i reoli'r cymeradwyo a chyllid yn ganolog, ond roedd y Tîm Ymgysylltu Strategol yn bwynt cyffwrdd lleol yng Ngogledd Cymru. Cafodd rhanddeiliaid Gogledd Cymru fwy o ddylanwad hefyd wrth i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Tîm Ymgysylltu Strategol adeiladu cydlyniant rhanbarthol. Gellir gweld hyn fel symudiad cynnar tuag at y "rhanbartholdeb" a fyddai, yn ddiweddarach, yn nodweddu datblygiad economaidd Cymru (gan ragweld Bargenion Dinesig, ac ati).

## 2014-20

Parhaodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i dderbyn mwy o fuddsoddiad yn y cyfnod cyllido 2014-2020 fel "Rhanbarth Llai Datblygedig" o gymharu â'r setliad ar gyfer Dwyrain Cymru fel "Rhanbarth Mwy Datblygedig", tra bod llawer o **fentrau Cymru gyfan** hefyd wedi'u cyflwyno yn y cyfnod hwn.

Gan adeiladu ar fodel 2007–2013, ceisiodd y dull yng Nghymru gryfhau cydweithrediad rhanbarthol ymhellach ac esblygodd Tîm Ymgysylltu Strategol Gogledd Cymru i fod yn Dîm Ymgysylltu Rhanbarthol Gogledd Cymru. Roedd partneriaethau rhanbarthol hefyd yn cydweddu fwyfwy â Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf a oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys **Bargen Twf y Gogledd**.[48] Roedd y bargeinion hyn yn ategu cyllid yr UE, gan ganolbwyntio ar strategaethau economaidd rhanbarthol hirdymor.

Cynhaliwyd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Gogledd Cymru unwaith eto gan Gonwy ac fe'i cydleolwyd â swyddfeydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yng Nghyffordd Llandudno, gan gydweddu rheolaeth cronfeydd yr UE â rheolaeth ehangach **Strategaeth Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru** a ddisgrifir fel a ganlyn:

> "… un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i'r Gogledd. Caiff ei chyflawni drwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, gydag ymglymiad cryf gan y sector preifat ac ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru", gan adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos."[49]

---

[46] Llyfryn Tîm Ymgysylltu Strategol Gogledd Cymru ac Ewrop 2007 - 2013

[47] Adroddiad Synthesis Gwerthusiadau Thematig o Raglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru 2007-2013. Ar gael fan yma: Gwerthusiadau Thematig

[48] Cyfnod newydd i dyfiant y ogledd Cymru wrth i arweinyddiaeth cronfa'r llywodraeth groesawu arweinyddiaeth newydd - GOV.UK

[49] https://democracy.gwynedd.llyw.cymru/documents/s14828/Item%2010%20-%20Appendix%201%20-%20North%20Wales%20Growth%20Deal%20Bid.pdf

Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i nodi prosiectau strategol mawr ar gyfer Gogledd Cymru ac i "brofi" cynigion yn erbyn anghenion rhanbarthol (e.e. sicrhau bod prosiect mewn un sir yn ategu, nid yn dyblygu, prosiect mewn un arall). Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod y rhaglen hefyd yn cynnwys nifer o gynlluniau 'Cymru Gyfan' a oedd yn aml yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru.

Daeth gwerthusiad a gyhoeddwyd yn 2020 i'r casgliad bod y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol wedi bod yn effeithiol yn gyffredinol wrth gefnogi gweithrediad y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru, yn enwedig wrth hwyluso cyfathrebu rhwng WEFO a rhanddeiliaid rhanbarthol.[50] Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion, gan gynnwys awgrym y dylai Timau Ymgysylltu Rhanbarthol barhau i chwarae rhan allweddol yn rhaglenni cyllido'r UE yn y dyfodol, gyda rhai addasiadau i'w cylch gwaith a'u gweithrediadau i wneud y mwyaf o'u heffeithiolrwydd.

Sefydlwyd **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol** hefyd yn ystod y cyfnod hwn i nodi anghenion a blaenoriaethau ynghylch sgiliau.[51] Roedd y **Fframweithiau Blaenoriaethu Economaidd**, a oedd hefyd wedi'u cyflwyno yn y cyfnod hwn, yn darparu cyd-destun strategol ar gyfer buddsoddiadau, a chwaraeodd mewnbwn rhanbarthol ran hanfodol wrth ei ddatblygu a'i weithredu. Datblygwyd dull Fframweithiau Blaenoriaethu Rhanbarthol yn dilyn argymhellion Adroddiad Guilford[52], a adolygodd sut y dylid gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2014–2020.[53] Roedd y fframweithiau hyn yn gynyddol yn ymgorffori metrigau ehangach y tu hwnt i dwf economaidd, megis llesiant, cynaliadwyedd a gwytnwch cymunedol, gan gydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

---

[50] Gwerthusiad o'r timau ymgysylltu rhanbarthol | LLYW. CYMRU

[51] https://uchelgaisgogledd.cymru/lles-economaidd/cydweithio-rhanbarthol/partneriaeth-sgiliau-rhanbarthol-gogledd-cymru/

[52] Cafodd yr adroddiad, sy'n dwyn y teitl swyddogol Investing in Growth and Jobs: An Independent Review of Arrangements for Implementation of European Structural Funds Programmes 2014–2020 in Wales, ei gyhoeddi ym mis March 2013. [52] Gweler: Investing in Growth and Jobs: An Independent Review of Arrangements for Implementation of European Structural Funds Programmes 2014 – 2020 – European Sources Online

[53] Y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd: cefndir

# Trefniadau ar ôl Brexit

## Trefniadau llywodraethu

Daeth ymadawiad y DU o'r UE â chymorth y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru i ben. Mae adroddiad yr OECD yn 2024 yn disgrifio sut arweiniodd Brexit hefyd at newid sylweddol a sylfaenol yn y trefniadau llywodraethu sy'n ategu datblygu rhanbarthol yng Nghymru wrth i rôl WEFO ddod i ben. [54] Mae adroddiad yr OCED (2024) yn disgrifio sut y darparodd WEFO ffynhonnell lywodraethu de facto ar gyfer datblygu rhanbarthol yng Nghymru rhwng 200 a 2023.

Mewn ymateb i Brexit, datblygodd Llywodraeth Cymru fecanweithiau ac offer llywodraethu a fyddai'n darparu parhad ar gyfer datblygu rhanbarthol a dyrannu cyllid buddsoddi ar lefel ranbarthol. Cyflwynwyd pedwar rhanbarth economaidd (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru) i ddatblygu **Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol**, a gyflwynwyd yn 2021, a fyddai'n llywio ymyriadau datblygu economaidd rhanbarthol ar sail lle yn y dyfodol.[55] Gwnaeth hefyd gwblhau'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer **Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru** (2020), a ddatblygwyd fel model i ddisodli cronfeydd yr UE.[56] Byddai cymysgedd o ddulliau cyflawni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cyfrannu at y gweithredu. Cyflwynwyd cynllun gofodol cenedlaethol newydd - **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** - yn 2021, gyda rhaglenni yn y rhanbarthau economaidd.[57]

Er mwyn cefnogi'r fframwaith a'r cynllun gofodol a'u rhoi ar waith, pasiodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth i sefydlu strwythurau ar lefel ranbarthol yn y pedwar rhanbarth economaidd ar gyfer cynllunio a buddsoddi rhanbarthol, sef **Cyd-bwyllgorau Corfforedig**. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddiwygiad sylweddol mewn llywodraethu rhanbarthol yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau datblygiad rhanbarthol mwy cydgysylltiedig ac effeithiol ledled Cymru.

Mae adroddiad yr OECD (2024) yn nodi sawl cyfyngiad o ran cymhwyso'r model yn llawn, gan gynnwys cyfyngiadau cyllidebol ar lefel Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Lleol. Gwnaeth Cymru hefyd golli cyllid buddsoddi sylweddol ar gyfer datblygu rhanbarthol gan yr UE o ganlyniad i Brexit.

---

[54] OECD (2024) Regional Governance and Public Investment in Wales, United Kingdom: Moving Forward Together, OECD Multilevel Governance Studies, OECD Publishing, Paris, https://doi.org/10.1787/e143e94d-en https://www.oecd.org/en/publications/regional-governance-and-public-investment-in-wales-united-kingdom_e143e94d-en.html

[55] Fframweithiau economaidd rhanbarthol | LLYW. CYMRU

[56] Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru: fframwaith | LLYW. CYMRU

[57] Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW. CYMRU

## Lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Ymateb Llywodraeth y DU i golli cronfeydd yr UE ar gyfer datblygu rhanbarthol oedd lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ym mis Ebrill 2022. Roedd hyn yn dilyn blwyddyn o gynllun peilot yn 2021/22, o'r enw Cronfa Adfywio Cymunedol y DU. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei dosbarthu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol. Y cyllid a ddarparwyd i Ogledd Cymru gyfan rhwng 2022-25 oedd ~£40m y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n sylweddol llai na'r ~£100m+ y flwyddyn yr oedd Gogledd Cymru yn arfer elwa ohono o gronfeydd yr UE.

Mae hefyd yn bwysig nodi, trwy bwerau ariannol newydd a roddwyd i Lywodraeth y DU mewn gwledydd datganoledig gan **Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020,** mae mecanwaith dosbarthu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru. Tra’r oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli a darparu arian yr UE, mae Llywodraeth y DU yn darparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn uniongyrchol trwy awdurdodau lleol gyda'r rhesymeg o rymuso gwneud penderfyniadau ar lefel leol (Bachtler a Downes, 2023)[58]. Mae hyn wedi cyfyngu rôl Llywodraeth Cymru i bob pwrpas wrth osod strategaeth a rheoli buddsoddiad cyhoeddus ar gyfer datblygu rhanbarthol, gan wanhau ei gallu i ddylanwadu ar brosiectau rhanbarthol a thrawsffiniol (rhwng Cymru a Lloegr [y Deyrnas Unedig], Iwerddon yn ogystal â rhanbarthau eraill yr UE) (Senedd Cymru, 2023).[59]

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi parhau i fod yn rhan o fforwm sy'n cydweddu buddsoddiadau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin â'r Fargen Twf a'r strategaeth ranbarthol. Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau terfynol ar gyllid yn perthyn i Lywodraeth y DU ac awdurdodau lleol, yn hytrach na’r fframwaith UE/Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Mae blaenoriaethau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gyffredinol debyg helaeth i'r rhai a oedd ar waith ar gyfer Cronfeydd yr UE. Fodd bynnag, mae mwy o hyblygrwydd lleol heb reoliadau thematig cronfeydd yr UE. Mae hyn wedi cael ei groesawu'n gyffredinol gan awdurdodau lleol sydd wedi tynnu sylw at ystod o fanteision gan gynnwys gallu teilwra cyllid yn well i anghenion lleol a chydweddu â darpariaethau lleol eraill, dileu llawer o'r cyfyngiadau mewn perthynas â chymhwysedd cymorth, a mwy.

---

[58] Bachtler, J. a R. Downes (2023), Rethinking Regional Transformation: The State of Regional Policy in Europe, Prifysgol Strathclyde, https://eprc-strath.org/wp-content/uploads/2023/12/Rethinking-Regional-Transformation-EoRPA-report-23_1-ISBN.pdf

[59] Senedd Cymru (2023), Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl gadael yr UE, https://senedd.cymru/media/5luknxi4/gen-ld16114-w.pdf.

Er bod angen i awdurdodau lleol Cymru o fewn rhanbarthau'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf (sy'n cyfateb yn ddaearyddol i'r rhanbarthau economaidd) gyflwyno Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar y cyd i Lywodraeth y DU er mwyn derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, nid oedd unrhyw fecanwaith na chymhelliant gorfodol i sicrhau y byddai'r cronfeydd yn cael eu defnyddio i fynd ar drywydd buddiannau ar lefel ranbarthol neu fuddsoddi mewn prosiectau ar lefel ranbarthol. Yn ogystal, mae'r amserlenni ar gyfer gwario'r cyllid wedi bod yn fyr iawn o gymharu â chyfnod 8-9 mlynedd ar gyfer rhaglenni cyllido'r UE. O fewn y ffenestr wario, mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau i gyflawni wrth reoli risgiau allanol fel chwyddiant a phrinder sgiliau. Yn ogystal, mae gan rai awdurdodau lleol gapasiti a gallu cyfyngedig i gyflawni prosiectau (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2023, t. 30).[60] Dywedir bod y cyfyngiadau hyn wedi cyfyngu'r potensial i awdurdodau lleol ddefnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i fynd ar drywydd prosiectau strategol a chydweithredu rhanbarthol.

Mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o ran defnyddio'r cronfeydd. Mae adroddiad yr OECD (2024) yn dod i'r casgliad mai gan Dde-ddwyrain Cymru y mae'r mecanwaith mwyaf sefydliadol ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol, gan ddefnyddio Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (a'i Gabinet Rhanbarthol) fel y corff arweiniol sy'n defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys cymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol. Mae cynllun buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd yn cyflwyno dimensiwn cyflawni rhanbarthol, gyda dyraniad bach o oddeutu £7 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau twristiaeth a chymorth busnes rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o brosiectau a buddsoddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru wedi'u cyflawni ar lefel leol, ac nid oes llawer o enghreifftiau o gyflawni ar draws sawl awdurdod y tu hwnt i'r dyraniad a neilltuwyd. Mae'n ymddangos bod mwy o brosiectau dros sawl awdurdod wedi bod yng Ngogledd Cymru, gyda thîm y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Ngogledd Cymru wedi'i sefydlu o dan strwythur Uchelgais Gogledd Cymru (gyda Chyngor Gwynedd yn awdurdod lleol arweiniol) i reoli prosiectau sy'n ceisio cyflawni mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol. Daeth adroddiad yr OECD i'r casgliad hefyd nad oedd gan y ddau ranbarth arall yng Nghymru (Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru) fecanweithiau penodol i sicrhau buddsoddiad ar lefel ranbarthol.

---

[60] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2023), Levelling Up Funding to Local Government, https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/levelling-up-funding-to-local-government.pdf

# Atodiad D: Tablau Perfformiad Allbynnau a Chanlyniadau

Tabl A4: Cyflawniad allbynnau yn erbyn y targedau

| Allbwn | Cyfanswm a Gyflawnwyd | Targed | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Swm y gofod masnachol a gwblhawyd neu a wellwyd (M2) | 13,776 | 37,395 | 37% |
| Nifer y mentrau sy'n ymwneud â marchnadoedd newydd (Nifer y mentrau) | 4 | 20 | 20% |
| Nifer y twrnameintiau a gynorthwywyd (Nifer y twrnameintiau) | 9 | 186 | 5% |
| Nifer yr asedau Twristiaeth, Diwylliant neu Dreftadaeth a grëwyd neu a wellwyd (Nifer yr asedau) | 393 | 439 | 90% |
| Nifer y gwelliannau cymdogaeth a gyflawnwyd (Nifer y gwelliannau) | 1,749 | 2,358 | 74% |
| Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth iechyd meddwl a chorfforol gan arwain at gyflogaeth (Nifer y bobl) | 899 | 1,116 | 81% |
| Nifer yr adeiladau masnachol a gwblhawyd neu a wellwyd (Nifer yr adeiladau) | 220 | 299 | 74% |
| Nifer y coed a blannwyd (Nifer y coed) | 55,681 | 64,435 | 86% |
| Nifer y sefydliadau a gafodd gymorth ariannol ac eithrio grantiau (Nifer y sefydliadau) | 64 | 280 | 23% |
| Nifer y mentrau a gafodd gymorth ariannol ac eithrio grantiau (Nifer y mentrau) | 189 | 381 | 50% |
| Nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth (Nifer yr aelwydydd) | 3,416 | 3,961 | 86% |
| Nifer y bobl a gymerodd ran mewn rhaglenni profiad gwaith (Nifer y bobl) | 1,061 | 1,051 | 101% |
| Nifer y sefydliadau a gafodd gymorth anariannol ((Nifer y sefydliadau)) | 2,357 | 1,639 | 144% |
| Swm y tir cyhoeddus a grëwyd neu a wellwyd (M2) | 939,845 | 1,177,767 | 80% |
| Swm y tir a wnaed yn hygyrch i gadair olwyn / yn ddi-ris (M2) | 10,115 | 14,670 | 69% |
| Nifer y mentrau a dderbyniodd gymorth anariannol (Nifer y mentrau) | 4,135 | 4,560 | 91% |
| Nifer y bobl a gynorthwywyd i fynd ar gwrs trwy ddarparu cymorth ariannol (Nifer y bobl) | 2,149 | 1,637 | 131% |
| Nifer yr entrepreneuriaid posibl a gynorthwywyd i fod yn barod i ymgymryd â menter (Nifer yr entrepreneuriaid) | 544 | 440 | 124% |
| Nifer y sefydliadau a gafodd grantiau (Nifer y sefydliadau) | 770 | 445 | 173% |

| Allbwn | Cyfanswm a Gyflawnwyd | Targed | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyrsiau a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â chyflogwyr (Nifer y cyrsiau) | 135 | 0 | 0 |
| Nifer y cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd (Nifer y cyfleusterau neu gyfleusterau) | 544 | 292 | 186% |
| Nifer y bobl a gynorthwywyd i gymryd rhan mewn addysg (Nifer y bobl) | 4,184 | 3,119 | 134% |
| Nifer y marchnadoedd lleol a grëwyd neu a gynorthwywyd (Nifer y marchnadoedd) | 89 | 49 | 182% |
| Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd o ganlyniad i gymorth (Nifer yr astudiaethau) | 211 | 253 | 83% |
| Nifer y bobl a gafodd gymorth i ddilyn cyrsiau sgiliau sylfaenol (Nifer y bobl) | 4,697 | 2,293 | 205% |
| Nifer y bobl a gafodd gymorth i ymwneud â sgiliau bywyd (Nifer y bobl) | 15,008 | 7,375 | 203% |
| Nifer y mentrau a gafodd grantiau (Nifer y mentrau) | 1,100 | 1,216 | 90% |
| Nifer y bobl a aeth i sesiynau hyfforddi (Nifer y bobl) | 9,921 | 6,963 | 142% |
| Nifer y bobl a enillodd gymhwyster (Nifer y bobl) | 1,924 | 0 | 0 |
| Nifer y digwyddiadau / rhaglenni cyfranogol (Nifer y digwyddiadau / rhaglenni cyfranogol) | 3,459 | 3,684 | 94% |
| Nifer y cynlluniau datgarboneiddio a ddatblygwyd o ganlyniad i gymorth (Nifer y cynlluniau) | 426 | 342 | 125% |
| Nifer y bobl a gafodd gymorth i gael gwaith (Nifer y bobl) | 2,083 | 1,429 | 146% |
| Nifer y llwybrau beicio neu lwybrau troed newydd neu sydd wedi'u gwella (Nifer y llwybrau beicio neu lwybrau troed) | 42 | 22 | 191% |
| Nifer y bobl a atgyfeiriwyd gan bartneriaid i gyrsiau uwchsgilio (Nifer y bobl) | 421 | | 0 |
| Nifer y bobl a gynorthwywyd i ennill cymhwyster (Nifer y bob) | 7,142 | 3,827 | 187% |
| Nifer y bobl mewn cyflogaeth sy'n ymwneud â'r system sgiliau (Nifer y bobl) | 1,774 | 2,651 | 67% |
| Nifer y bobl a gymerodd ran mewn cyrsiau wedi'u hariannu gan Lluosi (Nifer y bobl) | 15,134 | 0 | 0 |
| Nifer y bobl a gyrhaeddwyd (Nifer y bobl) | 4,680,845 | 2,463,853 | 190% |
| Nifer yr entrepreneuriaid posibl a gynorthwywyd i fod yn barod i ymgymryd â busnes (Nifer yr entrepreneuriaid) | 71 | 53 | 134% |
| Nifer y cyrsiau rhifedd i oedolion a gynhaliwyd mewn ardal leol drwy raglen Lluosi (Nifer y cyrsiau) | 1,740 | 0 | 0 |
| Nifer y prosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus (Nifer y prosiectau) | 322 | 361 | 89% |

| Allbwn | Cyfanswm a Gyflawnwyd | Targed | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gynorthwywyd (Nifer y digwyddiadau/gweithgareddau) | 10,274 | 4,668 | 220% |
| Nifer y bobl a gafodd gymorth i barhau mewn gwaith (Nifer y bobl) | 669 | 579 | 116% |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gynorthwywyd (Nifer y cyfleoedd) | 38,768 | 12,590 | 308% |
| Nifer y bobl a gafodd gymorth i chwilio am waith (Nifer y bobl) | 2,001 | 1,188 | 168% |
| Nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth i fanteisio ar fesurau effeithlonrwydd ynni (Nifer yr aelwydydd) | 1,813 | 605 | 300% |
| Nifer y bobl a oedd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a gafodd gymorth (Nifer y bobl) | 6,095 | 3,112 | 196% |
| Nifer y bobl economaidd anweithgar a gynorthwywyd i ymwneud â'r system fudd-daliadau (Nifer y bobl) | 517 | 160 | 323% |
| Swm y tir a adferwyd (M2) | 923,520 | 655,910 | 141% |
| Nifer y bobl economaidd anweithgar a dderbyniodd wasanaethau cymorth gweithiwr allweddol (Nifer y bobl) | 3,420 | 2,028 | 169% |
| Swm y mannau gwyrdd neu las a grëwyd neu a wellwyd (M2) | 1,582,907 | 1,148,940 | 138% |
| Swm y seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon a gwblhawyd (M2) | 66,684 | 2,001 | 3,333% |
| Swm y seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon a osodwyd (M2) | 6 | 0 | 0 |
| Nifer yr angylion buddsoddi yr ymgysylltwyd â nhw (Nifer yr angylion buddsoddi) | 45 | 43 | 105% |
| Nifer y gwahanol garfannau a gymerodd ran mewn cyrsiau rhifedd (Nifer y carfannau) | 295 | 0 | 0 |
| Nifer yr ymgysylltiadau effeithiol rhwng gweithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol (Nifer yr ymgysylltiadau) | 2,305 | 1,076 | 214% |
| Nifer y mentrau a gafodd fuddsoddiad gan angylion buddsoddi (Nifer y mentrau) | 9 | 4 | 225% |
| Nifer y seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon a osodwyd (Nifer yr unedau) | 140 | 98 | 143% |
| Nifer y bobl a gafodd gymorth i gael trwydded alwedigaethol (Nifer y bobl) | 409 | 62 | 660% |
| Nifer y bobl sydd wedi ailhyfforddi (Nifer y bobl) | 455 | 321 | 142% |
| Nifer yr adeiladau sydd wedi'u hadfer (nifer yr adeiladau) | 8 | 19 | 42% |
| Cyfanswm hyd llwybrau beicio neu lwybrau troed newydd neu wedi'u gwella (KM) | 63 | 49 | 129% |

Tabl A4: Cyflawniad canlyniadau yn erbyn targedau

| Canlyniad | Cyfanswm a Gyflawnwyd | Targed | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Lleihau troseddau cymdogaeth (Nifer y troseddau a adroddwyd) | 34 | 345 | 10% |
| Amcangyfrif o ostyngiadau allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid o ganlyniad i'r cymorth (tunelli o CO2e) | 481 | 662 | 73% |
| Nifer uwch o fusnesau bach a chanolig sy'n arloesi (Nifer y mentrau) | 41 | 1 | 4,100% |
| Nifer y mentrau sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygu (Nifer y mentrau) | 51 | 195 | 26% |
| Nifer y bobl mewn cyflogaeth â chymorth (Nifer y bobl) | 180 | 151 | 119% |
| Cynnydd yn y seilwaith ynni carbon isel neu sero sydd wedi'i osod (M2) | 3,892 | 5,440 | 72% |
| Gwell canfyddiad o atyniadau (Nifer y bobl) | 527 | 1,302 | 40% |
| Gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau (Nifer y bobl) | 67,996 | 91,761 | 74% |
| Swyddi a ddiogelwyd o ganlyniad i gymorth (Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn) | 1,004 | 1,729 | 58% |
| Gwell canfyddiad o ddiogelwch (Nifer y bobl) | 2,982 | 2,628 | 113% |
| Gwell niferoedd yn ymgysylltu (Nifer y bobl) | 155,541 | 98,963 | 157% |
| Swyddi a grëwyd o ganlyniad i gymorth (Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn) | 610 | 876 | 70% |
| Nifer yr unigolion economaidd anweithgar sy'n ymwneud â'r system fudd-daliadau yn dilyn cymorth (Nifer y bobl) | 166 | 342 | 49% |
| Gwell canfyddiad o brosiect cyfleuster/seilwaith (Nifer y bobl) | 1,773 | 1,930 | 92% |
| Mwy o ddefnyddwyr cyfleusterau/amwynderau (Nifer y defnyddwyr) | 175,432 | 92,165 | 190% |
| Nifer y mentrau sydd wedi mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd i'r cwmni (Nifer y mentrau) | 523 | 486 | 108% |
| Mwy o ddefnydd o lwybrau beicio neu lwybrau troed (Nifer y beicwyr neu gerddwyr) | 197,357 | 58,244 | 339% |
| Nifer y bobl mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, yn dilyn cymorth (Nifer y bobl) | 705 | 757 | 93% |
| Nifer yr unigolion economaidd weithgar sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant sgiliau prif ffrwd (Nifer yr unigolion) | 1,377 | 1,938 | 71% |
| Nifer y mentrau sydd â chynhyrchiant gwell (Nifer y mentrau) | 110 | 317 | 35% |
| Cynnydd yn nifer yr ymweliadau (Nifer y bobl) | 997,568 | 275,905 | 362% |

| Canlyniad | Cyfanswm a Gyflawnwyd | Targed | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Nifer y rhaglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol dan arweiniad y gymuned o ganlyniad i'r cymorth (Nifer y rhaglenni) | 863 | 621 | 139% |
| Adeiladau â gwell cysylltedd digidol o ganlyniad i'r cymorth (Nifer yr adeiladau) | 111 | 129 | 86% |
| Nifer y prosiectau a ddeilliodd o astudiaethau dichonoldeb a ariannwyd (Nifer y prosiectau) | 103 | 140 | 74% |
| Busnesau yn fwy cynaliadwy (Nifer y mentrau) | 297 | 489 | 61% |
| Nifer y bobl sy'n parhau mewn cyflogaeth am 6 mis (nifer y bobl) | 132 | 216 | 61% |
| Cynnydd yng ngwariant ymwelwyr (Gwariant ymwelwyr mewn £) | 362,763 | 400,718 | 91% |
| Lleihad yng nghyfraddau'r lleoedd gwag (Nifer yr unedau gwag a lenwyd) | 60 | | 0 |
| Nifer y bobl sydd â sgiliau sylfaenol ôl cael cymorth (Nifer y bobl) | 2,411 | 1,189 | 203% |
| Mwy o bobl yn defnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni (Nifer yr aelwydydd) | 1,802 | 2,136 | 84% |
| Nifer y sefydliadau a gymerodd ran mewn gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth ar ôl gael cymorth (Nifer y sefydliadau) | 520 | 968 | 54% |
| Nifer y cynhyrchion newydd i'r farchnad (Nifer y cynhyrchion) | 27 | 23 | 117% |
| Nifer yr oedolion a gymerodd ran mewn cymwysterau a chyrsiau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, cyfwerth â Lefel 2 (Nifer yr oedolion) | 8,103 | 1,925 | 421% |
| Nifer y bobl sy'n profi llai o rwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau (Nifer y bobl) | 5,734 | 3,467 | 165% |
| Cynnydd yn nifer y chwiliadau ar y we am le (Nifer y chwiliadau ar y we) | 141,086 | 34,220 | 412% |
| Nifer y bobl sydd wedi ymgyfarwyddo â disgwyliadau cyflogwyr, gan gynnwys safonau ymddygiad yn y gweithle (Nifer y bobl) | 3,369 | 2,748 | 123% |
| Nifer y mentrau sydd wedi mabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd neu well (Nifer y mentrau) | 237 | 126 | 188% |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd o ganlyniad i'r cymorth (Nifer y rolau gwirfoddoli a grëwyd) | 17,042 | 5,293 | 322% |
| Nifer y mentrau newydd a grëwyd o ganlyniad i'r cymorth (Nifer y mentrau newydd) | 202 | 214 | 94% |
| Nifer y bobl aeth ati i chwilio am swydd ar ôl cael cymorth (Nifer y bobl) | 1,225 | 856 | 143% |
| Cynnydd yn nifer y mentrau a gafodd gymorth (Nifer y mentrau) | 1,171 | 640 | 183% |

| Canlyniad | Cyfanswm a Gyflawnwyd | Targed | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl a enillodd gymwysterau, trwyddedau a sgiliau (Nifer y bobl) | 3,368 | 2,271 | 148% |
| Gwell canfyddiad/profiad o hygyrchedd (Nifer y bobl) | 204,647 | 207,277 | 99% |
| Nifer y mentrau sy'n ymwneud â marchnadoedd newydd (Nifer y mentrau) | 267 | 132 | 202% |
| Nifer y bobl sy'n parhau i dderbyn cymorth gweithiwr allweddol a gwasanaethau ychwanegol (Nifer y bobl) | 2,448 | 1,543 | 159% |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr (Nifer y bobl) | 1,099,572 | 116,730 | 942% |
| Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cymorth sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau (Nifer y bobl) | 8,954 | 2,832 | 316% |
| Nifer y mentrau ar gam cynnar a gynyddodd eu refeniw ar ôl cael cymorth (Nifer y mentrau) | 90 | | 0 |
| Pobl sy'n ennill cymhwyster neu'n cwblhau cwrs ar ôl cael cymorth (Nifer y bobl) | 6,076 | 3,728 | 163% |
| Nifer y cyfranogwyr gweithredol neu barhaus mewn grwpiau cymunedol o ganlyniad i'r cymorth (Nifer y cyfranogwyr) | 1,738 | 528 | 329% |
| Nifer yr oedolion a enillodd gymwysterau mathemateg hyd at ac yn cynnwys cyfwerth â Lefel 2 (Nifer yr oedolion) | 10,323 | 1,819 | 568% |
| Nifer y bobl mewn addysg/hyfforddiant ar ôl cael cymorth (Nifer y bobl) | 4,251 | 2,911 | 146% |
| Gwell canfyddiad o ddigwyddiadau (Nifer y bobl) | 28,399 | 5,581 | 509% |
| Gwell canfyddiad o farchnadoedd (Nifer y bobl) | 676 | 76 | 889% |
| Digwyddiadau/mynediad yn fwy fforddiadwy (Fforddiadwyedd mewn £) | 87,377 | 50,589 | 173% |
| Mwy o fuddsoddiad (£) | 2,255,693 | 2,005,001 | 113% |
| Nifer y mentrau sydd wedi cynyddu eu gallu allforio (nifer y mentrau) | 8 | 4 | 200% |
| Nifer y bobl a wnaeth ymwneud â gwasanaethau gofal iechyd prif ffrwd (Nifer y bobl) | 555 | 255 | 218% |
| Nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn fwy cyflogadwy drwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol wedi'u hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (Nifer y bobl) | 3,719 | 2,367 | 157% |
| Nifer yr unedau gwag sydd wedi'u llenwi | 2 | 45 | 4% |

Cysylltwch â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill